



Y Monwyson: Lewis Morys, Richard Morys, William Morys a Goronwy Owen

<https://hdl.handle.net/1874/380748>



y Monwyson :

Lewis Morys,
Richard Morys,
William Morys,
a
Goronwy Owen.

gan
Asaph.

1/6.

VAN HAMEL

503

E DONATIONE

A. G. van HAMEL


PROFESSORIS


ORDINARIII IN


ACADEMIA

RHENO-TRAIECTINA

1923—1946









(From a photo by W. Williams, Carnarvon.)

Y Monwysion :

Lewis Morys,
Richard Morys,
William Morys,
a
Goronwy Owen.

gan
Asaph.

1902.

Argraffwyd gan R. E. JONES A'I FRODYR, Conwy ; a
Chyhoeddwyd gan T. R. ROBERTS (Asaph),
Caernarfon.





. At y Darllenydd. .

DN Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl, 1900, cynnygiwyd gwobr o £10 am Draethawd Beirniadol ar "Y Monwyson—Lewis Morys, Richard Morys, William Morys, a Goronwy Owen"—a dyfarnwyd y wobr i awdwr y traethawd hwn. Yr oedd y feirniadaeth fel y canlyn :—

BEIRNIADAETH Y PARCH. JOHN WILLIAMS.

ANHAWDD fuasai cael pedwar Cymro, yn frodorion yr un gymydogeath, ac yn cyd-oesi, hafal yn eu talent a'u hathrylith, yn eu gwladgarwch a'u defnyddioldeb i'r pedwar gwŷr hyn. Am y Morysiaid yr oeddynt y "tri mab o ddoniau tramawr." Golygodd Rhisiart Morys ddau Feibl Cymraeg, un yn 1746 a'r llall yn 1752; a chydolygodd Eiriadur Cymraeg a Saesneg gyda Thomas Jones. Yr oedd William Morys yn llysieuydd, yn gerddor, a bardd o radd uchel. Ac am Lewis Morys, ni bu nemor wr mwy amryfal ei ddoniau, na'r un offrymodd ei gedau yn llwyrach ar allor gwladgarwch. Rhoddai ei ddylanwad, ei gynghor, a'i arian o blaid beirdd a llenyddiaeth ei wlad. Ac nid oes neb teilyngach o gofgolofn yn ei wlad ei hun na'r gwr mawr hwn. Am Oronwy Owain fel bardd, yr oedd yn un o'r sêr disgleiriaf, os nad y disgleiriaf oll, a ymddangosodd yn ffurfafen Cymru erioed.

Dyma felly destyn teilwng mewn Eisteddfod Genedlaethol i ysgrifenu arno. Addefwn y dylasai y wobr fod yn llawer mwy, fel ag i'w wneud yn werth y drafferth i chwilio i'r trysorau gwerthfawr sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig o eiddo Lewis Morys.

Ni ddaeth ond dau gyfansoddiad i law, yn dwyn ffugenwau *Emerson a Llewelyn Wyn*.

Traithawd byr, rhy fyr, yw yr eiddo *Emerson*. Nid yw yn gwbl ddiwall yn ei sillebiaeth na'i ramadeg; ond eto y mae ei ddiwyg lenyddol ar y cyfan yn un deilwng iawn. Y mae yn amgen llenor na'i gyd-gystadleuydd; o leiaf y mae yn dangos llawer mwy o drafferth i ffurfio brawddegau llyfn, coeth, a chryfion nag ef. Ond y mae y trraithawd yn llawer rhy fyr mewn cystadleuaeth o bwysigrwydd hon.

Mae trraithawd *Llewelyn Wyn* yn un maith a llafurfawr. Y mae yn cynwys 352 o dudalenau, ac wedi ei ysgrifenu yn rhwydd a darllenadwy, heb ymgais o gwbl at gaboli ei frawddegau. Mae rhai brychau yn ei iaith a'i sillebiaeth yntau y dylasai, ac y gallasai, fod hebddynt. Dengys radd helaeth iawn o wybodaeth am y gwŷr enwog yr ysgrifena am danynt, ac y mae wedi trethu yn drwm holl fyd y llenyddiaeth sydd yn dwyn perthynas â'i destyn. Teimlwn y gallasai adael llawer o'i ddyfyniadau allan, a d'od a mwy o'i feirniadaeth ei hun i mewn. Eto, y mae trraithawd *Llewelyn Wyn*, parthed ei gynllun a'i weithiad allan, yn tra rhagori ar yr eiddo *Emerson*, ac ystyriwn ei fod yn deilwng o'r wobr.

Ar air a chydwybod.

BEIRNIADAETH DEWI MON.

Ni dderbyniwyd ond dau draithawd ar y testyn dyddorol hwn, sef yr eiddo *Emerson a Llewelyn Wyn*. Rhaid i mi addef fy mod yn teimlo yn siomedig na buasai mwy wedi cynyg; ond dichon fod byrdrda yr amser yn cyfrif i raddau am hyn. Nis gellir gwneud cyfiawnder â'r fath destyn mewn ychydig fisoedd oddigerth fod gan ddyn gryn lawer o oriau hamddenol ar ei law.

Emerson.—Cynwysa y trraithawd hwn ddau a thriugain o dudalenau (*foolscap*). Rhy fyr o lawer. Dengys yr awdwr gydnabyddiaeth led helaeth â'r testyn. Dyry lawer o ddyfyniadau o weithiau y Monwyson ac awduron eraill. Ond prin y gellir galw y gwaith yn "draithawd beirniadol" o gwbl, yn gymaint nad yw yr awdwr yn rhoddi ond pur

ychedig o'i farn ei hun am y gwŷr enwog a ddarlunir ganddo.

Llewelyn Wyn.—Cynwysa y traithawd hwn 352 o dudalenau. Y mae ôl ymchwiliad a llafur yn y cyfansoddiad o'r dechreu i'r diwedd. Ymddengys i'r awdwr gasglu cryn lawer o ddefnyddiau at ei bwrpas, ac y mae ar y cyfan wedi gwneud defnydd priodol ohonynt. Cawn gipdrem glir ar fywydau y Monwyson (yn enwedig yr enwocaf ohonynt, Lewis Morris), a dyfyniadau digon cyflawn o'u gweithiau i ddangos eu neillduolion fel awdwyr; ac yn ychwanegol at hyn rhoddir i ni farn rhai o'r llenorion blaenaf am eu teilyngdod. Ond nid yw yr awdwr wedi rhwymo ei hun wrth farn neb pa bynag. Meddylia drosto ei hun, a dyry i ni ffrwyth ei fyfyrddodau mewn iaith goeth a darllenadwy. Y bai mwyaf a nodwn yw arwydd brys. Dichon mai diffyg amser yw y rheswm am hyn. Fodd bynag, cynghorwn yr awdwr i ail ysgrifenu ei draithawd yn fanwl cyn ei anfon i'r wasg. Wedi hyny bydd yn flasus-fwyd o'r fath a fwynha pob Cymro sydd yn cymeryd dyddordeb yn hanes llenyddiaeth ei wlad. Rhodder y wobr i *Llewelyn Wyn.*

Ar air a chydwybod.





.. Cynnwysiad. ..

PENNOD I.

LEWIS MORYS.

Byr-hanes ei fywyd—Ei *Plans of Harbours*, &c.—Cywydd i ofyn Dillad—Cwynfan i Wil Bol Haul—Galar-nad Bol Haul—*The Petition of the famous Bol Haul*—Cariad-gerdd Nansi Llwyd—Cywydd y Rhew a'r Eira—Môr-ladron Crigyll—Cywydd y wrach ddigywilydd—Canu a gant Llywelyn Ddu tros ei frawd Gwilym—Deg Gorchymyn y Traws Cyfoethog Annrugarog—Deg Gorchymyn y Dyn Tlawd—Caniad Melinydd Meirion—Englynion ar y Cildannau—Gallt y Gofal—Cywydd Gorthrechadau Angau—Caniad Hanes Henaint—Morwynion Glân Meirionydd—Ei ganeuon dichwaeth—Y *Diddanwch Teuluaidd*—Sylwadau Ashton—Barn Dr. Lewis Edwards—Lewis Morys a'r ddiod feddwol—Y *Celtic Remains*—Ei lythyr at Mr. Pegge, yn cynwys hanes ei efrydiaeth—Cynllun y gwaith—Dyfyniadau o'r llyfr—Lewis Morys yn cywiro Camden—Sylwadau Lewis Moris ar Brut y Brenhinoedd, Caer, Môr, a Rhuddlan—Dyled Cymru iddo—Ei lythyrau yn y *Cambrian Register*—Dyfyniadau o honynt—Ei wasanaeth i Gymru yn sefydlu yr argraphwasg gyntaf yn y Gogledd—“Tlysau yr Hen Oesoedd”—“Annogaeth i Argraffu Llyfrau Cymraeg”—“A Short History of the Manor of Creuthyn”—“Rhodd Meistr i'w Brentis,” &c.—Tafoliad Hiraethog o Lewis Morys—Barn Ieuan Brydydd Hir—Cywydd Marwnad y Prydydd Hir—Syniad Iolo Morganwg am Lewys Morys fel ieithyddwr—Barn Mr. Pegge—Dyfyniad o'r Rhagy-madrodd i'r *Diddanwch Teuluaidd*—Tafoliad Lewis Morys o'r beirdd—Ei feirniadaeth ar gywydd o waith y

Prydydd Hir—Ei gasgliad o weithiau yr hen feirdd—Ei wasanaeth fel noddwr beirdd a llenorion—Ei gymwynasgarwch i “Parry Ddall”—Ei waith yn nglŷn â Chymdeithas y Cymmrodorion—Marwnad Goronwy iddo—Ei safle fel bardd.

PENNOD II.

RHISIART MORYS.

Ei enedigaeth—Cyfeiriad Goronwy ato fel bardd—Ei Gywydd Marwnad i'r Frenhines Carolina—Ei wasanaeth fel golygydd argraphiadau 1746 a 1752 o'r Beibl—Cannoliaeth Ieuan Brydydd Hir—Y gyfraith yn nglŷn â phenodiad Sais yn berson Trefdraeth—Ei gyfeillgarwch â Goronwy—A'i lythyr olaf ato—“Gwasanaeth Cyhoedd Eglwys Loegr”—Ei argraphiad o Eirlyfr Cymraeg a Saesneg Thomas Jones.

PENNOD III.

WILLIAM MORYS.

Byr-hanes ei fywyd—Ei wasanaeth gyda chaniadaeth yr Eglwys—Ei allu fel llysieuydd—Ei waith yn adysgrifenu gwaith yr hen feirdd—“Y Delyn Ledr”—Syniadau Ieuan Brydydd Hir am William Morys—Ei Gywydd Marwnad iddo—Englyn William Morys i Sion Rhydderch—Beirniadaeth Goronwy.

PENNOD IV.

GORONWY OWEN.

Byr-hanes ei fywyd—Englynion i Dduw—Cywydd y Farf—Cywydd y Gwahawdd—Cywydd y Cryfion Byd—Cywydd y Cynghorfynt, neu'r Geffigen—Awdl yn ol dul! Meilir Brydydd—Calendr y Carwr—Englynion i Twm Sion Twm—Awdl y Gofuned—Cywydd Atteb i Anerch Huw ap Huw—Dyledswydd a Doethineb Dyn—Cywydd ar Enedigaeth Sior Herbert—Cywydd i'r Awen—Cywydd y Maen Gwerthfawr—Cywydd Marwnad i Marged Morys—Y Caniad i'r Cymmrodorion—Cywydd Hiraeth am Wlad Fon—Awdl-Farwnad i Mr. John Owen—Arwyrain

y Nennawr—Cywydd i Ddiawl—Ei Gywyddau i'r Calan
 —Cywydd i Lewys Morys—Priodasgerdd Elin Morys—
 Cywydd Bonedd a Chynneddfau'r Awen—Englynion i
 Ellis Roberts, y Cowper—Cywydd y Farn Fawr—Ei
 gyfeithiad Seisnig—Teilyngdod cydmariaethol Goronwy
 a William Wynn ar “Y Farn”—Barn Dr. Lewis Edwards
 am Gywydd Goronwy—Awdl-Farwnad Lewis Morys—
 Llythyr Llewelyn Ddu—Barn Talhaiarn ac Elfed am y
 Gwaith—Nodwedd ddiarebol barddoniaeth Goronwy—
 A'i lythyrau—Ei lythyrau yn ddrych o'i gymeriad—Ei
 awydd angerddol i ddysgu—Ei fedrusrwydd mewn dysgu
 ieithoedd—Ei dylodi a'i anfanteision—Ei awydd i dalu ei
 ffordd—Ei ysbryd dirwgnach—Y llon a'r chwareus yn ei
 lythyrau—Ei sylwadau ar y mesurau caethion—Ei
 anghydwelediad â Llywelyn Ddu—Teilyngod y llythyrau
 —Ei ddyled i'w fam—Sylwadau y Proff. J. Morris Jones
 —Goronwy a Geiriadur Richards—Y pedwar mesur ar
 hugain—Sylwadau Goronwy ar rai o honynt—Syniad
 Gwallter Mechain—A Gwilym Hiraethog—Goronwy a'r
 gynghanedd lusg—Tafoliad Lewis Morys o'r Beirdd—
 Barn Eben Fardd am deilyngdod Goronwy—Syniad
 Gutyn Peris—Dim o'r arddull Saesneg yn ei waith—
 Prinder ei gyfeiriadau at brydferthion natur—Ei goethder
 —Sylwadau Gwilym Hiraethog a Dr. Lewis Edwards ar
 hyn—Ei ragoriaeth fel bardd.



PENNOD I.

LEWIS MORYS.



MAE peth amheuaeth yn bod gyda golwg ar adeg genedigaeth Llewelyn Ddu o Fôn. Dywed Gwilym Lleydd iddo gael ei eni yn Mhentref Eirianell, yn mhlwyf Penrhos Llugwy, Mawrth 1, 1702 (*Llyfryddiaeth y Cymry*, t.d. 370); yn *Enwogion Cymry* dywedir mai yn y Tyddyn Melus, plwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd y ganwyd ef, ar y 12fed o Fawrth, 1702; ond fel hyn y dywed Dafydd Ddu o Eryri.—“Lewis Morys, a anwyd, meddir, yn y Tyddyn Melus, yn mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, yn Mon, ar y 12fed dydd o Fawrth, 1700, fel yr ymddengys yn nghoflyfr yr Eglwys hono,”—(*Y Diddanwch Teuluaidd*, arg. 1810, t.d. xxii.). Mab ydoedd Lewis Morys i Morys ap Rhisiart Morys, a Margaret, merch Morys Owen, o Fodafon y Glyn. Cylchwr (*cowper*) oedd y tad, a dilynodd Lewis yr un gelfyddyd am beth amser, ond trodd yn fuan at y gwaith o fesur tir. Drwy hyn, “yn gystal a'i gywreinrwydd cyffredinol.” dygwyd ef i “syiw a chymeriad boneddigion ei wlad enedigol,” a phenodwyd ef i'r swydd o gasglydd cyllid yr halen yn nholffa Caer-gybi, o dan y Llywodraeth. Wedi hyny, symudwyd ef i lenwi swydd gyffelyb yn Aberdyfi. Yn 1737 phenodwyd ef gan y Morlys (*Admiralty*) arolygu, mesur a darlunio porthladdoedd ac arfor-

diroedd Cymru, ac yn 1748 cyhoeddwyd ei *Plans of Harbours, Bars, Bays, and Roads in St. George's Channel*. Cynnwysa y gwaith hwn dros ugain o ddarlunleni yn dangos yr aberoedd, porthladdoedd, &c., ar gyffiniau Cymru, o'r Penmaenmawr hyd ymarllwysiad yr Hafren. Dywedir y bwriadau fyned yn mlaen yn mhellach, hyd bentir Cornwall, ond i'r rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc, yn 1774, ei rwystro yn hyn. Cyhoeddwyd argraphiad newydd o'r gwaith yn 1801, gyda nodiadau ychwanegol gan un o'i feibion, William Morris. Gellir ffurfio syniad lled gywir am natur y gwaith oddiwrth y dyfyniad canlynol o'r rhagymadrodd i argraphiad 1748:—

YR athrist hanesion am longdrylliadau, a cholledion, yn dygwydd mor fynych ar dueddau Cymry (y rhai yn ddi-ammheu a achlysurwyd yn benaf oblegid diffyg gwybod-aeth, ac amherffeithrwydd y Darluniadau a roddwyd o'r parthau hyny) a gymhellodd gyfarwyddwyr y Morlys i gymmeryd yr unrhyw dan eu hystyriaeth, ac i benderfynu ar fod i arolygiad mesurol gael ei gymmeryd mewn llaw. Ac yn y flwyddyn 1737, rhyngodd bodd iddynt fy mhenodi i at y gorchwyl; ond yn y fl 1744, cyfododd y rhyfel rhwng y deyrnas hon a Ffrainc, a llesteiriwyd y gwaith; Y darluniadau o'r Porthladdoedd, &c., ag sydd yn awr wedi eu cerfio, ac yn cael eu gosod yn y Traethawd hwn, a ffurfiwyd yn y dechreu yn llyfr bychan, a wnaethym i'm gwasanaeth i fy hun, er mwyn adnewyddu fy nghof, pan ddygwyddai tymmestloedd, neu ryw anhap disymwth, a ddichonai ddamweinio yn ystod y gwaith. Ond hapiodd i mi ddangos y pethau hyn i Arglwyddi y Morlys, a rhyngodd bodd iddynt eu cymeradwyo, gan anog ar iddynt gael eu cyhoeddi er budd i forwyr; yng nghyd â rhai crybwylliadau a wnaethwn mewn perhynas i'r gwelliadau a ellir eu gwneuthur yn y Porthladdoedd hyny: gallaf anturio honi fod un peth *anarferol* yn y Darluniadau hyn, bod enwau lleoedd wedi eu doddi i lawr yn ol eu gwir orgraff.

Yn rhifyn Mai, 1896 (t.d. 232) o *Wales*, ceir dyfyniad o'r argraffiad cyntaf, yn cynwys desgrifiad Lewis Morys o Aberystwyth, fel yr oedd yn ei ddyddiau ef, ac awgrymiadau synwrol iawn tuag at wneud y lle yn fwy cyfleus i longau. Y mae ganddo hefyd sylwadau manwl ar y gwahanol bysgod oeddynt i'w cael yno, a llawer o ffeithiau dyddorol am y gweithydd plwm yn y gymydog-aeth, oddiwrth yr hyn y gwelwn ei fod wedi cyflawni y gwaith a ymddiriedwyd iddo yn hynod lwyr.

Bu yn briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Elizabeth Griffiths, etifeddes Tŷ Wrdyn, ger Caerdybi, yr hon a briododd ar y 29ain o Fawrth, 1729. Ganwyd iddo fab o'r enw Lewis, yr hwn a fu farw yn ieuanc, a dwy ferch o'r briodas hon. Ei ail wraig oedd Anne Lloyd, Etifeddes Penybryn, yn sir Aberteifi, ac yn y sir hono y treuliodd y rhan olaf o'i oes. Bu farw yn Penybryn, Ebrill 11eg, 1765, a chladdwyd ef yn Llanbadarn Fawr. Desgrifir ef fel "gwr grymus, lluniaidd yn ei holl gorph, a glân o bryd a gwedd,—llawen, a llawn afaeth."

Y mae gan Lewis Morys gywydd i ofyn dillad dros William Dafydd, a elwir yn gyffredin "Bol Haul," gan y Dr. Ed Wynne, o Fodewryd, yn Mon, Siansler Henffordd. Dechreua yn y dull arferol drwy ganmol y gŵr at yr hwn yr antonwyd y cais, a'i briod hefyd :—

Duw gwyn i'ch dilyn eich dau,
 Rywiog wr, a'r wraig orau;
 Byw'n wych y bych yn y byd,
 I dario yn Modewryd;
 A'i rad i chwi'n anad neb,
 Llawnder a diwall undeb.

Afraid tros ben oedd enwi
 Eich breiniau a'ch achau chwi;

Odid fod neb nad edwyn
 Trwy'r iaith enw'r Doctor Wyn ;
 A'i wraig lân, rywiog, luniaidd,
 Goreu gwraig a goreu gwraidd.

Desgrifia y sawl yr oedd yn erfyn drosto yn bert
 iawn :—

Cenad ar fwriad wyf fi,
 A gobaith o Gaergybi,
 Dros wr hen dan ei benyd,
 Ddiau fodd, a fu'n dda'i fyd ;
 Ei enw a'i lysenw sydd
 'Rhyd y byd lle'i rhed bedydd.
William Dafydd, lwm dyfiad.
Bod Haul, gwag ei gaul a ga'd.

Ac ym mhellach dywed am dano :—

Heddyw mae'n llwm ei gwman,
 Ac o gorph yn ddigon gwan ;
 Bërau manion, weinion wedd,
 O dyfiad priciau 'dafedd ;
 Crafangau gwag angeu gwan,
 Llun ail i un Llaneilian,
 A'i gorph fal dyn heb orphen,
 Ni ddeil prin ddwys bwys ei ben.

Yna dywed iddo fwriadu "enwi'n frau gampau'r
 gwr," ond ychwanega y byddai y cyfryw swydd :—

Fal rhifo sêr,
 Ni henwn byth mo'u haner.

Er hynny, anturia ar y gwaith, a cheir ganddo
 ddesgrifiad digrifol a maith o'r gwrthddrych, —ei
 swyddi, a'i fedrusrwydd, mewn gwahanol gyfeir-
 iadau,—desgrifiad sydd yn sylfaenedig, mae yn
 debyg, yn fwy ar ddychymyg na dim arall. Am ei
 angen dywed—

Crynu'r uos, ac ymcreinio,
 Crynu bydd y dydd dan do ;
 Crynu, nid o lu Duw lwyd :
 Ond crynu rhag rhyw anwyd.

Yn dilyn hyn cawn engraipt o ddawn duchanol y bardd, yn y cyfeiriad at hoffder y Bol Haul o'r ddiod feddwol, a'i barodrwydd i fod yn bobpeth i bawb, ac i daflu egwyddor dros y bwrdd, ond iddo gael ei ddigoni â diod gadarn :—

Fe droe'n Iuddew, drwyn eiddil,
 Ar air, ond cael cwrw, o'r il ;
 Ar roe fir i'r oferwr,
 A'i troe'n bagan aflan wr ;
 Fe droi'n Dwrc, yn ei gwrcwd,
 Fal ci, ond cael brandi brwd ;
 Try'n Brotestant, mi wranta',
 Y dydd y cai wisgoedd da ;
 Ac yn hon sai'n ddigon sad,
 F'allai, tra pery'r dillad.

Os cywir y desgrifiad canlynol gallem feddwl fod gwrthddech y gân yn ddychryn i holl blant yr ardal, a'i fod yn "fwgan brain" heb ei fath :—

Er pan aeth y gwr ffraethlwm
 Yn llwyd, a'i siaced yn llwm,
 Ofnodd plant, fwgan mantach,
 Diangodd, ymgrynodd naw gwrach ;
 A'r adar siomgar y sydd,
 Gwylltion yn eitha'r gellydd ;
 Caem glywed bran yn canu,
 Weddaid o fyd, ddydd a fu,
 Neu crechwen cornchwigl grochwyllt,
 A gwaedd y wawch, a gwydd wyllt ;
 Nid oes piogen heno,
 Na bran, o amgylch ein bro ;
 O ran ei lun, a'i wrthuned,
 Pob gwâr o'r adar a red.

Diwedda gyda rhestr o'r dillad yr oedd Wil mewn angen am danynt, Ceir yn y gân hon lawer o ddonioldeb a phertrwydd, ond nid cystal barddoniaeth ag a geir mewn darnau eraill o waith yr awdwr, ac y mae ynddi aml i wall cynghaneddol

Tra yn sôn am y Bol Haul, dylem grybwyll i Llewelyn Ddu gyfansoddi *Cwynfan* iddo, "pan ataliodd Panwr y Brethyn yn y Pandy, a ddarparwyd iddo gan Mrs. Wynne, o Fodewryd, yn ol deisyfiad y cywydd i ofyn dillad." Am Mrs. Wynne, rhoddwr y brethyn, dywed :—

Gwraig foneddig, fwyn ei rhyw,
I'r hon bo Duw yn dalwr,
Addawodd y gar'digol ged,
Roi siaced imi o swcwr.

Ac am siomedigaeth Wil oherwydd ymddygiad y Panwr, dywed :—

Mae'r hin yn oer, a'r gaua'n faith,
Rwy'n ofni gwaith physygrwr :
Ond gwell a fyddai i oer ei wên,
Adeilad rhyw hen dailiwr ;
Caf ddiwedd f'einioes yn ddi os,
Yn poeni achos Panwr.

Y mae gan y bardd hefyd ddau ddarn rhyddiaethol yn nglyn â'r un gwrthddrych, sef "Galarnad Bol Haul y Twrnai, a ysigodd ei fraich ysgrifenu ; ac hyd eitha gwybodaeth llawer o hen wragedd cyfarwydd fe fydd farw'n gelain oer ar fyr amser;" ac hefyd "The Petition of the famous Bol Haul, when his Landlord distrained him for rent, 1740." Yn y darnau hyn ceir cryn dipyn o arabedd a gwatwareg, ac aml i frawddeg hynod o ddichwaeth. Nis gallwn ddirnad paham yr oedd y bardd yn dweyd cymaint dros, ac am y William Dafydd hwn ; dichon fod rhyw gysylltiad rhyngddynt nad oes genym gofnodiad am dano.

Yn *Y Geninen* am 1884. t.d. 236, ceir "Caniad y Gôg, neu Gariadgerdd Nansi Llwyd," a dywedir mai Lewys Morys ydoedd ei hawdwr. Cafwyd y gân yn mysg llawysgrifau a berthynent unwaith i Morgan Dafydd, clochydd Llanfachraeth, Meirion.

Y mae cynwys y gân yn myned yn bur bell i brofi mai eiddo Llewelyn Ddu ydyw. Fel y dywedasom yn barod, Anne Lloyd ydoedd enw ei ail wraig, ac yn y penawd i'r gân hon dywedir:—"Caniad y Gôg, neu Gariadgerdd Nansi Llwyd; a ganwyd iddi cyn priodas, yn ol ddull bugail-gerddi yr hen Frutaniaid mynyddig gynt yn nechreu'r byd, pan oedd diniweidrwydd yn ganmoladwy, pan oedd cariad yn wresog, pan oedd synwyr yn barchus, pan oedd ffolineb yn waradwyddus, pan oedd ddigrif gan bob dyn glywaid caniad gan delyn.

Ni cheir yn yr un o gyfansoddiadau y bardd gynifer o darawiadau hapus, a chymaint o ddi-fyrwch diniwed, ag a geir yn y gân hon. Darllena'r penillion hefyd yn hynod o lithrig a swynol:—

Fal y gôg ar frig y gangen
A gân beunydd ei hen acen,—
Fal y ceiliog yn y glwyd,
Canaf finau, Nansi Llwyd.

Hoff gan bysgod ddwfr i nofio,—
Mêdd a cherdd sydd dda gan Gymro,—
Hoff gan bob creadur fwyd,
Hoff gan inau Nansi Llwyd.

Fal y câr hen ŵr ei ffon,
Fal y câr y baban fron,
Fal y câr y n'wynllyd twyd,
Caraf finau Nansi Llwyd.

Ped fawn wythnos yn ymprydio,
Ac yn aros am fy nghinio,
Ni ddewiswn, cyn cael bwyd,
Brofi gwefus Nansi Llwyd.

Cefais swyddau dan y Goron,—
 Cefais aur, ac arian gwynion,—
 Cefais fawredd, cefais fwyd,—
 Och! na chawn i Nansi Llwyd.

Yna y mae Nansi Llwyd yn trugarhau wrth y bardd, ac yn sibrawd yn wylaidd:—

Llewelyn fwyn, O! sych dy ddagrau,—
 Mae'n ddrwg gan i dy fod mewn poenau;
 Ped fai'n wir dy eiriau i gyd,
 Mi ddown i'th ganlyn dros y byd.
 Pe d'wedwn iti beth o'm meddwl,
 Mae arnaf g'wilydd d'we'yd y cwbul:
 A phe down i gyda thydi,
 P'le mae'r Person i'n priodi?

Daeth y Person i'r golwg yn fuan, "a darllenodd y ffurf gyffredin, ac a dröes enw'r feinir,"—ac aeth "Nansi Llwyd yn Nansi Morys" yn y fan.

Y mae cymaint o farddoniaeth yn y "Cywydd y Rhew a'r Eira," er nad oes ynddo ond wyth ar hugain o linellau, ag a geir mewn unrhyw ddarn arall o waith y bardd. Y mae y gynghanedd yn berffaith, ac y mae rhyw naturioldeb a swyn yn rhedeg drwy y darn o'r dechreu i'r diwedd. Tlws iawn yw ei gyfeiriad at yr awen yn ymhyfydu ym mhrydferthwch yr haf:—


Gwell y rhed awen ledpai,
 Wres Mehefin a min Mai;
 Pan fo tön per aderyn
 Hyd y daill, yn hudo dyn.

Buasai yn anhawdd cael gwell desgrifiad o'r rhew a'r eira na'r llinellau hyn;—

Eira gwyn yn oeri gwedd,
 A'r lluwch yn cuddio'r llechwedd;
 Pob lle'n oer, pob llwyn yn wyn,
 A diffrawd fydd y dyffryn,



LEWIS MORYS.



Clo ar ddwfr, nid clauar ddydd,
 A durew hyd dacarydd,
 A bwyd adar byd ydoedd,
 Dan glo Duw, yn galed oedd ;
 Aed a'r agoriad adref,
 Yn iawn i'w gadw'n y nef.

Wrth ddarllen y llinellau prydferth hyn, nis gallwn lai na gofidio na fuasai y bardd wedi ymroddi i ganu ar destynau o'r fath.

Yn mrawdlys Beaumaris, yn 1741, cynhaliwyd prawf "Môr-ladron Crigyll," am ysbeilio llong o Lerpwl, yn Nghreigiau Crigyll, Môn, a chyfansoddodd y bardd gân ar yr achlysur, ar y dôn *Leave the Land*. Dechreua yn hynod o hapus :—

Gwych gan bobl onest, lân,
 Oleuni tân a chanwyll ;
 Gwych gan wylliad fod y nos
 Mewn teios yn y tywyll ;
 Gwych gan inau glywed son
 Am grogi lladron Crigyll.

Ymddengys fod ymddygiad y môr-ladron, tra ar eu prawf, yn dra anmhriodol, os yw disgrifiad y bardd yn gywir :—

Pan ddoed a'r gwylliaid at y bâr
 A beio ar ei bywill,
 Ni wnaethant hwy â'r cyrt (myn Mair)
 Ond cellwair gyda'u cyllil.

Fel hyn y cyfeiria at ddadleuydd y lladron :

Morus oedd fel môr ei swyn
 Am safio'r cŵn yn sefyll,
 Fe roi i'r cadben aml sén,
 Ac y-gwyd pen ac esgyll,
 Am fyn'd a'i llong, â meddwl drwg
 I greigiau diddrwg Crigyll.

Gyda golwg ar dynged y dynion dywed :—

Fe dal yr Arglwydd i'r ysprêd
A wnaeth y weithred dywyll—
Yspeilio'r llong, a gwylltio'r gwŷr,
Didostur yn y distyll.

Ond pan êl ymlaen i gyfeirio at weddwon ac epil y lladron, rhydd fynegiad i deimladau sydd yn dangos mai ychydig iawn o drugaredd ellid ddisgwyl oddiwrtho :—

Gweddwon oll ac oer eu tôn,
Fo gwragedd lladron Crigyll.

Bo eisieu bwyd, o'r bais i'r bedd,
Ar epil gwragedd Crigyll.

Eithaf peth oedd cospi y môr-ladron eu hunain, ond nid llawer fuasai yn dymuno i'w gweddwon fod yn "oer eu tôn," a'u hepil yn newynog.

Yn y "Cywydd y Wrach ddigywilydd," sef y Cryd, y mae y bardd yn chwareu ar y gair "gwrach," neu "wrach,"—terfyna pob llinell gyda'r un odl, a phob yn ail linell gyda'r gair "gwrach" neu "wrach." Cyfansoddiad o'r un natur yw y "Canu a gânt Llewelyn Ddu, tros ei frawd Gwilym, i Wîg, Llanfigel, yn Mon, yn ei feddiant ef." Yn y gân hon y mae y geiriau "Llanfigel" a "mêl" (neu "fêl") yn diweddu bob yn ail linell. Y mae llawer o gywreinrwydd yn y darnau hyn, ac y mae y gynghanedd yn bur gywir, ond isel yw eu teilyngdod os eir i chwilio am farddoniaeth ynddynt.

Darn arall digon difudd yw "Deg Gorchymyn y Traws Cyfoethog Annrhugarog, y rhai ni lefarodd Duw wrth Moses yn y Mynydd." Rhyw gellwair y mae y bardd yn hwn, fel mewn aml un o'i gyfansoddiadau eraill. Digon yw dyfynu un penill fel enghraifft o'r gwaith :—

Dywed celwydd dybryd noeth,
 Camdystiolaeth a'th wna'n ddoeth ;
 Nid yw uffern ddim lle poeth.

Cyfansoddiad o'r un natur yw "Deg Gorchymyn
 y Dyn Tlawd, y rhai nid ydynt yn xx Bennod o
 Ecsodus," fel y gwelir oddiwrth y dyfyniadau can-
 lynol :—

Na dd'od barch i'th dad na'th fam,
 Gwna â hwy bob cyfryw gam ;
 Odid na ddoi di i ddrwg lam.

Lladd di ddyn o uchel fri,
 Nid oes vn cwest a'th safia di ;
 Dy grogi wreir fel crogi ci.

Sylwn yn nesaf ar "Ganiad Melinydd Meirion,"
 "wrote on the occasion of a very old man's intend-
 ing to marry a very young woman." Y mae yn y
 gân hon haner cant o benillion pedair llinell, ac ar
 ol i ni eu darllen, y syniad sydd yn ymrithio i'n
 meddwl yw "ychydig o wenith a llawer o ũs."
 Fel enghreifftiau o'r ũs, darllener a ganlyn :—

'Roedd gan Felinydd Meirion
 Ryw barti o blant ag wyrion,
 A thŷ a gardd yn ddigon llawn,
 Yn llawen iawn ei galon.

A digrif gan ei galon,
 Oedd gweled ei orwyrion ;
 Gan obeithio y dae'r dydd
 Y gwnaent hwy felinyddion.

A digrif ganddynt hwythau,
 Oedd chwareu 'mhlith ei goesau ;
 A rhai yn galw arno, 'nhaid,
 A rhai yn hendaidd weithiau.

'Roedd ganddo iâr a cheiliog,
 A chath, a chian costog,
 Ac fe gyfarthai'r ci'n ddi lai,
 Y pryd y canai'r ceiliog.

Ond ceir yn y gân un penill o leiaf sydd yn cynwys
gwers y byddai yn dda i bawb ei dysgu a'i chofio :—

Pan fytho march ddiofala'
Tebycaf fyth y tripia ;
Gwylwch syrthio ar eich hyd,
Pan fyddo eich byd esmwytha'.

Yn y *Cambro-Briton* (cyf. iii, t.d. 437), am 1822,
ceir yr englynion canlynol o eiddo Lewys Morys
nad ydynt i'w gweled yn y *Diddanrwyh Teuluaid*,
nac, hyd y gwyddom, yn unman arall. Y penawd
yw “Englynion ar y Cildannau,” sef tannau uchaf
y delyn :

Gyrais ddeunydd llais o'm llaw—i'ch anerch
A chynnar dôn ddystaw ;
Nid yw llais ffidl'n lleisiaw
Wrth hon ond val bwrddwn baw.

Llais eos y nos yn y wig,—a chydiodd
Gwych adar y goedwig,
Araith bronvraith ar brenvrig,
Neu vwyalch 'vae balch o'i big.

Cym'rwch ddivyrwch vorau—a llesol
Vydd llais y CILDANNAU :
Melysach yw mwyn leisiau
Na mêl i'r gwevusau mau.

Nid oes'n awr (dirvawr darvu) !—na maswedd,
Na miwsig yn Nghymru ;
A diau oedd vod dydd a vu,
Telyn gan pob penteulu.

Gwau mil o leisiau melusion,—arav
O ryw euraid cyson ;
Dawnus gan glustiau dynion
Er lles hir glywed llais hon.

Gorfenav 9ed 1726.

Lewis Morris a'i cant.

Ceir yn yr englynion hyn linellau hapus iawn, ac y
mae'r gynghanedd yn hynod o gywir.

Yn ei gân "Gallt y Gofal," cawn ddarluniad o daith bywyd, a desgrifia yn hapus iawn helbulon a blinderau y daith,—

Drwy anialwch y byd yma,
I geisio yn mhen y bryn orphwysfa.

Darllena y gân yn llithrig a melodaid, ac y mae yn amlwg fod y bardd, pan yn ei chyfansoddi, yn fyw iawn i'r mynych godymu a llithro sydd yn dyfod i ran plant dynion ar eu taith drwy'r byd :—

Blin yw dringo creigiau geirwon,
Blina gellydd yw gofalon,
Duw ei hun a'u rhoes 'nhwy yno,
A Duw roes y nerth i'w dringo.

Cropian degllath ar i fynu,
Llithro naw yn ol o hyny ;
Caffael codwm, methu codi,
Nes cael help, ac ymwroli.

Rhoi ail gynyg ar ei dringo,
Ar y llethro, yna llithro ;
Ni wiw gorwedd gwedi syrthio,
Rhaid cael llawer codwm eto.

Cyfansoddiad arall o waith Llewelyn Ddu yw "Cywydd Gorthrechiad Angau, a gofansoddiwyd wedi i'w gyfaill Dr. Richard Evans, Llanerchymedd, gael adferiad iechyd. Y mae y darn hwn yn llawer rhy chwareus a chellweirus ar y fath destyn, ac er na chynwysa ond 34 o linellau, ceir ynddo aml i linell ddichwaeth.

Yn y "Caniad Hanes Henaint," yr ydym yn cael awen y bardd yn fywiog ac effro. Dygir ymddiddan yn mlaen rhyngddo ef, ei was, a henaint, ac yn y pump a deugain o benillion a gynwysa'r gân, ceir amryw o linellau sydd yn debyg o aros yn hir yng nghof yr hwn a'i darlleno

yn bwylllog. Y mae ei ddesgrifiad o henaint yn dda dros ben :—

Mae'n edrych yn o salw,
Fal rhywbeth haner marw ;
Ac yn ei enau nid oes daint,
A *Henaint* yw ei enw.

Mae cwsg, ac angau hirnos,
Ac yntau'n geraint agos.

Mae'i lechwedd gwedi llwydo,
A choryn moel sydd iddo.

Rhydd y bardd groesaw cynhes i Henaint, a gofyna iddo, " Pa ryw newydd sydd ar led?" Yr ateb yw :—

Mi ddois yn genad wisgi,
Am ddyn sydd newydd eni ;
Mae mab bychan gan eich merch,
Sy'n gyru ei hanerch ichwi.

Hi archodd i mi yn brysur,
Eich cyfarch yn gymhesur ;
Ac yn y man eich galw'n daid,
Y peth oedd raid ei wneuthur.

Hi bera i mi yn ddiwaetha,
Fyn'd atoch i letya ;
A chwedi i mi wneud fy nyth,
Nad awn i byth oddiyma.

Ychwanega Henaint ei fod am gario allan ddymuniad merch y bardd :—

A bydded hi oer, bid cynes,
Mi lechaf yn eich mynwes ;
Cewch fy nghario, nos a dydd,
Ac yno bydd fy lloches.

Ac y mae cystal a'i air, oblegid dywed y bardd :—

A dyma lle llettyodd,
Ac yma mae o'm hanfodd ;
Ac yma trig, tra byddo chwyth,
Ni 'medy byth lle nythodd.

Yna rhydd ddesgrifiad byw iawn o'i boen wrth
“gario henaint :”—

Ni chaf fi gantho genad,
I fyn'd i ffair na marchnad,
Na bo'n marchogaeth ar fy nghefn ;
A dyma'i drefn e'n wastad.

Mae'n rhaid im' ei gofleidio,
Ac yn fy mreichiau ei gario ;
A chael march a safu yn rych,
Pan fo fe'u chwenych rhodio.

Mae'n wargrwm, mae'n besychlyd,
A phrin y gall ef dd'wedyd ;
Ac eto rhaid ei gario o hyd ;
Ond dyna fyd anhyfryd.

Dyma benill ddesgrifiadol iawn o'r hên ŵr yn
adrodd helyntion boreu oes :—

Mae'n wych gan hwn newyddion,
A son am bobl gryfion
Ac adrodd ei weithredoedd gynt,
A'i hynt, a'i holl helyntion.

Tua diwedd y gân ceir dau neu dri o benillion
hynod ddichwaeth (sef rhif 26, 27, a 28), y rhai
ydynt yn anurddo llawer arni. Ond ar y cyfan, y
mae yn gân o gryn deilyngdod.

Gyda golwg ar y gân a alwai y bardd “Caniad
y Gôg i Feirionydd,” ond a adnabyddir yn well fel
“Morwynion Glân, Meirionydd,” y mae'n debyg y
bu mwy o ganu arni gyda'r tannau, nag odid i
gân yn yr iaith. Dywed un ysgrifenydd fod
“anfarwoldeb wedi cymeryd meddiant” o'r gân,

ac nad "oes goethach a rhagorach awenyddiaeth delynegol yn yr iaith na'r penillion melusber" hyn (*Enwogion Cymru*, t.d. 753). Drwg genym nas gallwn roddi canmolïaeth mor uchel iddi. Hon, yn ddiadl, yw y mwyaf poblogaidd o gan-euon yr awdwr, ond credwn fod ei phoblogrwydd i'w briodoli i'r cleciadau cynghaneddol geir ynddi, ac i swyn anorchfygol y llinell "Morwynion Glân Meirionydd," yn hytrach nag i'w theilyngdod fel darn o farddoniaeth delynegol. Dengys gwelltyn pa fodd y mae'r gwynt yn chwythu, a dengys llinellau fel y rhai canlynol rediad meddwl y bardd:—

Er a welais dan y ser
O lawnder, glewder gwledydd,
O gwrw da, a gwyr i'w drin,
A gwin ar fin afonydd;
Goreu bir, a goreu bwyd
A ranwyd i Feirionydd.

Y mae y penill ar ei hyd yn rhoddi i ni y syniad fod y bardd yn cyfansoddi ar gyfer cyfeddach y dafarn. Darllena y penill canlynol yn llithrig dros ben, ac y mae'r syniadau yn eithaf hapus:—

Mwyn yw telyn o fewn tŷ,
Lle byddo teulu dedwydd:
Pawb a'i benill yn ei gwrs
Heb sôn am bwrs y cybydd;
Mwyn y cân, oddeutu'r tân,
Morwynion glân Meirionydd.

Ond beth am y bedwaredd linell? Yr ydym yn gorfod teimlo mai llinell yw hon a dafwyd i'r penill er mwyn cyfarfod â gofynion y gynghanedd, a gellir dweyd yr un peth am rai o'r llinellau eraill yn y gân.

Yn argraffiadau 1763 ac 1817 o'r *Didddanwch Teuluaid*, ceir rhai darnau o waith Llewelyn Ddu

nad ydynt i'w gweled yn argraffiad Isaac Foulkes, sef "Cywydd y Bais," "Cywydd i Gŵd Cardotyn," y gân "On an examination upon oath of an old woman who deposed she had heard four old women say that a certain old woman had smuggled tea and coffee," "Deg Gorchymyn Priodfab Ieuange," "Solomon's Whore," "Caniad Bugail Tregaron," ac hefyd "A Specimen of the Sea Language." Wrth adael y darnau hyn allan, dangosodd y Llyfrbryf ddoethineb mawr, ac nis gallwn lai na gofidio i'r fath gymysgedd o gabledd ac anlladrwydd gael ei argraffu yn iaith y Cymry.

Yn yr adran ar Goronwy Owen, byddwn yn cyfeirio at y pechod oedd yn barod i'w amgylchu ef, ac y mae cyfiawnder yn galw arnom wneyd yr un peth â Lewis Morys. Os oedd y ddiod feddwol yn fagl i Goronwy, yr oedd Llewelyn Ddu yn ymhyfrydu mewn trythyllwch ac aflendid, ac i ddefnyddio geiriau Gwilym Hiraethog:—"trugaredd i'w enw a'i goffadwriaeth fuasai i'w ganiadau, gan mwyaf ohonynt, gael eu cuddio oddiwrth lygaid pob dyn byw." Nid gwir yr hyn a ddywed un ysgrifenydd, fod "awenyddiaeth Cymru yr adeg hono bron yn gwbl gyfyngedig i destynau masweddol a halogedig;" drwy drugaredd nid oedd pethau mor ddrwg a hyny. Ni raid i ni ond enwi ei ddau ddysgybl—Goronwy Owen ac Ieuan Brydydd Hir—fel dau na chanasant o gwbl ar "destynau masweddol a halogedig," er fod eu hathraw barddonol yn ymhyfrydu yn y gwaith.

Y mae yn gôf genym ddarllen ysgrif yn ceisio esgusodi Llewelyn Ddu yn herwydd cyhoeddiad y darnau anfoesol y cyfeiriwyd atynt, drwy ddadleu mai anheg yw beio y bardd am roddi cyhoeddu rwydd i'r darnau hyn, pan nad oedd ganddo na rhan na cyfran yn argraffiad na chyhoeddiad y llyfr. Ond os chwilir yn fanwl i amgylchiadau

cyhoeddiad yr argraffiad cyntaf o'r "*Diddanwch Teuluaid*," yn 1763, gwelir fod y ddadl hon yn sylfaenedig ar dybiaeth yn unig, ac mai y gwirionedd yw fod y bardd ei hun yn gyfrifol am ymddangosiad y darnau hyn. Yn nechreu y gyfrol ceir rhagymadrodd manwl yn Saesneg, yn gyfeiriedig at "William Parry, Esq., Deputy Comptroller of His Majesty's Mint in the Tower of London, and Secretary to the Cymmrodorion Society, sydd yn dechreu fel hyn :—

Sir,

The book that comes to you along with this, to be presented to the Society, was lately put into my hands by the Editor, *Hugh Jones*; who took the pains to make the Collection, and has been at the Expence of printing it for his own benefit. He owned himself incapable of writing an *English* Preface to it, and therefore desired me to do that office for him. And as many of his Subscribers understand both Languages, he apprehended that the Book would be more general, if the introduction was wrote in *English*, though he is no great Admirer of the Language: And feeling that the Writers of the Pieces it contains, are of the *Cymmrodorion* Society, as well as the Printer and Publisher, I thought a Letter to you, giving an account of the Work, might stand very well instead of the usual flourish of a Preface; for the Book entirely belongs to your Society. And as I have the Honour of being a Member, I hope I shall not be censured in giving my opinion thereof, in compliance with his Request.

He owns, that some things therein contained, are published without Leave of the Authors; but hopes to be forgiven, as he had no intention thereby of hurting any man; but to do himself Service, and help the Sale of his Book. Those pieces, as well as the rest, being to be met with in private hands in Manuscript all over the Country. As the Authors are still living, one in *North America*, and the others in *Wales*, we may conclude, that their Compositions come to us more correct than those of former Ages, or of the

Ancients, that must have unavoidably suffered by bad Transcribers. And I believe that few Books have appeared so free from typographical Errors in our Language: Let the Poetry answer for itself.

Terfyna y rhagymadrodd, neu yr anerchiad, gyda'r "I am yours," &c., heb enw yn dilyn, ond cydnabyddir yn gyffredin mai Lewis Morys oedd yr ysgrifenydd. Dywed y diweddar Barch. Robt. Jones, Rotherhithe, am y llyfr:—

Cafodd ei olygu gan Hugh Jones, o Langwm, yr hwn nid yn unig oedd yn anghymmwys i'r gwaith, ond yr olaf un, ac eithrio Elisa Gowper a Dafydd Jones, o Drefriw, a fuasai Goronwy yn ei ddewis i'r gorchwyl, yr unig beth sydd yn ei ffafr ydyw, fod y rhagymadrodd wedi ei ysgrifenu gan Lewis Morris, er nad yw ei enw wrtho. Yr eiddo ef yn ddigamsyniol ydynt yr iaith a'r meddyliau; ac y mae wedi ei ysgrifenu gyda'r oíl o'r ysbrydiaeth hono a nodweddai gynnyrchion ei ysgrifell.

The Poetical Works of the Rev. Goronwy Owen, vol. II. p. 280.

Dywed Charles Ashton, hefyd, yn *Hanes Llenydaiaeth Gymreig*, t.d. 235, fod o'i flaen, pan yn ysgrifenu ar Llewelyn Ddu, gyfargaph Lewis Morys ei hun o'r llyfr, gyda'r llythyrenau "L. M." yn ei lawysgrif ef.

Prin y mae yn anghenrheidiol dweyd y gallasai Lewis Morys, pe y mynasai, wahardd rhoddi y darnau yr ydym yn cwyno o'u herwydd yn y gyfrol, a gresyn mawr oedd iddo ganiattau iddynt ymddangos. Hynod o darawiadol yw tystioiaeth Ashton ar hyn, wrth gyfeirio at gyfargaph y bardd ei hun o'r *Diddanwch Teuluaid*, "gyda'i nodiadau llawysgrifol ei hun yma a thraw ar hyd-ddo." Fel hyn y dywed:—

AR ol penawd "Cywydd y Bais, a ganodd yn ei Ieuenctyd," yn y cyfargaph hwn, y mae wedi ysgrifenu y flwyddyn yr ysgrifenydd ef, sef '1720,' pryd, felly, yr oedd yn ugain

oed. Gyferbyn a "Chywydd y Llygaid" ceir *Ffolineb*; wrth y "Cywydd i Gwd Cardottyn" ceir *Gwiriondeb*; wrth "Gywydd y Mwn Plwm" ceir *Gwendid*, yn ysgrifenedig yn ei law ef ei hun.

Dengys y geiriau a italeiddir gennym beth oedd ei syniadau ef ei hun am danynt ar ol eu gweled mewn argraph. Ond gan ei fod yn 63 mlwydd oed pan eu cyhoeddwyd, a chan ei fod yn eithaf hysbys o fwriad Hugh Jones o'u cyhoeddi, y mae yn syn gennym iddo ei oddef.

Fel hyn y dywed Dr. Lewis Edwards yn *Y Traethodydd*, 1876, t.d. 82:—

ARGRAFFWYD llythyr oddiwrth Lewis Morris yn desgrifio yr arferion i-el yr oedd Goronwy wedi syrthio iddynt. Dylid maddeu llawer i Lewis Morris o herwydd ei garedigrwydd blaenorol i Goronwy; ac eto wrth ddarllen a chymharu barddoniaeth y ddau, y mae yn anhawdd peidio meddwl mai Goronwy oedd y boneddigeiddaf yn ei drueni mwyaf. Yr ydym yn tosturio wrth Goronwy; ond yr ydym yn ffeiddio Lewis Morris fel bardd, pa faint bynag fyddo ein parch iddo mewn ystyriaethau eraill.

Dywedir fod Lewis Morys yn elyn anghymodlawn i'r ddiad, ond nid yw hyn yn gyson â'r mynych gyfeiriadau yn ei ganeuon at win, cwrw, a bir; er engrapht:—

Am geiniog mi gawn ginio,
A chwrrw, a gwin, i'w drin dro.

Cywydd y Geiniog.

Cael gwin yn fy min, a medd,—cael cwrw,
Cael cariad a mawredd;
Cefais heb ofyn cyfedd,
O'i law, wr glân, lawer gwledd.

Ardd i Nannau ym Meirion.

Goreu bir, a goreu bwyd,
A ranwyd i Feirionydd.

Caniad y Góg i Feirionydd.

Nid yw yn gyson, ychwaith, â'r dyfyniad canlynol o lythyr o'i eiddo at Mr. Vaughan, Nannau,

dyddiedig Hydref 7fed, 1752:—"The post goes out immediately, and to-morrow I intend to set out for our Welsh bath at Llan-y-Drindod, there to drink a gallon of water, and a gallon of some other liquor; from thence, about the latter end of the week to Aberdovey;" ac felly yn mlaen.

Sylwn yn awr ar yr hyn a ystyriai Lewis Morys yn brif waith ei oes, sef y *Celtic Remains*. Mewn llythyr, dyddiedig yr zofed o Ragfyr, 1759, at Ieuan Brydydd Hir, dywed y bardd:—"My chief business of late has been to put the names of men and places in alphabetical order, and to prepare them for my *Celtic Remains*, from Taliesin's works, Sir J. Pryse's Cambria, the Triades, and the Gododin, Beddau Milwyr, Aera Cambr. Brit., L. G. Cothi, and Extent of Anglesea." Yn yr un llythyr mynega fod y *Celtic Remains* i gynwys rhestr, yn ol trefn y wyddor, o blwyfydd Cymru.

Mewn llythyr arall o'i eiddo at Mr. Pegge, dyddiedig Chwefror 11, 1761, dywed:—

Am yr ychydig wybodaeth a gyrhaeddais i, bu raid i mi ei henill, megis trwy awch naturiaeth. Nid oedd fy addysg ieithyddol ond afreolaidd; a choed masarn ac onen, neu fath o feistri pren ar y goreu, oedd fy athrawon, gan mwyaf. Y mae y cynydd a wnaethum yn y ffordd hono wedi adfeillio llawer o eisien ymarferiad ac ymohebiaeth â gwyr o ddysg. Cymerodd helyntion gwladwriaethol, fel swyddog yn y gyllidaeth, y rhan werthfawrocaf o'm hamser, fel y mae yn rhyfedd genyf i mi allu cadw dim mewn cof. Dodwyd fi ar y cyntaf i gasglu cyllid a threth yr halen; yna gosododd y Morlys fi i wneyd mesuriad arolygol o arfordiroedd Cymru, a chyhoeddwyd rhan fechan o'm llafur ar hyny yn 1748. Dodwyd fi wed'yn at wahanol orchwylion perthynol i'r Trysorlys, yr hyn a gymerodd fy amser am rai blynnydoedd fel arolygydd tir-gyllid y Brenin, casglydd porth-dollau yn Aberteifi, ac arolygydd mwaweithiau y Brenin yn Nghymru. Y mae yr iaith Saesonig mor estronol i ni ag ydyw y

Ffrancaeg ; y mae genym ni blwyfydd cyfain yn mharthau mynyddig Cymru, lle na siaredir gair o Saesoneg o gwbl. Y mae yr ychydig wybodaeth a fu genyf o'r ieithoedd eraill wedi myned yn rhydlyd ; ac nis tybiaf bellach fod yn wiw i mi geisio ei hadferu, gan fod un troed i mi yn y bedd. Ysbeiliwyd llawer o'm hamser gynt gan gerddoriaeth, a phrydyddiaeth, o'r hyn nid oes i mi elw yn y byd. Ond weithian, nid wyf mewn un swydd gyhoedd, oddigerth arolygu mwn-weithiau y brenin, a hyny heb ddim cyflog ; ac wedi cweryla â rhai o'r blaenoriaid, mi a ymneillduais i dyddyn bychan o'm heiddo fy hun ; ac yno y mae fy ngardd, fy mherllan, fy nhyddyn, ae ychydig o fwn-waith yn cymeryd rhan fawr o fy amser. Y mae fy ngwybodaeth mewn physygwriaeth a llaw-feddyginiaeth yn cyrchu llawer o dlodion ataf ; y mae yr hoff ffyrddod a wnaethum mewn llysieuath yn awr yn lles iddynt hwy. Bu genyf ddifyrwrch mawr o'm mebyd mewn philosophyddiaeth naturiol a rhiffesuriaeth, ac y mae genyf gynnulliad gweddol o gloddiaid, cregyn, &c., o'r rhan fwyaf o barthau y byd, a chasgliad gwerthfawr o arfau ac offerynau perthynol i hyny. Rhoddais lawer o'm bryd ar gynlluniau a pheirianau. Gwnaethum rai diwygiadau yn y rhan hon o gelfyddyd a gwaith llaw, tu hwnt i ddim o'r fath a gyhoeddwyd yn Mhrydain na Ffrainc. Prin ydyw fy ngwybodaeth am arian bâth, a bychan yw'm cynnulliad o honynt, ac nid yw yn werth ei grybwyll, gan nad oes ond ychydig i'w cael yn yn y parth yma o'r byd. Y mae gennyf rai cerfiadau cywraïn ar geryg, yn nghyd ag ychydig arfau Brytanaidd. Wedi hyn, yn yr un llythyr, dywed :—

Yr hyn sydd wedi cymeryd fwyaf o'm bryd, er's gryn yspaid bellach, yw gwneyd ychwanegiadau at Eiriadur Cymraeg a Lladin y Dr. Dafys ; a Geiriadur arall hefyd o'm gwaith fy hun yn gwbl, ar ddull Marenî. Treuliodd fy amcau yma fy oriau hamddenol er's llawer bliwyddyn faith. Yr enw a roddaf arno yw "*Celtic Remains*," neu ddesgrifiad o'r hen ymerodraeth Geltaidd, yn yr iaith Saesoneg, yn cynnwys cynnulliad o ddefnyddiau bywgraphyddol, beirniadol, hanesyddol, geiryddol, amseryddol,

a daeryddol, o ddeilliad Celtaidd, er ffurfio hanes Frytanaidd o'r cynoesoedd, yn ddwy ran,—y gyntaf yn cynwys hen enwau dynion, lleoedd, gweithredoedd, a'r cyffelyb, yn y Frytanaeg a'r Gaelaeg, yn ol trefn yr wyddor; lle y chwilir i mewn, nid yn unig i wir enwau Celtaidd yn ol yr argraph hen a diweddar, gan eu profi o awdurdod Brytanaidd, yn nghyd ag enwau lleoedd presenol, a'r cyffelyb, ond hefyd i'r camgymeriadau a'r gwallau, pa un bynag ai o ddymuniad neu o ddamwain, a wnaed gan ysgrifenywyr a draethasant ar hen helynion Prydain mewn unrhyw iaith, gan eu diwygio a'u hegluro. Gorchwyl dirfawr a llafurus yw hwn. Yr ail ran a gynwys enwau dynion, a lleoedd, o darddiad Celtaidd, wedi eu Lladineiddo gan ysgrifenywyr Lladinaidd, y rhai a ystumiwyd ac a nyddwyd yn ol eu hiaith hwy, lle yr ymdrechir dangos yr hyn oeddynt o'u dechreuad Celtaidd; gan eu cymbaru â hen hanes, ac iaith prif ganghenau y bobl hyny, y Frytanaeg, y Wyddelaeg, yr Armoraeg, a'r Gernywaeg. Geiryddol ydyw y rhan hon o'r mwyaf, lle y caiff mympwy ei rhaff, ond nid heb ei chadw oreu y gellir o fewn terfynau. Yn nghylch ugain mlynedd yn ol, prydyddiaeth Gymraeg oedd yn nosio uwchlaw fy holl drysorau, er ei bod weithian yn mawr iselau; a byth er pan wnaethym ryw gampwri yn y ffordd hono, nid oes dim a wna y tro gan fy nghydwladwyr, os na roddaf gymeradwyaeth i'w cyfansoddiadau cyn eu gyru i'r byd, ond ocho finnau! mor isel yr ydym wedi cwmpo oddiwrth enwogrwydd yr henafiaid.

Yn *Llyfryddiaeth y Cymru*, o dan y flwyddyn 1793, ceir y cofnodiad:—"The Celtic Remains, originally collected by the late Lewis Morris; augmented and arranged by Walter Davies, of All Soul's College, Oxford," sef y llenor gwydh Gwallter Mechain, ond dywed y Canon Silvan Evans ar hyn:—


NID argraffwyd mo hono; ac y mae yn aros mewn llawysgrifen hyd y dydd hwn. Cyhoeddwyd hysbysiad yn ei gylch yng nghysslwt â gwaith Llywarch Hên, ond ni ddaeth byth allan. Y mae Gwallter Mechain, yn un o'i

Lythrau a gyhoeddwyd yn ei Waith (cyf. III. t.d. 544) yn rhoi y rheswm pa ham nad aeth efe rhagddo i orphen y gwaith a'i gyhoeddi."


Ond wedi i flynyddoedd dreiglo ymaith cafodd rhan o'r *Celtic Remains* weled goleuni dydd, oblegid cyhoeddwyd cyfrol yn cynwys lxxx. × 442 o dudalenau, gan y Cambrian Archæological Association yn 1878. Dywed y golygydd (y Canon Silvan Evans), yn ei ragymadrodd, mai nid o ysgrif wreiddiol Lewis Morys y cymerwyd cynnwys y llyfr, ond o gopi a ad-ysgrifenyd gan Richard Morris, ei nai, yn 1778, yn dwyn y teitl :—

CELTIC REMAINS; or the Ancient Celtic Empire described in the English Tongue. Being a Biographical, Critical, Historical, Etymological, Chronological, and Geographical Collection of Celtic Materials towards a British History of Ancient Times, in two Parts. The First containing the Ancient British and Gaulish Names of Men, Places, Actions, &c., in an Alphabetical Order; wherein not only the true and real Celtic Names are discussed in the ancient and modern Orthography, but also the mistakes and Errors, whether wilful or Accidental, of the several Writers who have treated of the Ancient Affairs of Britain in any Language, are explained and rectified. The Second Part containing the Latinized Celtic Names of Men and Places used by Latin Writers who have modell'd and twisted them to their own language; with an Attempt to shew what they were in the Original Celtic by comparing them with Ancient History and Languages of the several Branches of that people, viz., the British or Welsh, or Irish, the Amoric, the Cornish, and Manx, 1757. By Lewis Morris, a Cambro-Briton. The Labor of 40 years.

Y rhan gyntaf o'r gwaith yn unig sydd wedi ei argraffu yn y gyfrol dan sylw. Dywed y golygydd na chafodd gyfle i weled yr ail ran, ond ei fod yn deall fod yr ysgriflyfr ar gael yn yr Amgueddfa Brydeinig.



“Myned adre’ i mí sy’ raid,
Mae’r enaid ym Meirionydd.”



Yn nechreu y gyfrol ceir Rhagymadrodd maith o chwech a phedwar ugain o dudalenau, o dan y penawd, "Some thoughts on the Ancient History of Britain, and on the Materials requisite to compose such a History, with an inquiry whether the collection now before us is not the right method to be pursued in providing such Materials." Y mae yn ymgodymu yn fynych â Camden, Edward Llwyd, ac eraill, a phan yn anghytuno â hwynt, yr hyn sydd yn digwydd yn bur fynych, nid yw yn petruso dweyd hyny yn groew. Fel engraifft o hyn, darllener a ganlyn :—

MR. EDWARD LLWYD, author of the *Archæologia Britannica*, intended his second volume to be on this model, and he had better opportunities to collect materials than anybody before him ever had. But his collection, if he had made any great progress in it, are upon his death fallen into hands that make no use of them.

Mr. E. Llwyd was under another disadvantage when he first appeared in the World. Mr. Camden has gained that credit among antiquaries that it was as dangerous to contradict him as it was formerly to oppose Aristotle in the schools, which occasioned Mr. Llwyd to stifle many things which otherwise he would have said, as appears by his Welsh Preface to his *Archæologia*. But in our age, when no particular author is set up for an idol, and when infallibility is quite banished, and Truth, though in ever so mean a dress, is listened to, being the only thing searched for, every man dare deliver his opinion, and it is left to the public to be the judges.

Y mae yn fynych yn hynod o lawdrwm ar Camden, ac nid heb achos. Wele un engraipht o lawer :—

CHAP. X.

Of the Gaulish word Gessi, which Servius says signified in the Gaulish "Viri Fortes," valiant men.

Mr. Camden says that *Guassdewr* in the British, signifies *fortis* and *strenuus*, that is, valiant and active. This was

right for aught Mr. Camden knew; but he should not have meddled with the language if he had not known better. This *gwas dewr*, falsely wrote *guassdewr*, is two words; and by the nature and texture of the language it cannot possibly be a compound, which would be *dewr was*; and it would not serve the purpose, for it wold lose the *g*.

Gwas is a servant, and *dewr* valiant; but what hath a servant to do in this case? To no purpose in the world but to make a similitude of sounds between *Gessi* and *gwas*. Thus it is when we walk in the dark we knock our heads against the walls.

Dewr, of the two words, is that which hath the signification of valour or strength here; and a *gwas* may be without any valour. But can anybody find any similitude between *dewr* and *Gessi*?

So if *Gessi* in the Gaulish tongue had signified cowards, Mr. Camden could have made the British tongue to answer that too, by adding *llwfr* to it; and by this new method of comparing languages, all the nations in the world may be proved to have spoke the same language in the time of the Romans. *Gwas llwfr* makes as good a show in a Latin book as *gwas dewr*,

It will be objected that Mr. Camden's opinion was right according to my own confession, though his proofs were wrong. The answer is in everybody's mouth. *Falsehood cannot produce Truth*. If it was asserted that Cæsar transported his troops into Britain in cockle-shells, it would want a proof that he transported here any troops at all. But the word in Virgil, from whence it is taken, is *Gesus* not *Gessus*,—

Duo quisque Alpina coruscant

Gesa manu.

And *Gesa*, says Servius in his notes on Virgil, is *Hastates viriles*; for the Gauls, says he, call strong men *Gesos*. So that the truth is, this *gesa* of Virgil signified the Gaulish youth, or young men, active in arms; for *gwas* in the old Celtic signified a young man, as *goas* doth still in the Amoric, and in that sense the word was used in Britain about 1200

years ago, as we find in the works of Llywarch Hen:—

Am gwymp hên chwerddid gwên gwas

(The young laughs at the fall of the old).

Ll. Hen, Engl. Calangauaf.

And it is used in that sense to this day in Wales, in some places, particularly in Cardiganshire,—*Dere n'gwas*; Come, my lad.

Anhawdd yw rhoddi syniad cywir am ragoroldeb y gwaith, oblegid rhaid ei ddarllen yn fanwl i'w werthfawrogi. Y mae ynddo bethau gwerthfawr iawn, a hawdd credu ei fod yn ffrwyth ymchwyl blynyddoedd lawer. Nis gallwn lai na rhoddi ychydig ddyfyniadau, wedi eu cymeryd yma ac acw:—

BRUT Y BRENHINOEDD, the title of the British History, which goes by the name of Tyssilio, a bishop, son of Brochwel Ysgithrog, Prince of Powis, who was either the author or the continuer of it from the Roman Conquest to his own time, which was about the year 660, and was continued by another hand to the end of the reign of Cadwaladr. It was translated out of British into Latin by Galfridus, Bishop of St. Asaph, who, by adding some things of his own to please the taste of the age, hath hurt the credit of the history among the modern critics. But as the translation of any author should not, among people of common sense, be the standard to commend it or condemn it, such critics would do well, before they too hastily condemn the authority of the British History, to learn to read it in the original. The translator, Galfrid, hath not done the author justice, as abundance of British copies all over Wales and England will make appear. Vid. *Galfridus and Tyssilio*

CAER. This is a most ancient Celtic word from the beginning of times, and signifies an enclosed town, or fort, or stronghold. It is derived from *cau*, to shut or enclose; from hence also comes *cader*, a fort; as Cader Idris, Cader Benllyn, Cader Faesen, Cader Arthur, Cader Vyrddin, etc.,

etc.; and the word *cadarn*, strong; *cadernid*, strength. Other ancient nations had words of the same, or like sounds, to signify the same thing, as *Kir*, *Kiriale*, *Kiriath*, a town; *Carta* and *Carthago*; and Grand *Cairo* in Egypt. In the Sarmatic or Scythian, *car* and *carm*; in the Parthian, *certa* as *Dadocerta*, *Tigranocerta*, etc., signify a town.

Caer is prefixed, in the British, to the names of most of the British cities; as *Caer Ludd*, London; *Caerllion*, the City of Legions, etc.; and very often, when the British hath *caer*, the Saxons have put *Ceter*, *Caster*, *Cester*, or *Chester*; as for *Caer Esc*, Exeter or Exceter; for *Caer Dawn*, Doncaster; *Caerwynt*, Winchester, rectè Windchester; *Caer Loyw*, Gloucester. Therefore, for *Caer Ludd* in this Dictionary, see the letter L; and so of the rest.

MÔR, the sea, used in names of some places and people; as *Llannerch y Môr*; *Glan y Mor*; *Dinmor* or *Dingmor*; *Ar y Môr Ucha*, i.e., *Aremorica*, in Gaul, *Morinwyr*, i.e. *Morini* (*à mor* and *Rhin*).

Mr. Edward Llwyd says that *mor*, and *mâr* and *mêr* anciently signified *water* as well as *sea*, as does *llyr* also; and in order to prove this, that *Ogmor*, the name of a river in Glamorganshire and in Caernarvonshire, means *eogmor*, or salmon-water; and that *Marlas*, a river in Carmarthen-shire, and *Morlas*, a river in Glamorganshire, are of the same origin; and that *mêr* in the word *cymmer* signifies water and in *mêrhelig* or water-willow.

All these are guesses, but backed by no manner of authorities. As such positions as these tend to confound all languages by making one word to run through all the vowels, which etymologists are too apt to do when they are at a loss for the derivation of a word, we'll see what can be said to the contrary, so that every word may keep its own primitive sound, as the wise founders of languages certainly intended they should, and as the nature of things requires, *Ogmor* might signify the greatest *Og*, if there is another hard by, or runs into it, that was called *Ogfach*, as *Dwyfor* and *Dwyfach*, near *Criccieth* in *Caer*-

narvonshire, for *mawr* in composition is often pronounced *mor*, as Coetmor for Coedmawr; Mordaf, a man's name, for Mawrdda; and Mordaf, a river in Shropshire, as Mr. Llwyd confesses, signifies a great brook, which, by the by, means the great Tav, as no doubt there is a little Tav hard by [not to my knowledge—W.D]. But the true name of the river which in our times they called Ogmore, is Ogwr. So the whole argument has no foundation, Glyn Ogwr, etc.

RHUDDLAN (*à rhydd* and *llan*, q.d. red place); hence the English name Rutland or Ruddyland. Rhuddlan Tegeingl is the town and Castle of Rhuddlan in Flintshire, first built by Llewelyn ap Sitsyllt, Prince of Wales, says Camden. The monastery began to be built A.D. 258 (M.S. but qu?). At Rhuddlan, in Flintshire, was made the Welsh Statute of Rutland in the time of Edward I.

Ymladd Rhuddlan, A.D. 795. Caradog, King of North Wales, was slain by the Saxons. (*Caradog*, p. 20.)

Wrote also Rutglan in old MSS.

A Rutglan yn rbutlaw amgant.

Prydydd y Moch, Ln., ap Iorwerth.

Mr. Camden, in his *Britannia*, after his description of *Rhuddlan*, gives us the following surprisiug account; surprising, indeed, to come from an author who is so apt to charge others with ignorance and fabulous accounts:

"Below this Castle," (says he) "the river Clwyd is discharged into the sea; and tho' the valley at the mouth of this river does seem lower than the sea, yet it is never overflowed; but by a natural tho' invisible impediment, the water stands on the very brink of the shore, to our just admiration of Divine Providence."

One would think that Mr. Camden was asleep when he wrote this, or else that an itch of relating wonders where there are none is natural for the describers of countries. This is worse than Giraldus Cambrensis' one-eyed fish and floating island (*Camden* in Caernarvonshire); or, indeed, any of Galfrid's or Nennius' wonders, for they don't apply their wonders to the false admiration of Divine Providence.

Did any river run up hill? If not, why then should he think that the Clwyd did? But, if to the contrary, if the

river Clwyd ran down to the sea, through that surprising valley, as all rivers naturally do, must not the valley be higher than the sea? Then where is the wonder that the sea should stop at high-water mark in this, no more than in the mouth of the Thames? An author that is so inaccurate in his philosophy is not to be relied upon in relations of this kind. To account of this blunder of Mr. Camden, he stood on a hill when he observed the valley about Vorryd; and the high waves of the sea beating upon the shore, and rolling back as if some invisible hand had drove them and the sea towards the Isle of Man, making an angle nigher the level of his eye than that of the valley, he concluded, for want of skill in optics, that the the valley was lower than the sea. So his eye deceived him because he made no use of his reason. But enough of this.

Fel yr ydym eisioes wedi awgrymu, rhaid fod yr awdwr wedi ymboeni ac ymdrafferthu am flynyddau lawer i gasglu yn nghyd y defnyddiau at y gwaith pwysig hwn, a hyny o dan anfanfeision dirfawr. Nid yw yn syndod, gan hyny, ei fod weithiau yn cyfeiliorni yn ei sylwadau ar darddiad geiriau, ac mewn cyfeiriadau eraill; y syndod yw ei fod wedi llwyddo, dan y fath amgylchiadau, i wneyd gwaith mor dda. Nid tēg yw ei farnu wrth safon yr oes hon; rhaid ei ddal wyneb yn wyneb â safle pethau gant a haner o flynyddoedd yn ol. Ond i ni wneyd hyny, canfyddwn ei fod ar y blaen mewn pobpeth sydd yn dwyn cysylltiad â hanes a llenyddiaeth Cymru, a'i fod wedi llwyddo yn rhagorol yn y gwaith a osododd iddo ei hun, sef casglu "defnyddiau bywgraphyddol, beirniadol, hanesyddol, geiryddol, amseryddol, a daearyddol" am Gymru. Pe na buasai am ei lafur a'i ddiwydrwydd diffino ef, diamheu y buasai amryw o'r pethau dyddorol a gwerthfawr a gofnodir ganddo wedi myned ar ddifancoll.

Fel hyn y dywed y Parch. Robt. Jones, Rother-

hithe, am y gwaith :—“ If we take into consideration the meagreness of the comparative philologist's knowledge in the last century, we are compelled to deem his ‘ Celtic Remains ’ a marvel.”

Yn y *Cambrian Register*, a gyhoeddwyd i ddechreu yn y flwyddyn 1796, o dan olygiaeth William Owen Pughe, ceir gohebiaeth led faith rhwng Lewis Morris â Mr. Carte (yr hanesydd), Ieuan Brydydd Hir, Edward Richard (Ystradmeurig), a Mr. S. Pegge, ar darddiad geiriau, hynafiaethau a materion o'r fath. Y mae yn y llythyrau hyn doraeth o wybodaeth, a gresyn nad ellid eu hail gyhoeddi er budd y tŷ presenol o ddarllenwyr.

Mewn llythyr at Edward Richard, dyddiedig “ Sept. 8, 1760,” cyfeiria at rywbeth oedd Dr. James Phillips, Blaen y Pant, wedi ei ddweyd am dano, ac, meddai, yn hynod ddiymhongar :—

DR. PHILIPS has too good an opinion of me, and so has Mr. Pegge; such encomiums are enough to make a vain fellow stark mad with pride. You know very well that they shoot vastly wide of the mark. I know who were learned men; I am sure I am not. Such a glorious epithet fits only a Scoliger, a Selden, a Halley, a Newton, &c., and such a sacred character is infinitely beyond my reach. *Na wrthod dy barch pan y cynnygier.* Refuse not thy respect when it is offered to thee, is an excellent British proverb; but God forbid that I should pretend to sit easy under such a great character, when I do not deserve it. I admire, and almost adore those great lights, and spirits of a superior order, who were really learned men, and for aught I know inspired; but alas, they are so high above the common level, that I have but a faint glimpse of their great perfections.—(*Cambrian Register* 1796, p. 363.)

Yn ei lythyrau at ei hen ddisgybl, Ieuan Brydydd Hir, ceir cyfeiriadau mynych at hen ysgriflyfrau oeddynt yn debyg o fod yn wasanaeth-

gar yn nglyn â hanes a llenyddiaeth Cymru, a daw ei awydd angerddol i wneud pobpeth yn ei allu er budd ei wlad i'r golwg yn barhaus. Mewn un llythyr, y mae yn ceryddu y Prydydd Hir yn dyner am ei wendid yn nglyn â'r ddiod feddwol :

I WAS heartily sorry to see you in these foolish difficulties when you were here last. For heaven's sake, for your own sake, and for the sake of us all, do not run yourself into these excesses ; but show the world that you have not only learning and knowledge, far above the common herd, but that you have also discretion and prudence, without which no man will ever arrive at greatness. Nennius will set you up, out of the reach of little folks, if you stick to him.

Ysgrifenydd y llythyr yma o "Penybryn, June 26, 1763," ac yn yr un llythyr dywed :—

A PERSON told me lately, that he had seen you at Hengwrt, on your way home from me ; and that you were permitted to look over what MSS. you pleased ; and that you translated them off hand into English, as if they had been the common text of the Welsh Bible.

I was very glad of this, and I hope you have met there with the so much desired copy of Nennius, which has had the benefit of Mr. Robert Vaughan's hand, and which must be the test to all others ; and then we shall see a genuine Nennius come out in English, as far as the nature of the thing will bear.

If I can be of any service to you in this arduous task nothing of my endeavours shall be wanting, and for God's sake begin to translate into English, as fast as you can, and let me see it as you go on, perhaps I may help you to some notes, or some illustrations or other. I have Nennius and Tyssilio much at heart, and I cannot be long on this side the grave.—*Cambrian Register*, vol. i. p. 373.)

Buasai yn dda genym ddyfynu yn helaeth o'i lythyrau, gan eu bod y dystiolaeth oreu ellir gael o'i fedrusrwydd yn y gwahanol ganghenau o

wybodaeth, ond palla gofod, a rhaid boddloni ar yr ychydig a ganlyn.

Mewn llythyr at Mr. Carte (*Cambrian Register*, 1799, p. 479) dywed :—

YOUR kind letter of the third of March, that came by Mr. Parry, I received but a few days ago. I am glad to find such a sinewy advocate as you are for our old Britons, who have been so shamefully abused in their graves by our modern wits. It is a kind of sacrilege in my opinion to dare to overthrow an author of that antiquity as Brut y Brenhinoedd seems to be (laying aside a few foibles of that age it was published in, and perhaps foisted into it by the monks) hath not only the approbation of the learned world for some ages together, but an indelible mark of antiquity, viz. : plainness and brevity. I cannot help observing a few things which all the advocates for this history have I think omitted in its defence. . . . As you are so good as to endeavour to retrieve the ancient honour of our British nation, I shall lay aside an hour now and then, and steal a little from sleeping and eating, to give you all the assistance my poor capacity affords, which is very little, God knows; and I am ashamed for myself and country of Wales, that we have neither the skill nor the courage to write the history of our own ancestors, nay, far from that, that few of us in these days (I don't know what hath bewitched us) take any pleasure in reading the history those brave people have left us. Spare not then to ask any questions you please about the affairs of the ancient Britons, and I shall satisfy you from time to time, as far as my knowledge reaches, and my leisure will permit. . . . I have Mr. Baxter's glossary. His etymology of *Pendragon* is ridiculous; for *pen* and not *pend*, is a head; he might as well have disjointed the words *pendro* and *pendramwngwl* into *pendro* and *pend-ram-mwngwl*, which bear no sense at all; whereas everybody knows that *pendro* is compounded of *pen*—caput, et *tro* versus, quasi vertigo, and *pendramwngwl*, from *pen*, *tra*, and *mwngwl*, g.d. head over heels. Why not *pendragon* from *pen* and *tragon*? a

word which from the ancient Gauls and Britons (as I take it) signified a General. I am sure I have read it somewhere. But what are *rigon* and *ragon*, words of his own coining; he might as well have gone through the vowels, *regan*, *ragan*, *rugon*, because they sound something like *rex*. His derivation of *Arthur* is still worse. Mr. Baxter, with all his learning, had a great weakness, and loved to appear singular. Why must *Arthur* be dissected into *Ard* and *Heer*, two words of his own invention, that we know nothing of, either in dictionaries, old manuscripts, or common use, whereas we are very well acquainted with the language of the 6th century, the time that *Arthur* lived, and the poets even of that age mention him by the name of *Arthur*; so also do all the poets ever since; and by the rules of the British poetry before mentioned, it is impossible the name of *Arthur* should be pronounced different from what it is now, ever since it, or the British poetry had a being. . . . Your derivation of *London* from *Luna* and *Din* is one of the best. *Luna* is, by the ancient Britons, called *Llun*, so that *Llunddin* (is the city of *Luna*) and not *Llumdin*, is the true writing of this compound, because the *D* must be mollified or aspirated in forming the genitive case. Most British words compounded of *Din* begin with *Din* (contrary to the Latin, where these compounds end with *dinum* or *denum*), *Dindryfol*, a triangular fort; *Dinmor*, a seafort; *Dinllwyden*, *Dinmael*, *Dinorwig*, *Dinlle*, *Dinllyn*, *Dindaethwy*, *Dinam*, *Dinsulwy*, names of old forts in *Wales*; there are few names of places that terminate in *Din*, but then the *D* is softened for, the above reason, as *Bryn Hyrddin*, *Brodorddin*, *Caer Fyrddin*; so if *London* was derived from *Llong*, a ship, a *Din*; the compound, according to the nature of the British language, would be *Llongddin*: so from *Llun*, *Llunddin*, both which are not far from the present name *Llundain*. . . . I am extremely pleased with your concurrence in opinion with me about the old British character commonly called *Saxon*; when I shall have leisure, you shall have some materials on that head. The manuscript of *Taliesyn*, &c., you mention, is a piece of

great curiosity when supervised by such great men; Llywarch, according to the modern orthography (and not Llymarch) is the name of the poet you mention. M and M H have been formerly used for W. Llywarch is a common name amongst the Britons.

Mewn llythyr arall at Mr. Carte, dywed:—

PERHAPS you may now and then, as you go on in your history, have occasion to make use of Dr. Davies's dictionary, and Mr. Llwyd's archaeologia, to explain some British words. All the rest of your dictionary-writers are trash. Dr. Davies was 18 years composing his dictionary, though he had the Latin-British partly done to his hand by Thomas Williams. You had best make use of Llwyd in natural philosophy, and criticism, and of Dr. Davies for the main body of the language—I cannot help putting in a word or two about the Saxon Characters which you mention in your letter, to have been used in the old copy of Liber Landavensis, and which you think were left off at the conquest. These are characters which you call *Saxon*, I call them ancient British characters; and, if I am wrong, I should be glad to meet with a person that can give me reasons sufficient to think otherwise. However, I should be obliged to you, if you would send me your thoughts on the following arguments, which seem of great weight to me, and some antiquarians of our country.

First. I never read any author that asserts the Saxon nation to have known any thing of letters, when they first came to Britain, but that they were mere barbarians, and ignorant of all learning. If they had brought these letters with them from Saxony, or wherever they came from, there must have been some remains of it in inscriptions, and books left behind them in that country, unless they all came over to a man, and all their books and tombstones too, for, in all Germany, there is no such characters to be heard of.—That they invented them after they came over to Britain, is utterly improbable, when there was a Roman character through all Britain ready to their hands, and in common use, not to say anything now of the British Character. The Irish anti-

quarians say, the Saxons borrowed this character from Ireland; it is probable the Irish had it in common with the Britons, as the chief part of the language was the same, and as they have retained to this day, both character and language. But what occasion was there for the Saxons' going to Ireland, to borrow a thing they had in their own island, and neighbourhood, as will appear by and by. For the Britons made use of them in ancient times, beyond all history, as will appear hereafter. 1st. Cæsar seems to mean this character, where he mentions the Druids *Graesis Literis utuntur*, for many of these are the old Greek character, and I cannot see any reason to think we ever used the Greek alphabet together.

2dly. Many of our ancient British manuscripts are in this character, as is part of *Liber Landavensis*, that you mention for one, we have in North Wales.

3dly. I remember Mr. Edward Llwyd, in one of his Prefaces to his *Archæologia*, gives us three stanzas of the ancient Pictish poetry, which he found in the Highlands of Scotland, in this ancient character, or one very like it, it was written on vellum, and he reckoned it to be above 1,000 years old.

4thly. In *Langadwaladr*, in Anglesey, I have seen some of these characters, intermixed with Roman, on the tombstone of *Cadvan*, King of the *Venedotians*, who was one of them who fought the Saxons, when they destroyed the monks of *Bangor*, in the time of *Augustine*.

5thly. Our British historians and poets redound with the praises of one *Pabo*, *post of Prydain*, i.e. (*Pabo*, the Pillar of Britain), who lived about the time the Saxons came into Britain, or soon after. *Dynawt pyr*, the son of *Pabo post Prydain*, is mentioned in *Brut y Brenhinoedd*, to have been one of the noblemen who attended King *Arthur*, at his great feast at *Caerleon*, after the conquest of the island. The Latin editions of *Galfrid*, 1508, and 1517, call him *Domandus map apo*. That of *Tornetine's*, 1587, calls him *Dynawt mop opo*.

There was an ancient tradition in the parish of *Llanbabo*, in Anglesey, that *Pabo*, with his son and daughter, were

buried in that churchyard, opposite to certain faces that were carved on the wall, and to be seen at this day. In King Charles the Second's time, or thereabouts (as I was informed) the sexton, happening to dig a grave against one of these carved faces, at about six or seven feet deep, found a flat grave stone, one corner of which he picked, and demolished a few letters before he knew what it was; the stone was then removed to the quire, where it hath remained ever since, and of which I have a copy among my papers. It hath on it the figure of a man in long robes, with a coronet on his head, and a scepter in his hand, with a long beard, and a Latin inscription neatly cut, basso-relievo wise on one edge of the stone in these very letters that you call Saxon, *Hic jacet Pabo, &c.* I copied it with my own hands,—but I have not the inscription by me. I do not remember it all. We have several other ancient inscriptions in this character in North Wales; if our English antiquarians think otherwise, I should be glad to know how they can get over these things.

Un o'r llythyrau olaf a ysgrifennodd yw yr un canlynol at Edward Richards:—

Dear Sir,

A dead man can have no shame; and I am sure, I am dead, literally dead. For what man living would have neglected such a correspondent as you? But I find a letter of yours before my face, this minute, and unanswered, and dated 11th May: so long and unanswered! When I lived in the world, it was not thus; but I have taken my leave of it long ago, and am here only, as if I expected a fair gale of wind to carry me to my desired port. You will pardon one who hath packed up his all, and is every moment agoing. Evans' new correspondence, with Percy and others, is a great thing. I wish him success, and a little discretion: That man is in the high road of being famous, if he had but some small degree of that dull talent. I have been told, that since he left this country, in his way home, he has had access to Hengwrt Library; and, I hope, he has found *Nennius* there. I mean Mr. R. Vaughan's

copy, compared with Archbishop Usher's. Before I go hence, and be no more, I would willingly give an helping hand, to publish this author in English. I know I might be of some assistance in illustrating several passages in it. I have that writer, and *Tyssilio*, much at heart for the honour of our nation: as they have been sadly abused by, designing men. But I begin to fail: infirmities stop my hand and head; but notwithstanding, I am,

Yours sincerely, very sincerely, LEWIS MORRIS.

Wrth gyfeirio at y llythyrau hyn, ysgrifena awdwr yr erthygl ar Lewis Morys yn *Y Gwyddon-iadur*:—

Er lythyrau Saesnig a gyhoeddwyd yn y *Cambrian Register*, i'n tyb ni, ydyw y pethau goreu o ddigon a gyhoeddwyd o'i waith. Y mae amryw o'r rhai hyn yn wych dros ben, ac yn wir werthfawr; ond yn dangos yr un peth fyth, sef amrywiaeth talentau, a manyldeb celfyddydol. Y mae ei lythyrau at T. Carte, yr hanesydd, ac eraill, yn bur gynefin mewn hanes chwedlonol, fel ei ceir yn y Brutiau a'r Croniclau Cymreig; ac ymddengys ei fod yn credu y rhan fwyaf ohonynt. Hefyd, y mae ei lythyrau at Ieuan Brydydd Hir, ac Edward Richards, Ystradmeirig, yn dangos ei fod yn gwbl gydnabyddus â phrydyddiaeth Gymreig hen a diweddar, ac yn feistr penigamp ar y rhanau celfyddydol ohonynt, yn fesur a chynghanedd; a dengys ei holl gan-iadau yntau yr un peth.

Gwasanaeth pwysig arall a gyflawnodd Lewis Morys i'w wlad oedd sefydlu, yn 1735, yr argraff-wasg gyntaf yn Ngogledd Cymru, sef yn Nghaer-gybi, a dwyn allan y cylchgrawn cyntaf yn yr iaith Gymraeg. Cynwysai y rhifyn 16 tudalen 8-plyg o farddoniaeth, a'i bris oedd chwe' cheiniog. Ymddengys mai ychydig oedd y gefnogaeth a dderbyniodd, ac un rhifyn yn unig a gyhoeddwyd. Bwriadau i'r cylchgrawn fod yn gyhoeddiad chwarterol, i gadw ar gôf weddillion llenyddol yr hen

Frytaniaid, ac y mae y wyneb-ddalen yn darllen fel hyn :—

Tlysau

Yr Hen Oesoedd :

sef, Gwaith Doethion y Cynfyd,
yn cynwys

Rhan o Gywreinrwydd yr Hên Frytaniaid.

Gwedi eu casglu allan o amryw sgrifeniadau, er mwyn difyrwch i'r sawl a'i chwennycho, ag er mwyn cadw coffadwriaeth am yr Hên Wyrda Doethion gynt, a ymdrechasant mor galonnog dros eu Hiaith a'u Gwlad.

Nid wrth ei big y mae prynnu Cyfflog.

Well-sounding Verses are the Charms we use,
Heroick Thoughts and Virtue to infuse.
Things of deep Sense we may in Prose unfold,
But they move more, in lofty Numbers told.

—*Mr Waller.*

Argrâphwyd Ynghaer-gybi ym Môn, 1735.

Y mae Gwilym Lleyrn yn dweyd ddarfod i Lewis Morys gyhoeddi yn yr un flwyddyn (1735) "Annogaeth i Argraffu Llyfrau Cymraeg," ac y mae yn dyfynu y rhagymadrodd, yn yr hwn y cyfeiria Llywelyn Ddu at argraphwasg Caergybi fel "yr argraphwasg gyntaf erioed yn Ngwynedd." Gwel-som fwy nag unwaith honiad mai ym Modedern, yn Mon, y codwyd y wasg argraphu gyntaf yn y Gogledd; ond pe hyn yn ffaith y mae yn ddilys genym y gwybuasai Lewis Morys hyn yn dda, ac yr ydym yr un mor sicr na fuasai byth yn hōni mai ei eiddo ef oedd y gyntaf os nad oedd hyn yn ffaith. Yn ol Gwilym Lleyrn hefyd cyhoeddwyd llyfr yn dwyn yr enw *Holl Ddyledsweydd Dvn* yn Ngwrecksam yn 1718, ond barn y Canon Silvan

Evans yw fod hyn yn gamgymeriad, Wedi chwilio yn fanwl i'r mater nid ydym yn cael lle i amheu nad i Lewis Morys y perthyn yr anrhydedd o osod i fyny yr argraphwasg gyntaf yn Ngogledd Cymru.

Yn 1756, cyhoeddwyd llyfryn Saesneg o waith Lewis Morys, *A Short History of the Crown Manor of Creuthyn, in the County of Cardigan, South Wales*, a cheir ynddo y cyflwyniad "humbly presented to the Right Hon. Arthur Herbert, Earl of Powis, by L. M. Dec., 1756."

Yn 1776, cawn iddo gyhoddi "*Rhodd Meistr i'w Brentis, &c.* Wedi ei osod allan ar ddymuniad y cywrain a'r dysgedig Mr. Lewis Morris. Argraphwyd yn y Bala, gan John Rowlands, dros William Davies." Yn y "*Cofrestr o Lyfrau Cymraeg*," a wnaed gan Richard Jones, Dolgellau, rhoddir y desgrifiad canlynol o'r llyfr:—

RHODD Meistr i'w Brentis, neu y Gywrain Gelfyddyd o Japanio; yn cynnwys hyfforddiadau i roddi gloyw-wyneb o arian neu aur, ar goed a haiarn, pres, &c., athrawiaeth i'r Hwsmon, pa fodd i drin tir, aredig, ac i gadw yd rhag pryfed; I dymheru arfau miniog; ac i liwio lledr, gwlan, edafedd, a stwff, mewn modd gwell a rhattach nag arferol; ynghyd ag amryw bethau eraill tra buddiol a chywrain, buddiol i'w gwybod gan bawb a garant gywreindeb a chelfyddyd. Hefyd Cynghorion Meddyginiaethol i ddyn ac anifail; Y Ffordd i Fesur Coed, Llongwrio, &c., &c. Gan y cywrain a'r dysgedig Lewis Morris, Ysw., gynt o Fôn.

Gwelir fod y bardd yn rhodio maes eang, a cheir yn y llyfr gyfarwyddiadau ymarferol iawn ar y materion yr ymdrinir â hwynt.

Yn y *Traethodydd* am 1851 (td. 215), y mae Gwilym Hiraethog yn mesur amryw o feirdd o amser Llewelyn Ddu i lawr at ddyddiau Dewi Wyn a Gutyn Peris, gan roddi Lewis Morys, neu fel y geilw ef, "yr hen fesurydd cywreingraff," yn gyntaf oll dan y llinyn. Ugain yw safon perffeith-

rwydd yn mhob dosbarth, a dyma farn Hiraethog am dano:—

Awen	16
Gwybodaeth	19
Dysg	17
Cynghanedd	14
Chwaeth	16

Gyda phob dyledus barch i Gwilym Hiraethog, ymddengys i ni ei fod yn gosod Llewelyn Ddu yn rhy uchel mewn chwaeth, ac yn rhy isel mewn cynghanedd. Ei fod wedi meistroli y gynghanedd sydd amlwg i bawb sydd wedi darllen ei waith, a buasai yn well genym roddi un ar bymtheg o raddau iddo am hyny nag am chwaeth. Y gwirionedd yw, *diffyg* chwaeth ydoedd nodwedd amlycaf ei farddoniaeth. Ni faidd neb wadu fod ganddo awen, gwybodaeth, dysg, a chynghanedd, ond am ei *chwaeth*, neu, yn hytrach, ei *ddiffyg chwaeth*, goreu po leiaf a ddyweder. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am farn Hiraethog ar y mater, ac yntau yn feirniad mor graff a theg. Tybied yr oeddyr unwaith mai heb weled y darnau dichwaeth y cyfeiriwyd atynt yr oedd y prif-fardd; ond yn ei draethawd ar Feirdd a Barddoniaeth Cymreig, dywed:—“Yr oedd Llewelyn Ddu yn ddyn dysgedig a gwir fawr ar lawer o ystyriaethau, yn anrhydedd i’w wlad a’i genedl; ond trugaredd i’w enw a’i goffadwriaeth fuasai i’w ganiadau, gan mwyaf ohonynt, gael eu cuddio oddiwrth lygaid pob dyn byw.” Yn yr un traethawd dywed Hiraethog fod Llewelyn Ddu yn rhagori ar Dafydd ab Gwilym “yn ngwamalrwydd ei gyfansoddiadau.” Pa fodd, ynte, y mae cysoni tafoliad Hiraethog yn 1851 â’r dyfyniadau uchod o’i draethawd? Credwn nad yw yn bosibl gwneud hyny ond ar y dybiaeth iddo anfon ei dafoliad i’r *Traethodydd* cyn gweled y darnau am y rhai y

dywed yn ei draethawd mai “trugaredd fuasai eu cuddio oddiwrth lygaid pob dyn byw.” Y mae yn sicr genym pe buasai Gwilym Hiraethog wedi gweled y cyfansoddiadau hyn cyn iddo fesur a phwyso eu hawdwr ar gyfer darllenwyr y *Traethodydd*, y buasai wedi ei osod raddau lawer yn is mewn chwaeth.

Yr oedd gan ei ddysgybl, Ieuan Brydydd Hir, feddwl uchel iawn ohono. Mewn un man dywed:—

This worthy person had so strong an affection for his native country and language, that he spent a great part of his time in searching out monuments of antiquity of all sorts in any way relating to the history of the Ancient Britons, and was of great help to the late Mr. Carte in compiling his *History of England*, in its most remote periods, which he in part acknowledged; but did not think proper to make use of the curious materials he supplied him with, any further than was consistent with the current prejudice of the English against the British History. This disingenuity and want of candour and sincerity in Mr. Carte our author thought to have properly resented.

Yn 1765, cyfansoddodd y Prydydd Hir gywydd marwnad iddo, ac mewn nodiad o flaen y cywydd cyfeiria at Llewelyn Ddu fel

PRIF Hanesydd Brydain Fawr, o barthed ei Chymmrodorion, eu Henwau, eu Hachau, a'u Hansawdd; Amgeleddwr godidawg-wiw yr hen Frytaniaith, a'i Beirdd, Prif Oruchwyliwr Mwngloddiau y Brenin o fewn Talaeth Cymru; Darluniwr celfyddgar Ebyr ein Gwlad, o Fôr Udd i Fôr Iwerddon; Philosophydd Anianol cywrein-ddoeth manyl-ddysg; mwy hynod am bob Dawn a Gorchest benigamp na neb o'i gydwladwyr y to heddyw.

Wrth ddechreu ei farwnad, dywed y bardd:—

Gwae heddyw a gyhoeddir,
Mor dost yw i Gymru dir
Golli Lewys, gell Awen,
Dwyn ei pharch, ei dawn, a'i phen!

E dynwyd iaith dan y dwr
 Gladdu ei hamgeleddwr :
 Caled yw colli colofn
 Penciw dawd cerdd ddidlawd ddofn,
 A fedrai yn wiw fydrawl
 Holl gampau mesurau mawl.

Cyfeiria at fedrusrwydd Llewelyn Ddu mewn
 athroniaeth naturiol fel hyn :—

Pwy a wybydd, pa obaith,
 Duw Ion a'i wyrth mawrion maith,
 O ddyn hyd at bryfyn brau,
 A'u rhyw hynod, a'u rhiniau.
 O goedydd mawrfrig adail
 Hyd lysiau mân deiau dail ?

Am ei wasanaeth i'w wlad yn nglyn â chywiro
 camgymeriadau Camden ac eraill gyda golwg ar
 hanes y Cymry, dywed :—

Cynhes oedd ei amcanion,
 Mor frwd ei ddiammhur fron,
 I Gymru, rhag i ammrant
 A malais Sais, megys haint,
 Ddwyn, a mynych y cwynwn,
 Ein bri, a'n sori â'n swn.
 Torodd eu dannedd taerion,
 Difyr erioed, da fu'r fron,
 I Gampen y rhoes sen sur,
 A'i *Frydain* ofer awdur ;
 Sef, y dangoses hefyd,
 O'i fawr bwyll, ei fai i'r byd.

Yr oedd gan Iolo Morganwg syniad isel iawn
 am dano fel ieithyddwr, oblegyd yn y *Brython*
 (cyf. iii. t.d. 54), dywed mai "eilun crachfeirdd a
 chrachieithyddion Cymru" ydoedd; a dywed yn
 mhellach, "fel hanesydd, gwyrddroi pobpeth i gyd-
 weddu â'i ddychymygion diymbwyll ei hun yr
 ydoedd ef yn wastad." Ond dengys ei ohebiaeth

â Dr. Carte, yr hanesydd, Mr. Pegge, ac eraill, fod eu syniadau hwy am dano yn bur wahanol. Mewn llythyr at Dr. Phillip, dywed Mr. Pegge :—

Yr wyf yn gweled mai ysgolhaig tra rhagorol yw Mr. Morris, a'i fod yn gwbl feirniad yn iaith a hanesiaeth ei wlad ei hun. Mi a ddymunwn o fy nghalon iddo roddi i mi gyfeithiad naill ai yn Seisoneg ai yn Lladin o'i hanesiaeth ddilwgr ef o Brydain Fawr, yn gymharedig fel yr oedd efe yn son, â llawer o ysgrifeniadau eraill, gyda sylw-nodion adchwanegol, er cadarnhau ac egluro ei honiadau, a dymchwelyd y gwrthddadleuon a ddygwyd yn ei erbyn gan rai enwogion.

Daw medrusrwydd Lewis Morys fel ieithyddwr i'r golwg yn bur amlwg yn y dyfyniad canlynol o'i ragymadrodd i'r argraphiad cyntaf o'r *Diddanwrch Teuluaid* :—

THE English Tongue is far mor indebted to the ancient Language of Britani, now spoken in Wales, than is generally imagined. Shallow dabblers in Etymology run with the stream, and attribute every word that sounds like English, to be a corruption or borrowed from that Language; which, if some care be not taken to distinguish them, will be a means to create, in time, a Confusion of Languages, like that of Babel. I am far from claiming all the words from Latin, Greek, and German, which Mons. Pyron is willing to give us; but shall be contented with such as prove themselves to be ours from very ancient times; and which from their very nature and composition, shew themselves to be such. For example,

Can anybody doubt but that the English word *Denizen*, (a Foreigner made free), is taken from the British *Dinaswr*, or *Dinesydd*, a Citizen? It is not plain that the word *dainty* is derived from *dant*, a tooth? pl. *daint*. Who cannot see that *to darn*, with a *needle and thread*, be not borrowed from the British *darn*, a piece, *darnio*, to piece, &c.?

Who can be so hardy as to deny that the word *Garter* (that Great Mark of Honour) is derived from the British *Gardys*, signifying the same thing; and *that* from *Garr*, the

Ham, as if one would say *Ham-ties*? I might enumerate abundance of such *English* words, which prove themselves to be old *British*; but that it is beyond the scope of a Letter.

Y mae ieithyddwyr goreu yr oes hon yn ategu barn Lewis Morys gyda golwg ar darddiad y geiriau a nodir ganddo.

Yn *Y Traethodydd*, am 1851, ceir tafoliad Lewis Morys o feirdd Cymru, o ddyddiau Aneurin Wawdrydd i lawr. Mantola ryw driugain neu ragor o feirdd mewn awen, gwybodaeth, dysg a chynganedd, gan nodi ugain fel safon perffeithrwydd yn mhob dosbarth. Credwn fod ei dafoliad, ar y cyfan, yn bur agos i'w lle. Ar yr un pryd, ymddengys i ni ei fod wedi cyfeiliorni mewn aml i fan; er engraipt, rhydd Ieuan Brydydd Hir, Huw Morys, William Cynwal, a Goronwy Owen yn gyfartal mewn awen; a William Cynwal, Rhys Nanmor, a Goronwy yn gyfartal mewn cynganedd. Ychydig fydd yn barod i ategu y feirniadaeth hon o'i eiddo, ac yn ei sylwadau ar y daflen gofyna Hiraethog:—"Ai nid yw Ieuan Brydydd Hir hefyd rywfaint yn *rhy hir*, gan y saif yn y daflen mor daled a Goronwy Ddu o Fon?" Ond, fel rheol, rhaid dweyd fod Llewelyn Ddu wedi mantoli yn hynod o dêg a diduedd. Nid gwaith bychan ydoedd darllen yn fanwl weithiau dros driugain o feirdd, fel ag i ffurfio barn am ei medrusrwydd yn y cyfeiriadau a nodwyd, ac y mae'r ffaith fod Lewis Morys wedi llwyddo cystal yn brawf diymwad o'i allu beirniadol.

Byddai yn anhawdd rhoddi gwell syniad o'i allu fel beirniad na thrwy ddyfynu rhan o'i lythyr at Ieuan Brydydd Hir, dyddiedig Hydref 13eg, 1751:—

LET me have a short *Cywydd* from you now and then, and I will send you my observations upon them, which may be of no disservice to you. That sent in your last letter I

here return to you, with a few corrections. It doth not want many : use them, or throw them in the fire, which you please. Do not swallow them without examination. The authority of good poets must determine all.

Y forwyn gynt, fawr iawn gais,
Deg aruthr erioed a gerais.

The word *Aruthr*, though much used, in the sense you take it, seems not proper here ; yet Dr. Davies translates it *Mirus*. I cannot think but the original import of the word is *Terrible* ; and they cannot say in English, of a woman, she is *terribly fair*. *Ruthr*, from which *Aruthr* is compounded, I dare say had that sense, at least :—

Y cythraul accw ruthrwas.—W. LLEYN.
Deg wawr erioed a gerais

May do as well, and sounds better.

Felly yr ymddengys y llinell yn ngwaith y bardd a gyhoeddwyd o dan olygiaeth y Parch. D. Silvan Evans.

Yn yr un cywydd ceir y llinellau ;—

Crychaf, ac ni fynaf au,
I dir anghof drwy angau.

Ond dengys Llewelyn Ddu fod y llinell olaf yn ddiffygol o eisieu cyfnewid bogail, ac awgryma yn ei lle " O dir ing af drwy angau," yr hyn sydd yn ddiameheu yn welliant mawr.

Yn mhellach yn mlaen ceid y llinellau :—

Oni roi, Gwen, eurog wedd,
Drwy gariad ryw drugaredd.

Yn ei lythyr dywed Lewis Morys :—

Eurog wedd is no great compliment to a fair woman ; for *Gwen*, a *Flavia*, loves to be called white ; and the last line hath *gar—gar*, therefore I would write thus, or the like :—

Oni roi, Gwen, îr ei gwedd,
Yn gywrain ryw drugaredd.

But I do not like *îr ei gwedd*.

Gan nad beth am y llinell gyntaf, diau fod yr ail yn tra rhagori ar y gwreiddiol.

Canmola yn fawr y ddwy linell :—

Ag o'r dôn egyr hyd annwfn
Af ar y dafl i fôr dwfn.

Ond ychwanega :—

HERE is a charming opening for you to describe the country you go to, and the wonders of the deep ; and something like the following lines might be inserted :—

Lle mae'r morfil friwfil fron,
A'r enwog fôr forwynion.

A derbyniwyd yr awgrym.

Yr oedd gan y Prydydd Hir y ddwy linell :—

Dyma'r modd dan wir i mi,
A dyr unwaith drueni.

Am y rhai hyn dywed Llywelyn :—

THE expression *dan wir* is too local, and is not understood all over Wales. Local expressions must be avoided as much as possible. Suppose you said then :—

Oni chaf heb warafun
Dy fodd fyth, difeiwedd fun.

Ac ychwanega :—

AFTER all these corrections, which are not very material, you have this comfort (and I mention it that you may not be discouraged), that I do not know a man in our country who can write a poem which shall want as few corrections.

. . . There are flights and turns in this poem which even David ap Gwilym would not have been ashamed of.

Yr oedd yn hynod o ddiwyd yn y gwaith o gasglu ac adysgrifenu gweithiau yr hên feirdd, a gadawodd ar ei ol oddeutu pedwar ugain o ysgriflyfrau, y rhai a gedwir yn yr Amgueddfa Brydeinig. Ar hyn dywed Ieuan Brydydd Hir :—

HE was a great admirer of the ancient British Bards, and understood them well, and had a very large and curious

collection, especially the works of Taliesin, Llywarch Hen, Aneurin Gwawdrydd, Merddyn Wyllt, Afan Ferddig, &c., who all flourished in the 6th century. He had likewise a large collection of the works of the Bards who wrote since the Conquest; and of those who wrote since the reduction of Wales under the English Government down to Queen Elizabeth, when that profession ceased.

Bu yr ysgriflyfrau hyn o wasanaeth mawr i gasglwyr ac efrydwyr ein barddoniaeth; er engraifft, cyhoeddwyd "Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym," o dan olygiaeth Owain Myfyr, ac yn y rhagymadrodd ceir y frawddeg:—"Corph y gwaith a ysgrifenwyd allan o lyfrau y brodyr Lewys, Rhisiart, a Gwilym Morrur o Fon, cynneddfau a godidog gampau y gwyr hynny, ni's anghofir tra bo barddoniaeth yn yr iaith Gymraeg."

Nis gellir rhoddi canmoliaeth rhy uchel i Llewelyn Ddu am ei wasanaeth i lenyddiaeth ei wlad, drwy noddi a chefnogi Goronwy Owen, Ieuan Brydydd Hir, ac eraill o feirdd a llenorion yr oes. Un o brif nodweddion ei gymeriad ydoedd *gwladgarwch*; yr oedd ei ddylanwad, ei gynghor, a'i arian bob amser at wasanaeth beirdd a llenorion ei wlad.

Yn ychwanegol at ei wasanaeth i Goronwy ac eraill, i Lewis Morys y perthyn yr anrhydedd o roddi y delyn gyntaf yn nwyllaw y telynwr enwog Parry Ddall, a dysgu iddo egwyddorion cerddoriaeth.

Gwnaeth waith da, hefyd, gyda'i frodyr yn nglyn â sefydliad Cymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain, ac yn ystod y blynyddoedd cyntaf o'i bodolaeth, ni fu neb yn fwy gweithgar o'i phlaid nag efe a'i frawd William, ei llywydd cyntaf.

Wedi clywed am farwolaeth Lewis Morys, canodd Goronwy, "Yn ei hir alltuedd," awdl

farwnad iddo sydd yn hynod o ddesgrifiadol o'r
gwrthddrych :—

Mesurai, gwyddai bob agweddion
Llun daear ogyrch, llanw dw'r eigion ;
Amgylchoedd moroedd mawrion,—a'u cymlawdd,
lawn y danghosawdd nid anghyson.

Daear a chwiliodd drwy ei chalon,
Chwalai a chloddiai ei choluddion,
A'i dewis wythi, meini mwynion :
A thew res euraid ei thrysorion,
A'i manylaf ddymunolion—bethau,
Deuai i'r goleu ei dirgelion.

Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
Llwybrau'r taranau a'r terwynion :
Fflamawg felt llamawg folltau llymion—
Is awyr ganaid a ser gwynion ;
Nodau'r lloer a'i newidion,—hynt cwmwl
O fro y nifwl i fôr Neifion.

Ebrwyddaf oedd o'r wybryddion,—hyglod,
A llwyr ryfeddod holl rifyddion !
Traethai, fe wyddai foddion—teyrnasoedd,
Rhò'i o hen oesoedd wir hanesion.

Honni a gafodd o hen gofion,
Achoedd, dewr bobloedd o dwr Bab'lon ;
Coffa bri ethol cyff y Brython,
Gomer a'i hil yn Gymry haelion,
Teithiau da lwythau dilythion,—diwarth,
O du areulbarth i dir Albion.

Yr oedd yn deall rheolau barddoniaeth yn
drwyadl, ac yn gallu cyfansoddi yn berffaith
gynghaneddol, ond rhaid dweyd ei fod yn lled
ddiofal yn fynych gyda'i farddoniaeth, ac yr ydym
yn teimlo y gallasai wneud llawer yn well pe
yn dewis. Bu yn hynod o anhapus yn ei ddewis-
iad o destynau ; nid oedd yn bosibl iddo gyfan-
soddi dim yn deilwng ar destynau o'r fath. Ceir

ganddo amryw o eiriau Seisnig, megys riwlio, siawns, powdwr, safio, solisitor, trafaelio, doctor, mendio, ordor, tendio. ac yn y blaen. Y mae Goronwy, ar y llaw arall, yn hynod lân oddiwrth y brychau hyn. Dichon mai elfen fwyaf nodwedd-iadol ei farddoniaeth yw *naturioldeb*. Y mae ei ddarluniad o'r rhew a'r eira, a ddyfynwyd genym yn barod, mor natnriol a dim a ddarllenasom erioed. Gellir dweyd yr un peth am ei ddesgrifiad o faban yn ei farwnad i'w nai, a fu farw yn adwy flwydd a haner oed:—

Dadwrdd, a dechreu d'wedyd
 Araith, heb iaith yn y byd,
 A wnaï'r maban bychan bach:
 A fu grefwr ddirgrifach?

Digio na chai rhyw degan,
 Dwr die'i dad mād yn y man;
 Digio'n fflam wrth ei fam fwyn,
 A dyddio â'i dad addwyn;
 A chwedyn, bob ychydig
 (Ni bydd meddal yn dal dig),
 Cymodi â'r ddau, frau fron,
 A mynych droiau mwynion.

Y mae'r "bychan bach" yn dyfod yn fyw ger ein bron yn y desgrifiad uchod. Fel bardd, saif raddau lawer yn is na Goronwy, er fod yr olaf yn cyfeirio ato fel "pen bardd Cymru oll." Wrth ysgrifenu at Rhisiart Morys yn 1752, dywed mai Llewelyn Ddu oedd "y bardd godidocaf sydd yn fyw heddyw, ac o ddamwain a fu byw erioed yn Nghymru." Ond rhaid cymeryd sylwadau canmoliaethus Goronwy gyda mwy na gronyn o halen; yr oedd cymwynasgarwch Lewis Morys wedi ei ddallu.



PENNOD II.

RHISIART MORYS.

GANWYD Rhisiart Morys oddeutu y flwyddyn 1705, a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y Swyddfa Forawl (*Navy Office*), ond ychydig iawn o hanes ei fywyd sydd ar gael. Yr oedd ef, fel ei frawd Lewis, yn bur hoff o adysgrifenu gwaith yr hen feirdd, a dywedir iddo adael amryw ysgriflyfrau gwerthfawr ar ei ol.

Yn un o'i lythyrau at ei frawd William, dywed Lewis Morys na chyfansoddodd Rhisiart yr un gân gyfan yn Gymraeg, ond y mae yn amlwg iddo gyfansoddi rhyw gymaint ar ol hyny, oblegid dywed Goronwy an dano yn y "Cywydd Marwnad i Marged Morys," mam y Morysiaid :—

Rhisiart, am gerdd bêr hoywsain,
Hafal ni fedd Gwynedd gain.

Oddiwrth hyn yr ydym yn casglu fod Goronwy wedi gweled rhyw gymaint o waith Rhisiart Morys, ond yr unig ddarn y digwyddodd i ni weled yn argraffedig yw ei "Gywydd Marwnad y Frenhines Carolina," yr hwn sydd i'w weled yn y "*Diddan-woch Teuluaidd*" (argraffiad 1763, t.d. 41). Dechreuwa gyda chyfeiriad at golled Prydain oherwydd marwolaeth y Frenhines :—

Prydain, gywrain ei goror,
Gref ei chaerau, muriau mor,
A'i gallu mawr ; dy golled
Yw cri holl deyrnaoedd cred !

Ceir yn y cywydd amryw o linellau tra rhagorol,
megys.—

Miloedd a geir yn moli
O hyd ei chyneddfau hi.

Ei nawdd a'i helusen oedd
Yn felus iawn i filoedd.

Meistres fwyn gynnes ar g'oedd,
A Mammaeth odiaeth ydoedd ;
Goreu mam, a'i geiriau mwyth,
I'w theulu mawr a'i thylwyth ;
Ni welwyd llun anhunedd,
Un tro yn gwywo mo'i gwedd.

Am ei dydd penblwydd (Dydd Gwyl Dewi),
dywed :—

O Dduw, am eni Gwyl Ddewi !
Y dydd hwn oedd ei dydd hi,
Pennodol siriol seren
Duw, a haul ein Dewi hen,
Gwych oedd yn Llundain y gwawl,
Gan hyny yn genhinawl,
Mewn mann yr hen Frutaniaid,
Yn dorfoedd, gantoedd, a gaid,
Yn yfed medd, a gwledda,
Glan gymdeithion, dynion da ;
A'r holl lu yn clymmu clod
Fedrusaidd, beraidd, barod,
Yn glau i'r teidiau tudawl,
A mwyn ymbyngient eu mawl.

Terfyna gyda gweddi ar ran y brenin, a deisyfiad
am i grefydd fod yn rhydd oddiwrth ddyllanwad
y Pab :—

O Brynwr, d'od i'n brenin
Hir einioes, di loes, a'i lin ;
A rho i ni byth o'r rhain,
Yn Frawdwy'r gorsedd Frydain :

A phar amddiffyn y ffydd,
 Yn gryfa rhag coel grefydd
 Hen *Unben Rhufain*, enbyd,
 O do i do tra bo byd.

Gwelir fod Rhisiart Morys yn feistr perffaith ar y gynghanedd, a cheir yn y cywydd darawiadau barddonol pur hapus.

Cyflawnodd Rhisiart Morys wasanaeth mawr i'w wlad fel golygydd argraffiadau 1746 a 1752 o'r Beibl. Ar gyfer argraffiad 1746, trefnodd y "Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig," a hefyd "Tablau Arian, Pwysau a Mesurau." Yn Nghaergrawnt yr argraffwyd Beibl 1746, a gelwid ef "Beibl Morys." Hwn oedd yr argraffiad cyntaf yn y llythyren bresenol (Rhufeinig); argraffwyd y rhai blaenorol mewn llythyren ddu (*black letter*). Ymddengys fod yno amryw o wallau, ac y mae yn debyg fod y rhai hyn i'w priodoli i'r ffaith fod y golygydd a'r argraffydd mor bell oddiwrth eu gilydd. Dygwyd allan argraffiad 1752 yn Llundain, lle yr oedd y golygydd yn trigo, ac yr oedd hwn yn hynod lân oddiwrth wallau y wasg.

Fod llês ei gydwladwyr yn agos iawn at galon Rhisiart Morys sydd amlwg oddiwrth ei waith yn llafurio i ledaenu yr Ysgrythyrau yn eu mysg yn eu hiaith eu hunain. Dangosodd barodrwydd mawr i gynorthwyo Peter Williams gyda'i nodiadau ar bob pennod, ac erbyn hyn, anhawdd yw iawn-brisio ei wasanaeth yn y cyfeiriad yma.

Mewn "Cywydd i ofyn Bibl," canmolir Rhisiart Morys gan Ieuan Brydydd Hir fel hyn:—

Y carwr addysg gwiw rhydd-hael
 Llundain oll, llawn doniau hael,
 Rhisiart, awdwr *art* eryr,
 Newton gynt yn donio gwŷr;
 A mwy *art* na *Des Cartes*,
 Rhwydd oll wyd yn rhoddi lles.

Rhoes Duw nef, er estyn yd'
Feddu llawer celfyddyd.

Ac addawa, os anfonid copi o'r Beibl iddo, y canai
fawl i'r rhoddwr hyd ddiwedd ei oes :—

Os daw hwn, ys da'i henwi,
Yn rhodd wrth fy modd i mi,
Yn fy oes y canaf fyth
Dy fawl, difai wehelyth.

Fel hyn y cyfeiria y Prydydd Hir hefyd yn ei
gyflwyniad o *Awdlau o Waith yr Hen Feirdd*, at
wasanaeth Rhisiart Morys i'w wlad :—

I MAE ein gwlad ni yn rhwymedig i bob un o honoch [sef y
tri brawd] i chwi y *Llywydd*, yn enwedig, am y gofal a
gymmasoch yn golygu argraffiad diweddaf y *Bibl
Cyssegrlan*, er lles tragwyddol eneidiau ein cydwladwyr.
Ef a dâl Duw i chwi am y gorchwyl elusengar yma, pan i
bo'r byd hwn, a'i holl fawredd a'i wychder, wedi llwyr
ddiflanu.

Gwasanaeth pwysig arall a gyflawnodd Rhisiart
Morys oedd cydweithio yn galonog ac yn egniol o
blaid plwyfolion Trefdraeth, Môn, mewn cyfraith yn
nglyn â phenodiad Sais yn berson y plwyf. Canlyn-
iad y gyfraith oedd i'r plwyfolion enill y dydd, ac
i'r Sais golli ei swydd. I'w egni ef, yn benaf, y
mae yn rhaid priodoli buddugoliaeth y plwyfolion.
Yn yr oes hono, nid peth dibwys oedd i ychydig o
blwyfolion ymglyfreithio âg Esgob gyda golwg ar
benodiad person y plwyf, ond ymdaflodd Rhisiart
Morys i'r gwaith, ac fel hyn yr adroddir hanes y
gyfraith gan Judge Johnes yn ei waith, *The Causes
which have produced Dissent from the Established
Church in the Principality of Wales* :—

In the year 1766, Dr. Bowles, an Englishman, unacquainted
with Welsh, was presented by the Bishop of Bangor to the
living of Trefdraeth, in Anglesey. In 1773, the church-
wardens, aided by the Cymmrodorion Society, brought an

action in the Court of Arches to deprive him of it, on the ground of his incapacity to do the duty in Welsh, &c. In the arguments of this cause, after the advocates of the Churchwardens had proved that by the canon, the statute law, &c., he ought to be deprived, the advocates of the defendant, Dr. Bowles, expressed themselves thus:—
 “Though the doctor does not understand the language, he is in possession, and cannot be turned out. *Wales is a conquered country*; it is proper to introduce the English language, and it is the duty of the Bishops to endeavour to promote Englishmen, in order to introduce the language. It has always been the policy of the legislature to introduce the English language into Wales.” Vide the depositions, arguments, and judgment in this cause, p. 59. The judge of the Court—“It is proper that the Bishops in Wales should take such order for the cure of souls as to appoint pastors that are acquainted with the language of the country. It is the primitive law of the Church, and is the law at this time. I am of opinion that a want of knowledge of the Welsh language *is a good cause of refusal* in the Bishop, and that he ought to refuse him if he be incompetent. The inhabitants of Wales have great reason to complain of such presentations.

Yn sicr, nis gellir rhoddi canmoliaeth rhy uchel i Rhisiart Morys am ei wasanaeth i'w wlad a'i iaith yn yr achos dan sylw. Bu yn gymwynaswr hynod o garedig i Goronwy, cyn i'r prif-fardd groesi y Werydd, ac arferai gwyno yn hiraethus ar ei ol. Parhaodd yn gyfaill ffyddlaw'n iddo hyd y diwedd. Ychydig cyn marw ysgrifennodd y llythyr hiraethlaw'n a serchog a ganlyn at ei anwyl Oronwy, ond ni dderbyniodd atebiad, am fod Goronwy, yn ol pob tebyg, wedi gorphen ei yrfa ddaearol. Dengys y llythyr mor fawr oedd ymlyniad Rhisiart Morys wrth ei hen gyfaill:—

Tw'r Gwyn, Llundain.

Yr Anwylaf Gyfaill,—Os byw ydych, fel rwy'n gobeithio, atebwch, da chwithau; ond os marw,

Dedwydd, O ! enaid ydwyt ;


Llaw Dduw a'm dycco lle 'dd wyt.—*Gro: Ddu*

Tan obaith cael un llythyr arall oddi wrthy ch cyn ymadael a'r byd, rhaid mynegu ichwi im' ateb eich llythyr gwerthfawr yn mhen haner blwyddyn ar ol ei dderbyn; ac yn nghylch blwyddyn ar ol hyny mi yrrais arall attoch drwy law Morgan, offeiriad, a ddaeth yna oddiwrth y Gymdeithas er ymledu'r Efengyl yn y gwledydd tramor, a'r llyfr printiedig *Diddanwch Teuluaid*, yn cynwys gwaith Goronwy Ddu, Llewelyn Ddu, a'r Bardd Coch; ac fe a addawodd ar ei gred eu doddi yn eich llaw eich hun; ond ni chlywais i fyth gwed'yn un gair, feneidiau, oddi wrth yr un o honoch Mae yma nifer o Saeson yn dysgu Cymraeg yn wyllt, i'w cymhwyso eu hunain i gyflawn ddealltwriaeth o hen hanesion Prydain. Och fi ! na baech yma i'w hathrawu, gloffwyr deillion. . . . Mae eich eisiau chwi yma yn dost i roi allan argraphiad newydd o Eirlyfr a Gramadeg y Dr. Dafis, &c., a chwi a gaech dâl da am eich gorchwyl. Dyma'r defnyddiau yn barod, ond eisieu Pen-saer i'w rhoddi yn nghyd. . . . Mae'r Cymmrodorion yn cynnyddu mewn nifer a charedigrwydd, ac yn hiraethu yn drwm am danoch i'w plith. . . . Bendith yr Arglwydd i chwi, mynegwch eich cyflawn haues, fel y gallwn ysyrried a oes yma well bywoliaeth i'w chael nag y sydd yna. Beth pe caech fod yn Geidwad Llyfrgell Syr Watkin Williams Wynn yn Llanforda, a chyflog da i'r fargen? Beth meddwch ! Mae y Pendefig hwnw, a fu'r dydd arall yn briod â chwaer Duc Beaufort, ond yrwan â nith yr Arglwydd Temple, y llall yn ei bedd, wedi dyfod yn un o'r Cymmrodorion; ië, a'i frawd yn nghyfrai'h, y Duc; yr hwn sydd gantho eiddo mawr yn ngwlad Forgan; ac hefyd yr Arglwydd Grosvenor, Bwclai, a Paget, mab Syr Nicolas Bayley, heblaw wmbredd o wŷr mawr eraill. . . . Beth a dâl chwanegu, pan fe allai na ddarllen neb fyth fy llythyr? Oni bai hyny mi ro'wn ichwi loned cod o newyddion bydol.


Mi wyf yr eiddoch drwy einioes ac angau,

Rhisiart Morys,

Yr oedd cyfeiriad y llythyr o'r hwn y cymerwyd y dyfyniadau blaenorol fel y canlyn :—



"Henffych well, Fon, dirion dir,
Hyfrydwch pob rhyw frodir."



"To the Revd. Mr. Gronow Owen
at New Brunswick, Virginia.

If the Revd. Mr. Owen is dead, I pray a line from the person who opens this, with some account of him and his family, directed to

Mr. Morris.
Navy Office, London."

Bu Rhisiart Morys yn llywydd Cymdeithas y Cymmrodorion am flynyddoedd, a gweithiodd yn egniol i sicrhau ei llwyddiant. Yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, o dan y flwyddyn 1755, ceir y cofnodiad :—
GWASANAETH Cyhoedd Eglwys Loegr: wedi ei addurno â liv. o Ddarluniadau Newydd Ystoriawl; A Ddychymygydd gan S. Wales; ac a Dorrwyd ar Efydd gan Ravenet, Grignon, Scotni, Canot, Walker, a Ryland, Llundain. A Fwriadwyd gan Rhisiartt Morys, L.L.C.C. Ac i'w cael ganddo ef, yn y lle a elwir y Navy Office, 1755.

Ond ymddengys mai pumtheg mlynedd yn ddiweddarach, sef yn 1770, y dygwyd allan yr argraffiad hwn o'r Llyfr Gweddî Cyffredin.

Yn 1760, dygodd allan ail-argraffiad o Eirlyfr Cymraeg a Saesneg Thomas Jones (a gyhoeddwyd gyntaf yn 1688) o dan y teitl, "Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb." Ar wyneb-ddalen yr argraffiad hwn ceir "A gasglwyd ar y Cyntaf, Drwy ddirfawr boen, a Diwydrwydd Thomas Jones, ac yn awr a ddibennwyd, gan Richard Morris, o Lanmihangel, tre'r Beirdd yn sir Fôn." Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf y gwaith hwn yn 1688, o dan olygiaeth y Thomas Jones a enwir uchod, ond yr oedd y gyfrol yn llawn gwallau, oherwydd "anwybodaeth yr awdwr, a gwallau argraffwyr Sais-onig." Y mae yr ail-argraffiad, a olygwyd gan Rhisiart Morys, yn hynod rydd oddiwrth wallau, ac y mae yn rhaid fod y golygydd wedi ymboeni ac ymdrafferthu yn fawr i gywiro gwallau Thomas Jones, ac i ychwanegu at ei waith.



PENNOD III.

WILLIAM MORYS.

NID oes sicrwydd gyda golwg ar amser genedig-
igaeth William Morys, ond tybir mai
oddeutu y flwyddyn 1707 y cymerodd
hyn le. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes fel
cynullwr y doll ar halen yn Nghaergybi; cym-
merodd drafferth mawr i ddysgu ieuencyd y dref
hono mewn caniadaeth eglwysig, ac wrth gyfeirio
at ei wasanaeth yn hyn dywed Ieuan Brydydd
Hir :—

Ei waith oedd, ar gyhoedd gynt,
Canu Salm, cynhes helynt ;
Dysgu gogoneddu ner
Yr oedd i luoedd lawer.

Fel ei fam o'i flaen, yr oedd yn gyfarwydd iawn
â llysieuaeth,—gwyddai am bob llysieuyn, fel y
dywed Goronwy :—

Allai fod (felly ei Fam)
Deilen na nodai William ?
Chwiliai ef yr uchelion,
Y môr, a thir, am wyrth Ion.

Cymerodd ddyddordeb mawr mewn garddwriaeth,
a chyfrifid ei ardd yn Nghaergybi yn un o'r rhai
harddaf yng Ngwynedd.

Dywed ef ei hun, mewn llythyr at y Bardd Coch,
y byddai yn difyru ei hun wrth *fosilita*, neu gasglu
cregyn anghyffredin a phethau o'r fath.

Treuliodd flynyddau lawer yn chwilio am, ac

yn adysgrifenu gwaith yr hên Feirdd. Gelwid un ysgriflyfr o'i eiddo "Y Delyn Ledr," a chyfeirir ati yn fynych gan Goronwy yn ei lythyrau. Ar hyn dywed Ieuan Brydydd Hir:—"Nid bychan o les i mae y *Gwr o Gaergybi* ynteu yn ei wneuthur, trwy gasglu *Gwaith yr Hen Feirdd* godidog gynt; ac ir wyf yn cyfaddef mai o'i lyfrau ef i cefais i y rhan fwyaf o'r odlau sydd yn canlyn." Cyfeirio mae y Prydydd Hir yma at y farddoniaeth sydd yn ei *Ancient British Poetry*.

Bu farw William Morys yn 1764, a dywedir iddo gael ei gladdu yn Nghaergybi.

Mewn llythyr dyddiedig y 31ain o Ionawr, 1764, cyfeiriedig at Rhisiart Morys, dywed Ieuan Brydydd Hir:—

I HAVE seen Hugh Jones of Llangwm here on his way from Anglesey. He brought me the very melancholy news of your brother William's death. I had heard it before, but could not believe it, but find since it is but too true. He was a valuable man in every respect, and, what to himself was most valuable, a good Christian.

Cyfansoddodd y Prydydd Hir gywydd-marwnad iddo, ac yn y penawd dywed fod y gwrthrych yn "llysieuydd godidog, a rhagorol am ei wybodaeth yn amryw geingciau Philosophyddiaeth anianol, celfydd yn iaith yr hen Frytaniaid a'r beirdd, a hynod am amryw gampau gorchestol a rhinweddau da eraill, nad ydynt yn aml Ynghymru y to yma." Dyfynwn y llinellau canlynol o'r farwnad, gan eu bod mor ddesgrifiadol o'r gwrthrych:

Lle bu gân a diddanwch
Y mae adfyd, tristyd trwch.
Lle bu wên a llawenydd,
Tostur yw'n dolur i'n dydd!

Cei glod ; adnabod a wnaeth
 Yn gywraint physygwriaeth ;
 A meddyg, oreu moddion,
 I dlawd oedd ; e dâl Duw Ion.
 A chwiliai ef yn wych lân,
 Berthynas barthau anian
 (Ddawngar bryd), gan ddwyn ger bron
 I'r goleu ei dirgelion ;
 Camu, llawenu yn llwybr
Linnæus, yn lân ewybr.
 Llyisiau a'u nodau, heb nam,
 Eilwaith adwaeniad William.
 Ni fu ail am ddail i'w ddydd,
 I rannu eu carenydd
 Yn hyffordd iawn, a'u heffaith
 I ddyd ; pand da oedd ei waith ?
 Blodau, heirdd deganau haf,
 Fil a wyddiad, fel Addaf.

Yna cyfeiria at y dydd pryd y daw

ein mirain Ion,

I roi barn ar wŷr y byd,

a dywed :—

Bydd William, wr dinam da,
 Un o dorf y lân dyrfa,
 Yn canu mawl rhadawl rhydd
 Yn ddifyr i Dduw Ddofydd,
 Ac i'r Oen hygar anian,
 Ac i'r Ysbryd gloew-bryd Glân.

1/2
 Yn oedd William Morys yn gyfaill cywir i
 Goronwy, ac ato ef yr ysgrifennodd yr olaf lawer
 o'r llythyrau ydynt yn argraphedig yn *Gronoviana*.
 Un englyn—sef yr un i Sion Rhydderch—yw yr
 unig gyfansoddiad a welsom o eiddo William
 Morys yn argraphedig :—

Anrhydedd a mawredd i mi—i'w goffa,
 Oedd gaffael ei gwmni,
 Sion Rhydderch y sy'n rhoddi—
 Diosg a wneiff dysg i ni.

Gwelodd Goronwy yr englyn yn ysgrifenedig yn
 llawysgrif yr awdwr yn Ngeiriadur Sion Rhydderch,
 ac fel hyn yr ysgrifenodd am dano :—

A GOOD *Englyn*, if you blot out the *a* in the first line,
 and for *Diosg a wneiff*, read *D'wysog ein Iaith*, in the last
 line in a parenthesis.





PENNOD IV.

GORONWY OWEN.

GAMSER Meilyr Brydydd, a'i fab Gwalchmai ab Meilyr, y rhai a flodeuent yn y ddeuddegfed ganrif, bu "Môn mam Cymru" yn enwog am ei beirdd, ond y penaf ohonynt, yn ddiddadl, os nad y penaf o holl feirdd Cymru, yw Goronwy Owen, neu fel y gelwir ef weithiau, Goronwy Ddu o Fon.

Ganwyd Goronwy yn mhlwyf Llanfairmathafarn-eithaf. Ni cheir cofnodiad o'i enedigaeth na'i fedyddiad yn Eglwys y Plwyf, ond dywed ef ei hun iddo gael ei eni ar ddydd Calan (sef yr hen Galan), ac mewn llythyr o'i eiddo, dyddiedig Medi yr 20fed, 1741, at Owain Meirig, Bodorgan, cyfeiria ato ei hun fel "gwr ieuanc . . . deunaw mlwydd oed." Oddiwrth hyn gellir casglu mai ar ddydd Calan, 1723, y ganwyd ef, er mai y flwyddyn 1722 a nodir yn gyffredin.

Yr oedd ei rieni yn dlodion iawn, ond trwy eu "diflin ddiwydrwydd," chwedl yntau, galluogwyd ef i fyned i Ysgol Gyhoeddus Bangor pan yn bedair ar ddeg oed, ac yno y bu am oddeutu pedair blynedd. Wedi iddo fyned trwy gwrs cyflawn yr ysgol, dychwelodd at ei rieni; ond yn fuan wedi hyny bu farw ei fam; priododd ei dad wraig arall, a gadawyd iddo yntau ymladd ei ffordd goreu gallai. Trwy ddylanwad ei fam yn benaf y cafodd addysg o gwbl, ac mewn canlyn-

iad i'w marwolaeth hi bu raid iddo droi ei gefn ar yr ysgol. Yr oedd ei sefyllfa ar y pryd yn un hynod resynus fel y dengys ei eiriau ef ei hun yn y llythyr y cyfeiriwyd ato yn barod :—

GAN nad ydwyf wedi ymarfer â gweithio, nis gwelaf un ffordd i enill fy mywoliaeth ; ac nid yw dysgeidiaeth i mi ddim amgen na chwaneg o lewyrch i ganfod yn amlycach wrtho y trueni sydd o'm blaen. Nid lles, ond niwed, yw yr addysg a roddwyd i mi gan fy rhieni, gan ei fod yn anghyfadddas i mi ; a rhaid i mi weithian ystyried fy hun yn anhapusach na gweithiwr cyffredin, a fyddo gynnefin â'i orchwyl, oddi eithr rhoddi o ryw Faecenas i mi gynnorthwy cyfamserol.

Dywedir iddo fod am beth amser yn îs-athraw yn Ysgol Ramadegol Pwllheli, a thrwy haelioni Mr. Edward Wynne, o Fodewryd, treuliodd beth amser yn Rhydychen, lle y graddiodd o Goleg yr Iesu, ac yn 1745 urddwyd ef yn ddiakon. Yr oedd yn digwydd fod gan Esgob Bangor eisiau curad ar y pryd yn mhlwyf genedigol y bardd, a gwnaeth yntau gais am y swydd. Yr oedd yr Esgob ei hun oddicartref, ond rhoddodd ei gaplan y swydd i Goronwy, a mawr oedd ei lawenydd yntau yn herwydd y ffawd dda. Bu yn gwasanaethu y swydd am dair wythnos, fel y dywed, " yn fawr fy mharch a'm cariad gyda phob math, o fawr i fach, a'm tad yr amser hwnw yn fyw ac yn iach, ac yn un o'm plwyfolion." Ond er ei fawr siomedigaeth, daeth llythyr oddi-wrth yr esgob yn rhoddi y guradiaeth i wr ieuanc arall.

Yn fuan wedi hyny, ymsefydlodd fel curad yn Nghroesoswallt, lle yr arosodd am oddeutu tair blynedd. Priododd yn Awst, 1747, a symudodd yn mhen oddeutu blwyddyn i Donnington, lle y ganwyd iddo ddau fab—Robert a Goronwy. Ymddengys mai £26 yn y flwyddyn oedd ei gyflog

am wasanaethu Ysgol Donnington ac Eglwys Uppington, ond rhaid cofio fod £26 yr adeg hono yn myned mor bell ag yr a £70 neu £80 yn ein dyddiau ni. Yn gynar yn y flwyddyn 1753, symudodd i Walton, ger Lerpwl, lle y bu am ryw dair blynedd. Yno y ganwyd ac y claddwyd ei ferch Elin, er cof am yr hon y cyfansoddodd hiraethgan hynod deimladwy.

Am ei amgylchiadau tra yn Lerpwl, dywed yn un o'i llythyrau :—

PYMTHEG punt a'r hugain yw yr hyn a addawodd fy Mhatron imi, ond yr wyf yn dyall y bydd yn beth gwell na'i air. Ni rydd imi ffyrting ychwaneg o'i bocced, ond y mae yma ysgol rad, yr hon a gafodd pob Curad o'r blaen, ac a gaf finau oni feth ganddo; hi dâl dair punt ar ddeg yn y flwyddyn, heblaw Ty'n y fynwent i fyw ynddo, ac os caf hi, fe fydd fy lle'n well na deugain punt yn y flwyddyn.

Symudodd o Walton i Lundain, ac yn fuan cafodd ei benodi yn gurad Northolt, rhyw ddeuddeng milldir o Lundain. Yr oedd ei gyflog yno yn £50 yn y flwyddyn, ac mewn llythyr at ei gyfaill Wm. Morys, dywed :—

LLE digon esmwyth ydyw'r lle, am nad oes genyf ond un bregeth bob Sul, na dim ond 8 neu 9 o ddyddiau gwylion i'w cadw drwy'r flwyddyn, a chan nad ydyw'r plwyf ond bychan, nid yw pob rhan o'r ddyledswydd ond bychan bach.

Oddeutu dwy flynedd yr arosodd yn Northolt, ac ar yr ail o Ragfyr, 1757, ysgrifennodd at Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain, i ddeisyf ychydig help tuag at ei gynorthwyo ef a'i deulu i fyned i'r America. Dangoswyd haelioni mawr iddo gan amryw o'i gyfeillion, a chefnodd yntau ar wlad ei dadau i chwilio am well ffawd mewn gwlad estronol. Gwarth oesol i awdurdodau yr Eglwys yn Nghymru yn y dyddiau hyny yw fod un o'i

meibion mwyaf athrylithgar wedi gorfod ffarwelio â'i anwyl Fôn, ac ymsefydlu mewn gwlad *ddyethr* i chwilio am luniaeth iddo ef a'i deulu, tra y mwynheid byd da yn helaethwych beunydd, mewn bywiolaethau breision, gan ddynion ag y mae eu henwau erbyn heddyw wedi eu llwyr annghofio. Gwir nad oedd buchedd Goronwy, yn ei gysylltiad â'r ddiod feddwol, yn hollol yr hyn a ddylasai fod, ond dichon fod a wnelo amgylchiadau adfydus ei fywyd fwy â hyn nag a gydnabyddir yn gyffredin. Nid ydym yn dweyd hyn gyda'r amcan o geisio cyfiawnhau y bardd, oblegyd yn sicr dylasai ymddwyn yn wahanol. Rhagorol iawn yw sylwadau y Parch. Robt. Jones, Rotherhithe, ar hyn :—

THERE was a period in Goronwy's life when, had he been taken by the hand, he might have been raised far above temptations such as these. Neglected, if not contemned, by the Welsh Bishops, debarred consequently from intercourse with his fellows, he—involuntarily at first perhaps—sought the only enjoyments within his reach, and sought them as refuges from the sorrow and troubles of a hard lot. Habit gradually confirmed their power, and the mighty Samson of Welsh song was shorn of his locks. We do not free the poet from blame, but there was blame elsewhere as well. When we consider the state of the Church in Wales at this time, and especially its need of powerful and efficient men, in view of the crisis that was looming in her horizon, we cannot but feel that he might have been made both a pillar and an ornament of the edifice. Nay, had he been called to do nothing more than write a hymnal for the Church, he would have done the best service towards strengthening her cords. (*The Poetical Works of the Rev. Goronwy Owen*, vol. ii. p. 84).

Wedi iddo groesi y Werydd, cawn ei fod yn hynod ansefydlog. Bu yn gwasanaethu un neu ddau o blwyfydd, ac yna cafodd ei benodi yn

athraw yn Ngholeg William a Mary, yn Williamsburgh, Virginia, a thrachefn yn St. Andrews yn yr un dalaeth. Pan yn Williamsburgh, priododd ei ail wraig, gan yr hon yr oedd pump neu chwech o blant. Oddiwrth lythyr o'i eiddo, ymddengys ei fod yn 1767 yn briod â'i drydedd wraig.

Gyda golwg ar y lle a'r adeg y bu farw, nis gellir dweyd dim i sicrwydd; ond yn y *Drych Americanaidd*, yn y flwyddyn 1875, cyhoeddwyd llythyr oddiwrth un o'i ddisgynyddion, yn yr hwn y dywedir i'r bardd farw yn nhŷ ei frawd-ynghyfraith yn Blandford, Virginia, yn mis Gorphenaf, 1769. Yn y *Geninen* am 1889 (t.d. 247) ceir llythyr o'i eiddo at ei briod, un o'r rhai olaf, ond odid, a ysgrifenyd ganddo, yn yr hwn y dywed:—

Yr wyf mor wan fel mai prin y gallaf eistedd i fynu i ysgrifenu. Pan welwch chwi fi, gwelwch olygfa—yr wyf yn deneuach nag y gwelsoch fi erioed—y mae fy nghoesau fel gwial tybacco. . . . Nis gallaf ysgrifenu rhagor, yr wyf yn llwyr flinedig, felly rhaid i mi derfynu gyda'ch sicrhau chwi, fy anwylaf, fel yr ydwyf gyda phob cariad a serchawgrwydd yr eiddoch, tra byddaf.—GORONWY OWEN.

Dyddiad y llythyr hwn yw Mehefin 24ain, 1769, ac os cywir yr hyn a ddywedir gyda golwg ar adeg ei farwolaeth, rhoddodd angau derfyn buan ar drallodion a siomedigaethau yr anfarwol Goronwy Owen. O ran ei berson a'i ymddangosiad allanol, "dyn bychan o gorpholaeth" ydoedd Goronwy, bywiog ei dymherau a'i ysgogiadau, o bryd tywyll, a dau o lygaid duon, disglær, chwareus, ac athrylith fyw yn pelydru trwyddynt. Yr oedd yn ysgolhaig gwych, mor hyddysg yn yr Hebraeg, y Groeg, a'r Lladin ag yn iaith ei fam, a dengys ei farddoniaeth ei fod yn dra chydnyddus â'r awduron clasurol.

Dywedir mai Huw Huws (*y Bardd Coch*) oedd y dyn cyhoeddus cyntaf y tynwyd ei sylw at dalentau barddonol Goronwy, a hyny pan nad oedd yr olaf ond bachgen. Ymddengys i'r Bardd Coch, yr hwn oedd yn ddyn tâl, main, teneu, fyned i gartref "y prydydd bach" i gael golwg arno. Wedi cyrhaedd yno cafodd ar ddeall fod y bachgen wedi myned i'r gors i gyrchu mawn gyda phlant eraill. Fel y cyfarfyddai â'r bechgyn ar eu dychweliad, gofynai iddynt, "O b'le mae'r daith hirfaith hon?" Atebodd y cyntaf, "O'r hen gors fawn yna," a'r ail, "O gario mawn o'r hen gors yna." Yna daeth Goronwy yn mlaen, a phan ofynwyd yr un cwestiwn iddo ef atebodd ar unwaith, "O geisio mawn, goesau meinion."

Ar ol i'r bardd groesi i'r America y dechreuwyd cyhoeddi ei weithiau, oddieithr darn neu ddau o'i farddoniaeth a roddwyd yn yr hen Almanaciau. Ymddangosodd dau o'i gywyddau, sef "Cywydd y Farn," a "Bonedd a Chyneddfau'r Awen," ac hefyd "Arwyrain y Cymmrodorion," yn y *Dewisol Ganiadau*, a gyhoeddwyd gan Huw Jones o Langwm. Dywed Charles Ashton, yn *Hanes Llenyddiaeth Gymreig* (t.d. 376), y cyhoeddwyd yn 1769 y *Diddanwch Teuluaid*, yn cynwys pedwar a deugain o gyfansoddiadau Goronwy, ond yn y flwyddyn 1763 y cyhoeddwyd y gyfrol hono. Y mae copi o'r gwaith yn digwydd bod ger ein bron yn awr, ac y mae yn gyflwynedig i'r "Parchedig a'r Urddasol Bendefig, William Fychan, Esq., o Gors y Gedol a Nannau, yn Sir Feirionydd; Seneddwr, Arglwydd Raglaw'r Brenhin, a Cheidwad y Rholau, dros y Wlad honno, a Phenllywydd y Cymmrodorion yn Llundain."

Tybir mai ei "Englynion i Dduw" a gyfansoddiwyd ganddo gyntaf, a hyny yn y flwyddyn 1741, pan yn ddeunaw oed, ac ychydig cyn iddo

fyned i Brifysgol Rhydychen. Sŵn gweddi ac ymostyngiad sydd yn yr englynion hyn, ac wrth ystyried ieuengctid y bardd, y mae yn rhaid i ni ddweyd eu bod yn glod i'w ben a'i galon. Cyfeiria at Moses a Dafydd, yn gyntaf fel bugeiliaid cyffredin, ond wedi hyny am Moses dywed :—

Di roddaist hyder iddo,
A braint a rheolaeth bro.

Ac am y Salmydd :—

O fugail, heb ryfygu,
Aeth Dafydd yn llywydd llu.

Terfyna gyda gweddi am yr un anrhydedd :—

Ni cheisiaf gan Naf o nefoedd—gyfoeth,
Na gofal breninoedd ;
Ond arail ŵyn ei dircedd,
Duw a'i gwnel, a digon oedd.

Yn 1752, cyfansoddodd Goronwy *Cywydd y Farf*, darn sydd yn llawn digrifwch, fel y buasem yn disgwyl ar destyn o'r fath. Ymddengys mai hwn ydoedd cynyg cyntaf y bardd yn y cyfeiriad yma ; a bu yn hynod o lwyddianus i ganu yn ddirifol, ac, ar yr un pryd, i gadw o fewn terfynau chwaeth.

Tra yn aros yn Northolt, yn 1755, anfonodd y bardd ei " Gywydd y Gwahawdd " i'w gyfaill William Parry, *Deputy Comptroller of the Mint*,—darn sydd yn llawn o'r llinellau mwyaf hapus a phert, er engraifft :—

Dithau ni fyni deithiaw
O dref hyd yn Northol draw,
I gael cân (beth diddanach ?)
A rhodio gardd y bardd bach ;
Ond y swydd hyd y flwyddyn,
Yw troi o gylch y *Twr Gwyn*,
A thori, bathu arian,
Sylltau a dimeiau mân ;

Dod i'th Fint, na fydd grintach,
 Wyliau am fis, Wilym fach ;
 Dyfydd o fangre'r dufwg,
 Gad, er nef, y dref a'i drwg :
 Dyred, er daed arian,
 Ac os gwnai ti a gai gân,
 Diod o ddwr, doed a ddel,
 A chywydd, ac iach awel,
 A chroeso calon onest,
 Ddiddichell, pa raid gwell gwest ?”

Yna y mae yn troi i fyfyrion, ac yn tynu gwerau
 oddiwrth hanes y blodeuyn :—

Llyna, fy nghyfaill anwyl,
 Ddifai gwerau i ddof a gwyl ;
 Diffwyth fân flodau'r dyffryn,
 A dawl wag orfoledd dyn ;
 Hafal blodeuyn hefyd
 I'n hoen fer yn hyn o fyd ;
 Hyddestl blodeuyn heddyw,
 Y fory oll yn farw wyw ;
 Diwedd sydd i flodeuyn,
 Ac unwedd fydd diwedd dyn.

Fel anogaeth i'w gyfaill dderbyn ei wahoddiad,
 dywed :—

Er pasio'r ddau gynhauaf,
 Mae'r hin fel ardymyr haf.

Yna rhydd fynegiad i'w hoff ddymuniad, sef cael
 treulio diwedd ei oes yn Ynys Mon, a therfyna
 y cywydd, fel y gwna amryw o'i gyfansoddiadau
 eraill, gyda gweddi am gael cartrefu yn y Nef :—

Ond cyn bedd, dyma 'ngweddi
 (Amen, dywed gyd a mi):
 Dybid i'n ddyddiau diboen,
 A dihaint henaint o hoen ;
 Myn'd yn ol, cyn marwolaeth,
 I Fon, ein cysefin faeth ;

Diddan a fyddo'n dyddiau
 Yn unol, ddiiddidol ddau.
 A'r dydd (Duw ro amser da)
 Y derfydd ein cyd-yrfa,
 CRIST yn Nef a'n cartrefo,
 Wyn fyd! a phoed hyny fo.

Cyfansoddiad arall o waith Goronwy yw
 "Cywydd y Cryfion Byd." Cyfeiria i ddechreu at
 gryfion Solomon fel y gosodir hwynt allan yn
 Llyfr y DIAR. xxx. 29—31, sef llew, milgi, bwch, a
 brenin, ac y mae ei linellau grymus yn dyfod
 â'r "cryfion" hyn yn fyw ger ein bron:—

Tri chryf i Selyf y sydd,
 Ie diriaid bedwerydd;
 Llew anwar, hyll ei wyneb,
 Treiddiol, na thry'n ol er neb,
 Milgi hirsafn ysgafndroed,
 Heb wiwiach ci; a bwch coed;
 Ner trech o rwysg na'r tri chryf,
 Os holwn, fu i Selyf,
 Brenhin a phybyr wyneb,
 Erfai, na's wynebai neb;
 Dyna, boed cof am danynt
 Ei bedwar, rhai anwar y'nt.

Darllenasom aml i ddesgrifiad o'r milgi mewn
 barddoniaeth hen a diweddar, ond y mae y tri
 gair "Milgi hirsafn ysgafndroed" yn cynwys
 darluniad mwy ffyddlawn a chynwysfawr na dim a
 welsom gan unrhyw fardd arall.

Yna dywed y gŵyr am "dri sydd drech" na
 chryfion Solomon, ac enwa ddau ohonynt—sef
 Duw ac Angau. Am Dduw dywed:—

O gadarn pwy a gydiaf,
 Am gryfder certh â nerth Naf?"

Wedi hyny cyfeiria at Angau:—

Er ised oedd yr Iesu,
 O inged yw Angau du!

Dilys i'r Angau dulew,
Heb ymladd yn lladd y Llew.

Er fod y ddwy linell gyntaf ychydig yn dywyll, tybiwn mai y meddwl yw, gan i'r Iesu fyned mor isel, gan fod yn ufudd hyd angau, mor gryf y rhaid fod Angau. Nid yw y bardd yn enwi y trydydd o'r "Cryfion Byd," ond rhydd ddarluniad mor fyw ohono fel nad oes modd i ni ei gamgymeryd:—

Y trydydd certh anferthol
Ei nerth sydd eto'n ol,
Mi a wybum o'm maboed
Ei rym, ef nis gwybu 'rïoed.

Tlodi yw y trydydd, "Mi a wybum o'm maboed ei rym," medd Goronwy, a phwy wyddai yn well? ond "ef" (sef Solomon) "nis gwybu 'rïoed;" ac yn mhellach dywed:—

Och! anaf yw ei chynwys,
O ffei! mi a wn ei phwys.

Fod y baich yn drwm sydd amlwg, oblegyd dywed:

O chawn nerth a chynorthwy,
Ni ddygwn 'y mhwn ddim hwy;

ond er hyny, ymostyngæ yn dawel i ewyllys y Nef:

Trom iawn yw, ond tra myn Naf
Yn ddigwyn hon a ddygaf.

Yn ystod arosiad y bardd yn Walton bu farw ei unig ferch Elin "yn bum' mis a blwydd oed, ac yntau a gânt y Farwnad hon iddi," fel y dywed ef ei hun yn y penawd. Fod hiraeth y bardd ar ol ei blentyn yn fawr sydd amlwg, ac nid yn fynych y ceir llinellau mor lawn o deimlad ag sydd i'w cael yn y farwnad fer hon. Dechreua gydag englyn sydd yn orlawn o deimlad:—

Mae cystudd rhy brudd i'm bron,—'rhyd f'wyneb
Rhed afonydd heilltion;
Collais *Elin*, liw hinon,
Fy ngeneth oleubleth lon!

Terfyna yn odidog :—

Yn iach, fy merch lwysfach lon—f'angyles,
 Gorphwys ym mynwes mynwent Walton,
 Nes hwnt dy gynull at saint gwynion,
 Gan lef dolef dilyth genhadon ;
 Pan roddo'r ddaear ei gwâr gwirion,
 Pan gyrcher lluoedd moroedd mawrion,
 Cai, f'enaïd, deg euraïd goron—dithau,
 A lle yngolau llu angylion.

Un arall o gywyddau y bardd yw "Cywydd y
 Cynghorfynt, neu'r Genfigen," a gyfansoddwyd
 oddeutu y flwyddyn 1752. Dechreuwa gyda'r ddwy
 linell adnabyddus :—

Cofio wna hoglanc iefanc,
 Yn llwyd hyn a glybu'n llanc.

Yna cyfeiria at rai o'r hen ofergoelion, megys
 canwyll corph, tylwyth têtg, bwbach llwyd a
 marwydos,—a dŵg Genfigen yn mlaen fel yn tra
 rhagori arnynt mewn atgasrwydd. Y mae ei
 ddarluniad o Genfigen yn brawf, nid yn unig
 o'i allu desgrifiadol, ond o'i gydnabyddiaeth dry-
 lwyr â'r iaith :—

Coeliaf er hyn o'm calon,
 A chred ddihoced yw hon,
 Fod gwiddon annhirionach
 Ei phenpryd yn y byd iach,
 Anghenfil gwelw ddielwig,
 Pen isel ddelw dduddel ddig ;
 Draig aeldrom, dera guldrwyn,
 Nych gan gas dulas i'w dwyn.
 Ac o rhoe wên ddwy-en ddu,
 Gwynfyd o ddrwg a ganfu ;

Gwena o clyw oganair,
 O rhoid clod gormod y gair ;
 Rhincian y bydd yn rhonca,
 A'i chrasfant, arw ddant, ar dda.

Ceir engraifft hapus iawn o draws-ddywediad yn y ddwy linell :—

Ein hamorth sy'n ei phorthi,
A'n llwydd yw ei haflydd hi.

Wedi rhoddi darluniad o Genfigen yn ei holl atgasrwydd, terfyna gyda'r apêl a ganlyn :—

Ceisiwn, yn niffyg cysur,
Ddwyn allan y gwan o gur,
A rhoddwn a wir haeddo
I fâd, pwy bynag a fo !

Os gwneir hyn, ceir diwedd ar Genfigen :—

A chenfigen, a'i gwenwyn,
Ddiffirwyth anfad adwyth dyn ;
Ddraig ffyrnig, ddrwg uffernol,
A naid i uffern yn ol.
Aed i annwfn, ei dwfn dwll,
Gas wiber, i gau sybll,
A gweled ddraig ei gwala,
Mewn llyn heb ddifyn o dda ;
Caiff ddau ddigon, a llonaid
Ei chroen o ddu boen ddi-baid.

Yn Mai, 1754, cyfansoddodd y bardd ei "Awdl yn ol dull Meilir Brydydd," yn yr hon y mae yn dynwared, yn fedrus iawn, arddull y Gogynfeirdd. Blodeuai Meilir Brydydd rhwng y blynyddoedd 1120 ac 1160, a cheir tri o'i gyfansoddiadau yn y *Myvyrian Archaeology*. Wrth gydmaru awdl Goronwy â'r darnau hyn ceir ei fod (fel y proffesa wneud) yn dilyn "iawn ysgrivenyddiaeth y Gogynfeirdd," ac nid rhyfedd ei fod wedi gallu twyllo amryw o'i gyfeillion oeddynt yn hyddysg mewn hen farddoniaeth, gan mor fanwl y mae yn dilyn geirweddiad ac arddull y bardd a ddynwareda.

Un o gyfansoddiadau y bardd tra yn aros yn

Mhwllheli (oddeutu 1743) yw "Calendr y Carwr," neu "Cywydd y Serch," darn sydd yn dwyn i gof rai o gywyddau Dafydd ab Gwilym, ond ei fod yn hollol rydd oddiwrth y serthedd a'r chwaeth isel sydd yn nodweddu cynyrchion y bardd hwnw, ac hyd yn nod gydoeswyr Goronwy, ar destynau o'r fath. Gall unrhyw fachgen neu eneth ddarllen y gân—nid oes dim ynddi a dramgwydda y mwyaf llednais ei deimlad. Dywed y bardd iddo gael ei glwyfo, nid â chleddyf, ond â saeth Cupid :—

Nwyfus fu'r galon afiach,

Ow ! galon sal feddal fach !

Wyd glwyfus, nid â gleifwaith,

Gwnaeth meinwen â gwên y gwaith.

Am y fenyw a'i clwyfodd dywed fod ei gwyneb mor dæg fel nad oedd modd i wên ei gwneud yn decach :—

Têg yw dy wên, gangen gu,

Wyneb rhy dæg i wenu ;

syniad nad allai dim ond athrylith fyw roddi bodolaeth iddo. Yna rhydd ddesgrifiad chwareus o'i hynt carwriaethol, ac wrth derfynu cyfeiria at hen arferiad oedd mewn bri yn ei amser ef. Pan ddigwyddai i deithiwr ddyfod at groesffordd, ac os byddai mewn amheuaeth pa ffordd i deithio, byddai yn gosod ei ffon ar ei phen, ac yn gadael iddi ddisgyn, ac yn ol fel y byddai ei chyfeiriad hi wedi disgyn y teithiai yntau. Dywed Goronwy ei fod am ddefnyddio yr un cynllun i benderfynu pa un a ddychwel at ei gariad ai peidio. Y mae'r cywydd yn llawn o geinion.

Am ei "Englynion i Twm Sion Twm," y cwbl allwn ddweyd yw eu bod yn dangos llawer o gywreinrwydd, a'u bod yn brawf o'i allu fel Cymreigydd. Y mesur a ddewisodd yw y proest cyfnewidiog wyth ban, lle y mae yn ofynol i'r

un gydsain fod yn niwedd pob braich, ond gwna y bardd y mesur yn fwy caeth fyth wrth ddechreu pob llinell gyda'r gair "Twm." Rhydd y dyfyniad canlynol syniad am natur y cyfansoddiad :—

Twm Sion Twm, y cidwm cas,
 Twm Sion Twm, blerwm heb les ;
 Twm Twm, os codwm os cis,
 Twm achrwm a glwm ei glôs ;
 Twm Sion Twm, ruddlwm, ni rus,
 Twm Sion Twm drwm droir i'r drws,
 Twm Sion Twm grwm yn ei gryd,
 Twm ! Twm ! y cawr hendrwm hys.

Gresyn i fardd o athrylith Goronwy wastraffu ei nerth ar ffiloreg o'r fath.

Yn un o'i lythyrau at Ieuan Brydydd Hir, dyddiedig y 23ain o Ebrill 1752, dywed Llewelyn Ddu am Goronwy Owen :—"He is but lately commenced as a Welsh poet ; and the first ode he ever wrote was an imitation of your ode on "Melancholy." Cyfeiriad sydd yma at yr "Awdl i'r Coler Du" gan y Prydydd Hir sydd yn dechreu :—

Tyred, Awen, gymhen, i'm genau,
 A'th iaith dda uniawn, a'th ddoeth ddoniau ;
 Trom yw 'nghalon eigion mewn igiau—heb baid ;
 Trom yw'r enaid mewn tramawr wyniau.

Ychwanega Lewis Morys :—"His ode is styled 'The Wish,' or 'Gofuned Gronw Ddu o Fon ;' and is certainly equal, if not superior to anything I ever read of the ancients."

Ysgrifenyd "Awdl y Gofuned" yn ystod arosiad y bardd yn Donnington, ac y mae y gân yn llawn o'r teimladau mwyaf hiraethus am ei hoff Ynys. Ei ddymuniad yw cael—

Dychwel i'r wlad lle bu fy nhadau,
 Bwrw enwog oes, heb ry nag eisiau,
 Ym *Mon* araul, a man orau—yw hon,
 Llawen ei dynion, a llawn doniau.

Rhent gymedrol, Plwyf da 'i reolau,
Tŷ is goleufryn, twysg o lyfrau ;
A gwartheg res, a buchesau—i'w trin
I'r hoyw wraig Elin rywiog olau.

A therfyna yn hynod bert :—

Pab a gâr Rufain, gywrain gaerau ;
Paris i'r Ffrancon, dirion dyrau ;
Llundain i'r Sais, lle nad oes eisiau—son
Am wychder dynion ; Mon i minau.

Prin y gellir galw y gân hon yn awdl. Disgwylir i *awdl* gynwys gwahanol fesurau, ond gwelir mai Gwawdodyn Byr yn unig a ddefnyddia y bardd, ac o flaen yr englynion dywed iddo eu cyfansoddi “cyn gwybod pa beth oedd awdl.” Mewn llythyr at William Morris, dyddiedig Chwefror 24ain, 1753, dywed :—

THE only knowledge I had of Gwawdodyn Byr, when I made my Gofuned, was a stanza or two of it, made by Ieuan Brydydd Hir on Melancholy, that Mr. Morris had sent me as a specimen of his ability in Welsh poetry, and no wonder that my Gofuned should be faulty in blindly copying after so inaccurate a pattern.

Ysgrifennodd y bardd “Y Cywydd Atteb i Annerch Huw ap Huw” oddeutu blwyddyn cyn myned i'r America. Cyfeiria at ei ddwy “alwad,” sef offeiriad a bardd, ac am bwysigrwydd ei swydd offeiriadol dywed :—

Os mawredd yw coledd cail,
Bagad gofalon bugail ;
Atteb a fydd, rhyw ddydd rhaid,
I'r Ion am lawer enaid.

Yn y llinellau canlynol, gwelwn ysbryd ymostyngol y bardd yng ngwyneb troion dyrus Rhaglun-iaeth :—

Achos nid oes i ochi,
Wlad hael, o'madael â mi :

Ceraiſ fy ngwlad, geinwlad gu—
 Ceraiſ, ond ofer caru !
 Dilys, Duw yw'n Didolydd,
 Mawl iddo, a fynno fydd.
 Dyweded Ef na'm didol,
 Gair o Nef a'm gyr yn ol.

Rhagorol iawn yw ei gyfeiriad at ei hoff Ynys yn y
 llinellau :—

Henffych well, *Fon*, dirion dir,
 Hyfrydwch pob rhyw frodir ;
 Goludog, ac ail *Eden*
 Dy sut, neu Baradwys hen ;
 Gwiwddestl y'th gynysgaeddwyd,
 Hoffder Duw Ner, a dyn wyd ;
 Mirain wyt ym mysg moroedd,
 A'r dw'r yn gan' tŵr it' oedd,
 Eistedd ar orsedd eursail
 Yr wyd, ac ni welir ail,
 Ac euraid wyt bob goror,
 Arglwyddes a meistres môr.

Barddoniaeth fyw yw y syniad mai ynys Môn,
 “ yn eistedd ar orsedd eursail ” (*golden*), yw
 “ arglwyddes a meistres môr.” Terfyna gyda
 chyfarchiad ymadawol hynod o deimladwy i'w
 anwyl Fôn,

dirion dir,

Hyfrydwch pob rhyw frodir ;

nas gallwn beidio ei ddyfynu :—

Poed im' hedd pan orweddwyf
 Yn mron llawr estron lle'r wyf.
 Gwae fi na chawn enwi nod,
 Ardd wen, i orwedd ynod ;
 Pan ganer trwmp Ion gwiwnef,
 Pan gasgler holl nifer nef,
 Pan fo Môn a'i thirionwch,
 O wres fflam yn eirias fflwch,
 A'i thorrog wythi arian,
 A'i phlwm a'i dur yn fflam dân !

Pa les cael lloches o'r llaid?
 Duw ranno dŷ i'r enaid,
 Gwiw gannaid, dŷ gogoniant
 Ynghaer y ser, ynghor sant;
 Ac yno'n llafar ganu,
 Eirian eu cerdd i'r Ion cu,
 Poed gwyr Môn, a Goronwy
 Heb allael ymadael mwy;
 Cyduned a llefed llu,
 Monwysion, Amen, IESU.

Byddai ceisio dangos prydferthwch y llinellau uchod yr un peth a goreuro'r aur, neu baentio'r lili. Digon yw dweyd fod y darn yn un o emau barddoniaeth Gymreig.

Wrth ddarllen cyfieithiad Goronwy o aralleiriad Dr. Collett o'r seithfed Salm wedi'r ganfed,—
 "Dyledswydd a Doethineb Dyn yn ymfoddloni i ewyllys ei Greawdwr," nis gallwn lai na gofidio na fuasai y bardd wedi ymroddi, naill ai i droi y Salmu oll ar gân, neu ynte i gyfansoddi emynau. Y mae penill cyntaf Dr. Collett yn darllen fel hyn :—

Through all the various shifting scene
 Of life's mistaken ill or good,
 The hand of God conducts unseen,
 The beautiful vicissitude.

Rhagorol iawn, a llawer gwell na'r Saesneg, yw cyfieithiad Goronwy, ar y Mesur Salm :—

Twy droiau'r byd, ei wên a'i wg,
 Bid da, bid drwg, y tybier;
 Llaw Duw sy'n troi'r cwmpasgyloch glân
 Yn wiwlan, er na weler.

Y mae y penillion canlynol hefyd yn darllen yn hynod o lithrig :—

O'i dadawl ofal Ef a rydd
 Yr hyn y sydd gymhedrol
 O hawddfyd, adfyd, iechyd, cur,
 Ond da' i gymhesur fantol?

Pe rhoem ar geraint, oed, neu nerth,
 Neu gyfoeth prydferth, oglud ;
 Os Duw a'i myn, Fe'n teifl i lawr,
 A'n rhodres mawr mewn munud.

Ei gysur Ef sydd yn bywhau
 Y penau gogwyddedig ;
 Fe sych â'i law y llif sy'n gwau,
 Hyd ruddiau'r weddw unig.

Tra yn Northolt y cyfansoddodd Goronwy ei gywydd ar enedigaeth Sior Herbert, "Aiglwydd Lliwlo, cyntaf-anedig fab ardderchawg Iarll Powys." Yn Lladin y cyfansoddwyd y gân gyntaf, ac yna rhoddodd y bardd wisg Gymraeg iddi. Wrth gyferbynu y Lladin â'r Gymraeg, dywed y Parch. Robert Jones, Rotherhithe:—

THE two poems, read in each other's light, are highly interesting, not only for their poetical merits, but for the affinity they disclose between the two Indo-European tongues in which they are written. This affinity lies more perhaps in their construction than in the similarity of the words, and shews how naturally one tongue melts into the other: and more, that though time and use may have eaten up the words of a language, its grammar will remain, like the hard cement which endures, though the stone it once bound together is crumbling into dust.—Vol. ii. p. 218).

Y mae y cyfansoddiad hwn yn un tra rhagorol, ac yn cynwys syniadau priodol iawn ar achlysur o'r fath, wedi eu gwisgo mewn iaith ddilyn a chref.

Yn 1752, cyfansoddodd y bardd y "Cywydd i'r Awen," ar ddull un o awdlau Horas, y bardd Lladinaidd, ac y mae'r triugain llinell a gynwysa'r gân wedi eu gosod wrth eu gilydd yn hynod ddeheuig. Math o efelychiad yw, ac y mae

syniadau y bardd Lladinaidd yn cael eu troi i'r Gymraeg yn hynod ffyddlawn, ac heb y caethder hwnw sydd yn fynych yn nodweddu cyfieithiad. Fel y dywed y Parch. Robert Jones, Rotherhithe : —“We have Roman thoughts, customs, and characters clothed in a purely Cymric dress.” Wrth ddiweddu'r cywydd y mae'r bardd yn cyfarch ei awen yn hynod o hapus fel y canlyn :—

O, f' Awen deg ! fwyned wyt,
 Di-odid, dawn Duw ydwyt,
 Tydi roit, â diwair wên,
 Lais eos i lyswên !
 Dedwydd o'th blegyd ydwyf,
 Godidog ac enwog wyf,
 Cair yn son am *Oronwy*,
Llonfardd Mon, llawn fyrdd a mwy ;
 Caf arwydd lle cyfeiriwyf,
 Dengys llu â bys lle bwyf.
 Diolch yt Awen dawel,
 Dedwydd wyf, deued a ddêl ;
 Heb Awen, baich yw bywyd,
 A'i rhodd yw rhyngu bodd byd.

Cyfansoddiad rhagorol arall yw “Cywydd y Maen Gwerthfawr,” yn yr hwn y ceir desgrifiad hynod o awenyddol o hynt y bardd yn ei ymchwil am “y maen gwerthfawr,” sef dedwyddwch. Y mae yn ymfyn am dano ym mhob man, cymer ei daith “Hyd rwndir daear India,” ac yna :—

Dwyrain a phob gwlad araul,
 Cyfled ag y rhed yr haul,
 Hyd gyhydlywybr yr wybren,
 Lle'r â wawl holl awyr wen.

Yna y mae yn ymweled “â gwlad yr ia gwas-tadawl,” ond methiant yw'r cwbl, a gorfodir ef i ddweyd, “Ofered im' lafuriaw !” Ei brofiad yw :—

Gwledydd ormod a rodiais,
 Trwy bryder ac ofer gais,
 Llendost i mi'r bell ymdaith,
 A phellaf gwacaf y gwaith,
 Chwilio ym man am dani,
 Chwilio hwnt heb ei chael hi.

Ac, meddai, yn ei siomiant, "Chwilio gem, a chael gwmon!" Diwedda y cywydd drwy ddangos mai yn y nefoedd yn unig y ceir gwir ddedwyddwch :—

Daw i ddyn y diddanwch
 Yn Nefoedd, hoff lysoedd fflwch,
 Fan deg! yn Nef fendigaid,
 Tlws ar bob gorddrws a gaid,
 Pob careg sydd liwdeg lwys,
 Em wridog ym Mharadwys?
 Ac yno cawn ddigonedd
 Trwy rad yr *Ion* mad a'u medd.

Yn yr olwg ar hyn dywed :—

Molaf fy Naf yn ufudd,
 Nid cant o'm lladdant, a'm lludd,
 Dyma gysur pur heb ball,
 Goruwch a ddygai arall;

ac, wrth derfynu, dywed, yn brydferth iawn :—

Boed i angor ei sorod,
 I ddi-ffydd gybydd ei gôd;
 I minau boed amynedd,
 Gras, iechyd, hawddfyd, a hedd.

Cyfansoddiad arall o eiddo y bardd yw y "Cywydd Marwnad i Marged Morys," mam y Morysiaid. Y mae Goronwy yn llawer mwy hapus gyda'i gywyddau na phan yn canu ar y pedwar mesur ar hugain, ac ymddengys hyn yn eglur iawn wrth gymharu y Cywydd hwn i Marged Morys â'r Awdl-farwnad i Lewis Morys. Wrth

gyfeirio at elusengarwch y gwrthddrych dywed :—

Toliant ar lawer teulu
 Ar led, am *Farged* a fu,
 Ymddifaid a gweiniaid gant
 Ychenawg, a achwynant
 Faint eu harcholl, a'u colled,
 Farw gwraig hael, lle bu cael ced.
 Llauer cantorth o borthiant
 Roe hon, lle b'ai lymion blant ;
 Can' hen a ddianghenodd,
 I'r un ni bu nâg o rodd ;
 Gwiw rodd er mwyn goreu-dduw,
 Gynes weinidoges Duw.

Pert iawn yw cyfeiriad y bardd at ddyfal-barhad
 Marged Morys mewn gweddi :—

Os oes rhinwedd ar weddi,
 Ffynu wna mil o'i hil hi.

Yna cyfeiria at y "Trimab o ddoniau tramawr,"
 a rhoddir crynodeb o nodweddion y brodyr mewn
 ychydig linellau tarawiadol. Dychwela wedi hyny
 at wrthrych y farwnad, a chrybwylla am ei rhagor-
 iaeth fel mam :—

Da iawn fam ! diau na fu
 Hwnt haelach perchen teulu ;
 Rhy dda i'r byd ynfyd oedd,
 Iawn i fod yn nef ydoedd.

A dywed :—

Aeth i gartref nef a'i nawdd,
 Duw Iesu a'i dewisawdd.

Prydferth iawn yw ei ddesgrifiad o'i wrthrych yn
 nghwmni "Gwynion delynorion nef," ac yn yr
 olwg ar ei dedwyddwch hi daw y weddi :—

Llaw Dduw a'n dycco lle'dd wyt,
 A'n hanedd, da iawn hono,
Amen, yn nef wen a fo.

Yn 1755, tra yn preswyllo yn Walton, etholwyd y bardd yn aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion, ac fel cydnabyddiaeth am yr anrhydedd cyfansoddodd "Y Caniad i'r Hybarch Gymdeithas o Gymmrodorion, yn Llundain; ac i'r hên odidawg iaith Gymraeg, ar y pedwar mesur ar hugain." Ymddengys mai hon yw yr awdl gyntaf a gyfansoddodd Goronwy ar y pedwar mesur ar hugain, oblegyd dywed wrth anfon yr awdl i'w gyfaill Richard Morris:—

DYMA i chwi ryw fath ar ddynewared caniad ar y 24 mesur i'ch cymdeithas a'ch iaith; a chan mai hwn yw y cynnyg cyntaf a roddais erioed ar ganu y 24, nid wyf yn disgwyl amgen na bo rai beiau a gwallau ynddo; eto os yw Grammadeg Siôn Rhydderch yn gywir, yr ydwyf yn tybied nad oes nemawr o feiau anafus yn y gerdd ychwaith. Pan ddêl Ioan Dafydd Rhys i'm dwylaw, mi ganaf yn gywreiniach. Ni yrais mo hwn i'r Allt Fadog eto, ond mi a'i gyraf pan gaffwyf amser; ac yno mi gaf wybod beth a dalo. Chwi ellwch weled na bydd mo'r lle i'r *Gwyn* nac i'r *Hir* (William Wynn ac Ieuan Brydydd Hir) i achwyn bod gormod o *lusc* a *sain* yn hwn, a bychan o'r *groes* a'r *draws*, oblegyd nis gwn fod ynddo ond y *groes rywiog*, os yw hono yn well nag eraill; eithr nid wyf fi yn medru canfod gorchest yn y byd ar un gynghanedd mwy na'r llall; yr oreu yn fy nhyb i yw'r hon a ddelo naturiolaf.

Dechreuir yr awdl gyda'r englyn adnabyddus:—

Mawl i'r Ion! aml yw ei rad,—ac amryw

I Gymru fu'n wastad;

Oes genau na chais ganiad,

A garo lwydd gwyr ei wlad?

Hynod o rymus yw ei gyfeiriad at driniaeth y Cymry gynt gan y Rhufeinwyr, ac wedi hyny gan y Saeson:—

Doe Rufeinwyr, dorf, unwaith

I doliaw'n heddd, dileu'n hiaith,

Hyd na roes Duw Ion, o'i rad,

O'r daliad wared eilwaith.

Aml fu alaeth mil floedd,
Na bu'n well, ein bai ni oedd.

Treiswyr trawsion
I'n iaith wen hon,
Dygn adwyth digwyn ydoedd
Tros oesoedd, tra y Saeson.

Taerflin oeddynt hir flynyddoedd,
Llu a n torai oll o'n tiroedd
I floedd o ofalon :
Yno, o'i rad, ein Ner Ion—a'n piau
A droe galonau drwg elynion.

Er fod yn yr awdl gryn lawer o gywreinrwydd, ac aml i linell hynod o hapus, credwn mai prin y mae y cyfansoddiad yn deilwng o'r bardd ; ac yr ydym yn gorfod teimlo ei fod allan o'i elfen pan yn ceisio canu ar y pedwar mesur ar hugain.

Mewn atebiad i Gywydd y Bardd Coch, y cyfansoddodd Goronwy y "Cywydd Hiraeth am Wlad Fôn," yn y flwyddyn 1753, pan yn trigo yn Donnington. Y mae swn cwynfan a hiraeth yn y darn hwn o'r dechreu i'r diwedd, ac nid ydym yn gwybod am linellau tlysach yn yr iaith na'r rhai hyn :—

Dieithryn adyn ydwyf,
Gwae fi o'r sud ! alldud wyf ;
Pell wyf o wlad fy nhadau,
O'ch son ! ac o Fon gu fau ;
Y lle bum yn gware gynt
Mae dynion na'm hadwaenynt ;
Cyfaill neu ddau a'm cofiant,
Prin ddau lle'r oedd gynnau gant :

Gwae ni o'r byd dybryd hwn,
Cwynent, Pa fodd y canwn,
Gerdd Ion mewn tir estronol,
A'n môd anwylwlad yn ol ?

Ni bu, dref sorth tan orthrech
 Fy nhrem, am Gaersalem, sech ;
 Os hawdd yr annghofiais hi,
 Del ammorth yn dâl imi,
 Anhwylied fy neheulaw,
 Parlys ar bob drygfys draw,
 A'm tafod ffals gwamalsyth,
 Ffered yn sych baeled byth.
 Llyna ddiwael Israeliad !
 Anwyl oedd i hwn ei wlad ;
 Daear Mon, dir i minau
 Yw, o chaf ffun, i'w choffau,
 Mawr fy nghwynfan am dani,
 Mal Seion yw Mon i mi ;
 O f'eiinioes ni chaf fwyniant
 Heb Fon, er na thôn na thant ;
 Nid oes trysor a ddorwn,
 Na byd da'n y bywyd hwn,
 Na dail llwyn, na dilynion,
 Na byw hwy oni b'ai hon.

Y mae y cywydd hwn yn llawn o wladgarwch angerddol, wedi ei wisgo yn yr iaith gryfaf a mwyaf barddonol.

Un arall o gyfansoddiadau Goronwy yw ei "Awdl Farwnad i Mr. John Owen, Plas yn Ngheidio, Lleyrn," ar y pedwar mesur ar hugain. Fod gan y bardd feddwl uchel o wrthrych y farwnad sydd amlwg oddiwrth un o'i lythyrau at Richard Morris, yn yr hwn y canmola "ei onestrwydd diwyrni, ei gymedroldeb, ei ostyng-eiddrwydd, a'i deimlad." Am ei elusengarwch hefyd dywed :—

PAN oedd yr ymborth gan brined a chàn ddruted, hyd nad oedd gorfod i lawer werthu eu gwelyau danynt i brynu lluniaeth, a phawb a feddai ŷd yn ymryson am y drutaf a'r caletaf. yr oedd y pryd hyny galon John Owen yn agored cystal a'i ysguboriau ; ac yn Plas yn Ngheidio cai y rhan fwyaf o ddynion Lleyrn eu lluniaeth, yn enwedig y trueiniaid

llymion, y rhai gan y mwyaf oeddynt bysgodwyr Nevin. Nid oedd yno ddim nâg ar fyd, bid arian, bid beidio; talent, os gallent, pan lenwai Duw eu rhwydau, ac onidê (fal y dywedai yntau, mi a'i clywais yn aml), "Doed a ddel, rhaid i bob genau gael ymborth."

Dylasai y bardd ganu yn rhagorol am ŵr mor deilwng, ond prin y mae'r farwnad yn dyfod i fynu â'n disgwyliadau, a hyny mae yn debyg, am na ddarfu iddo ddewis ei hoff fesur. Ond ceir yn y farwnad linellau rhagorol iawn, er engraipt :—

Mawr gwynaw y mae'r gweinion,
Gwae oil y sut gollu Sion ;

Gwrda na phrisiai gardawd,
Ond o les a wnai i dlawd ;
Ni bu neb wr,
Rhwyddach rhoddwr :

Diwall oedd, a da y llwyddodd,
Am elw ciried mil a'i carodd,

Dal yn ei waith, dilyn ef,
I'r wiwnef, fe'i ceir yno.

Cyfansoddwyd "Arwyrain y Nennawr" ar ol i'r bardd symud o Walton, a chyn iddo ymsefydlu yn Northolt. Yn y cyfwng yma, arosai yn y brif-ddinas, a thra yno—oddeutu Mehefin, 1755—y canodd yr Arwyrain. Dywedir iddo dreulio ei amser yn Llundain mewn tloedi mawr, a'i fod yn byw mewn nennawr, neu *garret*, fel y bu raid i Dr. Johnson, Goldsmith, ac aml i fardd a llenor Seisnig wneud tua'r un adeg. Wrth agor y gân, cyfeiria yn chwareus at y nennawr fel y "ddi-giniaw gell," ac fel "derchafiad offeiriad ffur," ac ychwanega :—

Lletty i fardd gwell ytwyd
Na'r twrdd wrth y bwrdd a'r bwyd.

Ai diystyr lle distaw
Wrth grochlef yr holl dref draw ?

Yna rhydd ddarluniad byw o drwst heolydd y
brifddinas :—

Torfoedd ynyd eu terfysg,
Un carp hwnt yn crio pysg,
Tro arall, Howtra hora !
Crio pys, ffigys neu ffa,
Gwich ben, â trwy'r ymenydd,
Da! dwrf, trwy gydol y dydd ;
Trystiau holl Lundain trosti,
A'i chreg waedd ni charai gi.

Dengys y gân fod y bardd, yn ei dlodi mwyaf, yn
hynod o ddirwgnach, a cheir ynddi engreiphtiau
rhagorol o watwaredd. Doniol iawn yw ei gyfeir-
iad at y nennawr fel "derchafiad" iddo.

Darn sydd yn llawn o ddawn chwaraeus a
gwatwareg yw y "Cywydd i Ddiawl." Y mae
yn amlwg fod ganddo rywun neillduol mewn golwg
wrth gyfansoddi, fel y gwelir wrth ddarllen y
llinellau hyn :—

Gwr y sy (gwae yr oes hon !)
Blaenawr yr holl rai blinion

ac felly ym mlaen. Dywed un ysgrifenydd mai ar
ol annghydwelediad a gymerodd le rhyngddo â
Lewis Morys y cyfansoddodd y bardd y cywydd
hwn, ac mai ato ef y cyfeirir yn y rhan olaf,
ond yn ein byw nis gallwn gredu hyn. Yn y
pedair llinell gyntaf cawn ddesgrifiad o'r diafol ag
y mae yn anhawdd rhagori arno ; dygir y gwrth-
ddrych yn fyw ger ein bron yn ei holl atgas-
rwydd :—

Y *Diafol*, arglwydd dufwg,
Ti, du ei drem, tad y drwg,
Hen Suddas, atgas utgi,
Gelyn enaid dyn wyt ti ;

Y mae dawn parod y bardd, a natur y testyn, yn ei
arwain ar adegau i droseddu deddfau chwaeth, ac

y mae ambell i linell y huasai yn well genym hebddi. Ond am y cywydd fel cyfanwaith, rhaid cydnabod ei fod yn gyfansoddiad rhagorol, a cheir ynddo rai llinellau ydynt megis diarhebion yn yr iaith.

Cyfansoddodd y bardd ddau o "Gywyddau i'r Calan" (sef dydd ei enedigaeth ef a'i fab hynaf), sef yn 1753, ac yn 1755. Saif y ddau yn uchel iawn mewn teilyngdod, a cheir ynddynt syniadau hynod o farddonol wedi eu gwisgo mewn iaith rymus, a'u cynganeddu yn dra deheug. Yn y cywydd a gyfansoddwyd yn 1753, cawn gyfeiriad hapus at y greadigaeth :—


Cyn bod gwres i'r haul testawr,
A gorphen ffurfafen fawr,
Difai y creawdd Dofydd
Olau teg a elwid dydd ;
A Duw, gan hyfrytted oedd,
Dywedai mai da ydoedd.

Gwych iawn yw ei gyfeiriad at oleuni y sêr a'r lloer, a goleuni rhagorach yr haul :—


Er nifer ser y nefoedd,
(Nifer fawr o wychder oedd),
Ac er lloer wen ysplenydd,
Nid oes dim harddach na dydd,
Gwawl unwedd a goleunef,
Golau o ganwyllau nef.

Yna crybwyllia am sefydliad y Sabboth, a Gwyliau y Pasg, y Sulgwyn, a'r Nadolig mewn llinellau hynod o darawiadol, ond, meddai :—

Calan, ty ngwyl anwyl i,
Calan, a gwyl Duw Celi,
Da, coeliaf, ydyw *Calan*,
A gwyl a ddirperai gân ;
Ac i'r *Calan* y canaf,
Calan well na huan haf!



“ Aí diystyr lle dístaw
Wrth grochlef yr holl dref draw? ”



Wedi hyny cyfeiria at y dyddiau Calan pan yr oedd ef yn fachgen nwyfus a llon, yn mwynhau ei hun yn ei hoff Ynys :—

Diddan a fum *Galan* gynt,
A heinif dalm o honynt,
Llawn afiaeth a llon iefanc,
Ddryw bach, ni chaid llonach llanc.

Ar ol y dyddiau dedwydd hyny, daeth gofalon y byd i bwysu yn drwm arno, ond :—

Er gweled, amryw *Galan*,
Gofal yn lle cynal cân,
Parchaf, anrhydeddaf di,
Tymor nid drwg wyt imi.

Cyfeiria yn dlws at y calenig gafodd pan anwyd ei fab Robert :—

Cofiaf, *Galan*, am danad,
Un dydd y'm gwnaethost yn dad,
Gyraist im' anrheg wiwrodd,
Calenig wyrenig rodd.
Gwiwrodd, pa raid hawddgarach
Na *Rhobert*, y rhodd bert bach?

Cyfansoddwyd yr ail "Gywydd i'r Calan" ychydig cyn i'r bardd symud o Walton, a phan yr oedd yn gwella oddiwrth ymosodiad trwm o'r cryd. Yn chwareus iawn cyfeiria at y telerau cyfeillgar a fodolai rhyngddynt bob amser, a'i barodrwydd i eilio i ddydd Calan

Ryw gelfydd gywydd neu gân,

a gofyna :—

Weithion paham yr aethost,
Er Duw, wrthyf i mor dost?

Yna rhydd ddesgrifiad nad oes modd cael ei ragorach o arteithion ei glefyd :—

Rhodaist im' ddyrnod rhyddwys
O boen, a gwae fi o'i bwys,

Mennaist o fewn fy mynwes
 A chlefyd o gryd a gwres,
 A durwayw'r poethgryd eirias,
 Ynglŷn â phigyn a phâs.

Tra y mae'r bardd yn canu fel hyn, y mae'r Calan yn ffoi :—

Rhedaist, fal llu rhuadwy
 I'r môr, ac ni'th weler mwy,

Try y bardd i fyfyrion ar fyrder oes, a therfynir y gân yn nghanol swm gweddi :—

Gwnelwyf â Nef dangnefedd
 Yn f'oes, fel nad ofnwyf fedd ;
 A phoed hedd cyn fy medd mau,
 Faith dwthwn rh'of a thithau ;

Duw gwyn a'm diwygio i,
 A chymod heddwch imi
 A ddel, cyn dy ddychwelyd,
 A llai fyddo bai y byd ;
 Yn daw gwylliau llawen
 I mi, ac i bawb. *Amen.*

Yn y "Cywydd i Lewis Morys." y mae'r bardd "yn dangos nad oes dim a geidw goffadwriaeth am ddyd, wedi angau, yn well na gwaith bardd, ac na ddichon na cherfiwr na phaentiwr roi cystal portread o wr ag a rydd prydydd awenyddol. Efelychiad yw y darn hwn o gân Horas i'w gyfaill Censorinus. Tarawiadol iawn yw y dull ddefnyddir i ddangos rhagoriaeth gwaith y bardd ar eiddo y cerfiwr a'r "paentiwr" :—

Onid ofer iawn dyfais
 I fynu clod o faen clais ?
 Naddu llun eilun i wr
 Dewrwydych, portreid arwr,
 Llunio'i'guch, a llain gochwaed,
 A chwyr tan ei dreisfawr draed ?

Pond gwell llên ac awenydd?
Gwell llun na'r eilun a rydd.

Pwy âg arfau? pa gerfiad
A rydd wg golwg ei gad?
Trefi yn troi i ufel
O'i froch, a llwyr och lle'r êl!
Pwy a gai, oni bai bardd,
Glywed unwaith glod iawnhardd?
Tlws ein hiaith *Taliesin* hen
Parodd goffau AP URIEN;
Aethai, heb dant a chantawr,
Ar goll hanes Arthur Gawr.
Cân i fad, a rydd adwedd
O loes, o fyroes, o fedd;
Cerdd ddifai i rai a roes
Ynill tragwydd einioes.

Yn 1754, priododd Elin, merch Lewys Morys, a chyfansoddodd Goronwy "Awdl o Briodasgerdd" iddi. Ychydig o feddwl oedd gan yr awdwr o'r cyfansoddiad, oblegyd mewn llythyr at William Morys dywed:—"Mae arnaf agos gywilydd gweled yr Awdl wirionffol yma; ac mi amcenaïs beidio a'i gyru wedi ei hysgrifenu. Da chwithau, na ymheliwch ddangos mo honi i neb." Tra gwahanol yw barn y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, a chredwn mai y beirniad ac nid yr awdwr sydd agosaf i'w le:—

DISPARAGINGLY as Goronwy speaks of this song, it is of a highly poetical character. Sweet, tender, and yet dignified, it unites some of the bard's highest qualities, both as poet and master of the Welsh language. The *cyghanedd*, which is elaborately minute and musical, scarcely interferes with the expression of its thoughts; and these are always glad-some and appropriate to the day. What can be more charming than his citation of the bride at early morn? He addresses her as though she were another Aurora. Lower down, indeed, he so names her: "Arise from thy east,

bright fair one ; give no place on thy brows to sleep ; smile, shine, fair maiden of sylph-like form ; he that loves thee now seeks thy hand. United to him, sweetly-speaking one, ye shall be blessed." We must add that our remarks, laudatory as they may seem, are in no way exaggerated. He who is acquainted with Greek choric poetry, will perceive a close affinity between this bridal song and some of the effusions of Æschylus and Sophocles. While we repeat that Goronwy never steps over the limits allowable in the use of labours of the past, there is, on almost all occasions, the true ring of ancient song in what he writes. Such is especially the case here. To none will the numbers before us be so acceptable as to those whose ears are accustomed to the classic poetry of Greece and Rome. As we listen to their echoes, Cymric though they be, we cannot but fancy that some fountain of Castaly has burst forth anew, and is descending in jets of spray that fall on the ear and heart in tricklings of sweetest music.

Ar yr un pryd nis gallwn lai na themlo fod y bardd wedi dewis mesur rhy gaeth, ac oherwydd y caethiwed yma, ei fod yn gorfod defnyddio geiriau hollol annëalladwy i'r cyffredin bobl. Wele'r penill cyntaf :—

Ust ! tewch oll ! arwest a chân,
 Gawr hai, ac orohian !
 Melus molawd,
 A bys a bawd,
 Llon lwyssawd llawen leisiau,
 Aml iawn eu gwawd, mil yn gwau,
 Wawr hoywaf, orohian,
 A cherdd a chân.

Yn mhellach yn mlaen ceir y geiriau canlynol :—
 untarth, arien, dwywes, feinais, orohian, arho, waisg, ddawsig, urael, gwyros, lios, ellael, ymhwrd, dispiniant, peinioel, eurwyp, sin, ac eraill o'r fath. Wrth ddarllen y gerdd yr ydym yn teimlo mai fel math o anerchiad at Llewelyn Ddu, tad y briodasferch, y cyfansoddwyd hi. Credwn mai un

o fil o ddarllenwyr Cymreig y dyddiau hyn all ddweyd ystyr y geiriau a nodwyd genym. Y mae llawer o feio wedi bod ar Goronwy o dro i dro am mai "canu yr oedd i feirdd, ac nid i'r werin," ac y mae yn rhaid cydnabod nad yw llawer o'i waith yn agos mor ddealladwy i'r darllenydd cyffredin â gwaith Lewis Morys ac eraill o'i gydoeswyr. Ar y cyfan, credwn mai y Briodasgerdd hon yw yr anhawddaf ei deall o holl ganeuon y bardd. Ar yr un pryd, ceir ynddi aml i linell hapus ac eglur iawn, er engraifft:—

Brysia, dos; ber yw oes dyn.

Byd hawdd, a bywyd diddan,
A cherdd, a chân.

Dechreuir "Cywydd Bonedd a Chynneddfau'r Awen" gyda chrybwylliad am naw awen Homer, a'r "gwiw res o dduwiesau," am y rhai y dywed mai "breuddwydion y beirdd ydynt." Yn wrthgyferbyniol i hyn, medd y bardd, "Un Awen a adwen i," a chan gyfeirio at ei dechreuad, dywed:—

Nefol glêr a'i harferynt,
Yn nef y cae gartref gynt.

Yna daw yr erfyniad:—

Dod, Ion, im' ran o honi,
Canaf ei chlod hoywglod hi.

Arweinir ni ar ol hyn at yr adeg pan y "cydganodd sêr y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw:—

Ser bore a ddwyrëynt
Yn llu i gyd ganu gynt;
Canu'n llon hoywlon eu hawdl,
Gawr floeddio gorfoleddawdl!
Ac ar ben gorphen y gwaith,
Yn wiwlan canu eilwaith;
Caed miloedd o nerthoedd nef
Acw'n eilio cân wiwlef,
Meibion nef yn cydlefain
A'u gilydd mewn cywydd cain:—

“ Perffaith yw dy waith, Duw Ion,
 Dethol dy ffyrdd a doethion,
 A mât ac anchwiliadwy,
 Dduw mawr ! ac ni fu ddim mwy ! ”

Yn y llinellau uchod mae y tlws a'r aruchel yn cael eu cyfuno mewn dull hynod o hapus, ac y mae saerniaeth y llinellau yn gampus. Clywir y gân gan y sêr crwydredig, a “ llemmain a wnae rhai'n i'w rhod ” i uno yn y mawl. Anturiwn ddweyd fod y syniad fod clywed “ meibion nef yn cydlefain ” yn peri i'r sêr crwydredig neidio yn ol i'w cylchdroadau mor lawn o farddoniaeth a dim yn yr iaith. Y mae yr adsain yn cyrhaedd gardd Eden :—

Adda Dad, ym Mharadwys,
 Clywodd eu gwawr leiswawr lwys ;
 Hoffai lef eu cerdd nefawl,
 Ac adlais mwynlais eu mawl.

Anhawdd yw dychmygu am linellau mwy swynol na'r rhai hyn. Mor fawr yw dylanwad y gân ar ein rhieni cyntaf fel y maent hwythau, nid yn unig yn uno ynddi, ond yn cydganu mawl i Dduw o doriad gwawr hyd yr hwyr :—

Canai Efa, decca' dyn,
 Canai Adda, cain wiuddyn ;
 Canent i'w Ner o ber berth,
 O'r untu, hyd awr anterth,
 Ac o chwech ymhob echwydd,
 Pyncio hyd nad edwo dydd.

“ Can Abel,” medd y bardd,

Oedd drybelid,
 Diddrwg, heb hyll wg a llid.

Ond am Cain, dywed mai

Anfad ei gân, bychan budd

Ac, meddai, yn hynod dlws :—

Ni chydfydd awenydd wâr
A dynion dybryd anwar :
Ion ni rydd hyn o roddiad,
Wiwles, ond i fynwes fad.

Yna sonir am awen Moses :—

Awen odiaeth iawn ydoedd.

Dafydd :—

Pyncio wnae fe fal pencerdd
Nefol, a rhagorol gerdd.

Solomon :—

Fe gant gân (gwiwlan y gwau,
Cân odiaeth) y *Caniadau* ;
Pwy na châr ei Ros Saron,
Lili, a draenllwyni llon ?
Y mae'n ail y mwyn eiliad
I gywydd Dafydd ei dad.

Terfyna yn dra phriodol gyda chyfeiriad at gân y gwardedigion :—

Dyledswydd a swydd hoyw sant,
Yw gwiw gân a gogoniant ;
Dysgwn y fad ganiad gu,
Ar fyr awn i'w harferu ;
Cawn awenlles cân unllaf
Engyl a ni yngolau nef,
Lle na thaw ein per awen,
'Sant, Sant, Sant ! moliant.' Amen.

Am rai o'r llinellau yn y cywydd gorchestol hwn dywed Lewis Morys :—“ Parha y llinellau hyn yn dragywydd, er gwaethaf rhwd amser a malais gelynyon ; nis gall tân na dwfr mo'u dinystrio ; ac ni ddarfyddant nes elo'r byd yn chwilfriw, ac hyd nes na byddo dyn mewn bod.” Saif y cywydd, yn ddiarnheu, yn rheng flaenaf cyfansoddiadau y bardd, ond yr ydym yn gorfod teimlo ei fod yn

llawer rhy fyr iddo allu gwneud cyfiawnder â thestyn mor eang.

Englynion llawn o nwyf chwareus a gwatwareg yw y rhai i "Elis Roberts, y Cowper." Ymddengys nad oedd y bardd ar delerau da iawn â'r Cowper, oblegyd mewn llythyr at William Morris dywed:—"Aiê, mae Elisa Gowper wedi derio dannedd y Monwyson llesgethau? Och o druan! Drwg yw'r byd fod yr Awen cyn brined ym Môn nad ellir gwneuthur i'r carp safnrwth tafod-ddrwg wastrodu. Ond gwir sydd dda, ni thal i ddifetha prydyddiaeth wrtho, oddigerth y ceid rhyw liprin cynysgaeddol o'r un dawn âg Elis ei hun, sef yw hynny, nid dawn awenydd, ond dawn ymdafodi, ac ymserthu'n fustlaidd ddrewedig anaele." Mewn llythyr diweddarach dywed:—"Ni thal Elisa Gowper i ganu iddo, ac onid ê, pa ddelw bynnag, moeswch yma'r Englynion. Iê, sach gwlan ydyw Ellis yn ddiammeu; nid oes dim a eill gyrraedd ei groen ef oddigerth haiarn poeth." Ymddengys i Goronwy gael yr englynion, a nyddodd yntau saith englyn fel "attek, annerch a chyngor," ond anfonodd hwynt yn enw Huw Huws, y Bardd Coch, a rhydd fel rheswm am hyn:—"I would not be known or seen as an *ally*, much less a *principal*, yn y fath ffrwgwd." Yn y penawd dywed, yn chwareus iawn, ei fod yn rhoddi taslen "o enwau'r holl drecc, cêr, offer, a pheirianau angenrheidiol i'r gelfyddyd o ganu'n dincerddawl." Ergyd drom iawn sydd ganddo yn niwedd y penawd, pan y dywed fod y cwbl "wedi ei ddychymygu i gyfansoddi mewn modd eglur, hawdd ei amgyffred gan y gwanaf ei ddysg a'i ddeall." Y mae amryw o linellau o nodwedd gyffelyb yn yr englynion, megys:—

E weddai (er na wyddoch);

Druan! nad yw'ch cân ond coch.

Hyd rhaff rawn o lawn lilyn,—y seiri,
 I fesuro'ch englyn ;
 A rhasgl a dyrr bob rhisglyn,
 Llif frâs, a chwmpas, a chŷn.

Os hir y gwelir y gân,—y llafur
 Fydd llifio darn allan ;
 Wrth y cwmpas gloywlas glân
 Cofiwch, rhaid rhasglio'r cyfan.

Dylech mewn prifodl ei dilyn,—rhagoch,
 Megis rhigol corddyn ;
 Heb ŵyro lled gwybedyn,
 A'r twybil, wiw gynnll gân,

Gorchestwaith Goronwy, yn ddiddadl, yw "Cywydd y Farn Fawr," yr hwn a ddesgrifir gan Dr. Lewis Edwards "fel un o'r cyfansoddiadau goreu, os nad y goreu, yn yr iaith Gymraeg." Dewisodd y bardd ei hoff fesur yn y cywydd hwn—sef y deuair hirion, y mesur mwyaf priodol hefyd ar gyfer cân ddesgrifiadol o'r fath. Nid yw yn cynwys ond cant a thriugain o linellau, ac y mae hyn yn ein harwain at y gŵyn a ddygir yn erbyn ein bardd, sef y dylasai gymeryd mwy o boen, a rhoddi ei holl fryd i gyfansoddi arwrgerdd, neu ganiad maith ar ryw destyn dyrchafedig. Yn ol Hiraethog, pe cymerasai arno y gorchwyl, "nid oes le i ammheu na buasai yn waith teilwng i'w gystadlu â goreuon barddoniaeth unrhyw genedl," a sylwa yr un beirniad yn mhellach :—

RHODDODD Goronwy, dan anfanteision dirfawr, dôn newydd i awenyddiaeth Cymru. Yr oedd ei gyfodiad ef yn ddechreuad cyfnod newydd arni. Y mae ei gywyddau yn berlau gwerthfawr o farddoniaeth bur, goethedig, o'r iawn ryw ; ond ber yw anadl ei awen, gan mor dyned rhwymau y gynghanedd am ei gwddf, a chan mor drymed y gwasgai gofalon y bywyd hwn ar ei ysgwyddau.—(*Gweithiau Barddonol Gwylym Hiraethog*, t.d. 297).

Buasem yn hoffi dyfynu yn helaeth o Gywydd y Farn i ddangos arucheledd a gallu desgrifiadol y bardd, ond rhaid boddioni ar ychydig enghreifftiau, er fod yn anhawdd dethol pan y mae pob llinell yn berl. Dechreuwa y bardd gyda gweddi—nid, yn y dull ystrydebol, am gynnorthwy yr Awen, ond am nawdd yr Hollalluog ar y gwaith :—

Dod ym' dy nawdd, a hawdd hynt,
Ddw hael, a deau helynt.

Tarawiadol iawn yw ei ddesgrifiad o ddyfodiad y Farn :—

Mal cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal lladron dison y daw.

Yn y llinell gyntaf cawn ddarluniad o sydynrwydd y Farn ; yn yr ail desgrifir “dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos.” Anhawdd fyddai cael gwell engrafft o drawsddodiad, neu wrthgyferbyniad.

Yr angylion yn dwyn lluman y Barnwr :—

Llen o'r ffurfafen a fydd,
Mal cynfas, mil a'i cenfydd ;
Ac ar y llen wybrenog
E rydd Grist arwydd ei grog.

Yna desgrifir y Barnwr yn cyfeirio i'r frawdlys yn nghanol moliant yr angylion :—

Yno'r Glyw, Ner y gloywnef,
A ferchyg yn eurfyg nef !
Dyrcha'n uchel ei helynt,
A gwân adenydd y gwynt !
A'i angylion gwynion, gant,
Miloedd yn eilio moliant.

Y mae adsain y “gawr” (bloedd) a'r “dolef,” “Mal clych yn entrych y nef,” yn cyrhaedd y ddaear, ac y mae holl natur yn myned yn fud.—

Gosteg a roir, ac Ust ! draw,
Dwrf rhaiadr, darfu rhuaw.

Nid yw cynghanedd y llinell gyntaf o'r ddwy uchod yn berffaith gywir, ond hawdd yw maddeu hyn pan feddylion am arucheled y syniad. Rhagorol iawn yw ei ddesgrifiad o'r angel, gyda'i "gorn, mingorn mawr," sydd i ddeffro holl feirwon y byd :—

Corn anfeidrol ei ddolef,
Corn ffraeth o saerniaeth nef.

Yn y llinellau dilynol cawn ddesgrifiad byw o effaith caniad yr udgorn—y mynyddoedd yn crynu ac yn cwmpo, a'r ddaear yn hollti. Yna darlunir yr haul yn llewygu gan ofn :—

Y nef yn goddef a gaid,
A llugyrn hon a'i llygaid,
Goddefid, naws llid, nos llwyr,
Gan lewyg gwŷn haul awyr ;
Nid mwy dilathr ac athrist
Y poen-loes cryf pan las Crist.

Barddonol iawn yw y syniad fod yr haul yn llewygu, fel y gwnaeth pan y Croeshoeliwyd Crist. Yna cyfeirir at y lled a'r sêr :—

Y wenloer yn oer ei nych,
Hardd leuad, ni rydd lewych ;
Syrth nifer y sêr (arw son !)
Drwy'r wâgwybr draw i'r eigion.

Y cynhwrf cyn y Farn :—

Hyll ffyrnbyrth holl uffernbwl
Syrthiant drwy'r pant draw i'r pwl ;
Bydd hadl y wal ddiadlam
Y rhawg, a chwyddawg, a cham.
Cryn y gethern uffernawl,
A chryn, a dychryn y diawl,
Cydfydd y fall â'i gallawr,
Car lechu'n y fagddu fawr.

Onid oes ryw rymusder anorchfygol yn y llinellau ?
Gyda golwg ar y ddwy linell olaf ysgrifena Dr.

Lewis Edwards :—“ Buasai meddwl heb ddim awen yn alluog i weled y diafol yn ceisio dianc o'r golwg, a llechu yn nyfnderoedd uffern ; ond y mae y bardd yn ei weled yn *cyafod* â'i garchar, ac yn *caru* aros yno :—

Cydfydd y fall â'i gallawr,
Câr lechu'n y fagddu fawr.

Dwy linell Filtonaidd yw y rhai hyn ; pe buasai Goronwy yn ysgrifenu fel hyn o hyd, buasai yn un o'r prif-feirdd, nid yn Nghymru yn unig, ond yn yr holl fyd.”—*Traethodau Llenyddol*, t.d. 160.

Yna ceir yr alwad i'r Farn :—

Dowch y pydron ddyinionach,
Ynghyd, feirw byd, fawr a bach ;
Dowch i'r farn a roi'r arnoch.

Yr adgyfodiad :—

Cyfyd fal yd o fol âr
Gnwd tew eginhad daear ;
A'r mor a yrr o'r meirwon
Fil myrdd uwch dyfnffyrdd y dôn :
Try allan ddyinion tri-llu,
Y sydd, y fydd, ac a fu,
Heb goll yn ddidwn hollol ;
Heb un o naddun yn ol.

Dedfryd yr annuwiol :—

Ysgwyd y nef tra ll-fair
Iesu fad, a saif Ei air—
“ Hwt ! gwydlawn felltugeidlu
I uffern ddofn a'i ffwrn ddu,
Lle ddiawl, a llu o'i ddeiliaid,
Lle diboen, a phoen na phaid ;
Ni chewch ddyben o'ch penyd,
Diffaith a fu'ch gwaith i gyd ;
Ewch (ni chynnwys y lwysnef
Ddim drwg) o lân olwg nef,
At wyllon y tywyllwg,
I oddef fyth ei ddu fwg.”

Y rhai cyfiawn :—

“ Dowch i hedd, a da'ch haddef,
Ddilysiant anwylblant Nef,
Lle mae nefol orfoledd,
Na ddirnad ond mad a'i medd :
Man hyfryd yw mewn hoywfraint,
Ac amllder y ser o saint,
Llu dien yn llawenu,
Hefelydd, ni fydd, ni fu.”

Y mae rhai wedi amheu priodoldeb y ddwy linell olaf o'r cywydd :—

Crist fyg a fo'r meddyg mau,
Amen, a Nef i minau.

Ond mewn llythyr at Richard Morris, dyddiedig Awst 15, 1752, dywed y bardd :—“ Clâf, a thra clâf o'r cryd oeddwn, y pryd y dechreuais y Cywydd, ac hefyd yr wyf yn cofio mai meddwl am farw a wnaeth i mi ddewis y fath destyn.” Nis gallwn lai na theimlo fod y cyfeiriad at Grist fel Meddyg, a'r weddi daer am y nef, yn hynod o briodol wrth ddiweddu cyfansoddiad ar y fath destyn. Wrth sylwi ar y cywydd hwn, dywed un ysgrifenydd :—

Ymddengys y cynllun i ni yn rhy gyfyng, a'r cyfansoddiad yn llawer rhy fyr i gael ei restru fel un o'r darnau barddonol hyny ag sydd i gael edrych arnynt fel yn meddu nodwedd o ragoriaeth cenedlaethol yn perthyn iddynt. Dyna yn ddiammheu fel yr ystyrir Cywydd y Farn yn yr oes a aeth heibio, megis un o brif gyfansoddiadau y genedl. Ond nid ydym yn meddwl bychanu ei deilyngdod, megys cyfansoddiad rhagorol, cân belled ac y mae yn myned ; ac y mae mewn llawer o bethau yn wir deilwng o Goronwy Owen.—(*Y Traethodydd*, 1862, t.d. 138).

Ond yn yr un ysgrif dywedir :—

WRTH sylwi yn fanwl ar y Cywydd hwn o'r dechreu i'r diwedd, y modd y cydgrynhoir cymaint o faterion mewn

cylch mor fychan, ac mewn dull mor gryno a rheolaidd, y darluniadau grymus a geir yma ac acw ynddo, a'r cyfan yn y mesur Cymreig mwyaf caethiwus, sef Cywydd, yr ydym yn ei gyfrif yn gampwaith nad oes yn yr iaith Gymraeg ddim yn rhagori llawer arno mewn cylch llai na dau cant o linellau.

Mewn hen ysgriflyfr dywedir mai yn Donnington y cyfansoddwyd Cywydd y Farn, a chadarnheir hyn gan lythyrau Goronwy at Llewelyn Ddu. Dywedir ym mhellach mai eiddo y bardd ei hun yw'r cyfieithiad canlynol o'r Cywydd i'r Saesneg. Nid ydym ar dir i sicrhau fod hyn yn gywir, ond rhoddwn ef yma air am air fel y ceir ef yn yr ysgriflyfr:—

ALMIGHTY GOD, thy heavenly aid bestow,
 O'er my rapt soul bid inspiration flow;
 Let voice seraphic, mighty Lord, be mine,
 Whilst I unfold this awful bold design,
 No less a theme my lab'ring breast inspires,
 Than earth's last throes and overwhelming fires,
 Than man arising from his dark abode
 To meet the final sentence of his God!
 The voice of ages, yea of every clime,
 The hoary records of primeval time;
 The saints of Christ in glowing words display,
 The dread appearance of that fateful day!
 Oh! may the world for that great day prepare,
 With ceaseless diligence and solemn care,
 No human wisdom knows, no human power
 Can tell the coming of that fatal hour,
 No warning sign shall point out nature's doom;
 Resistless, noiseless, it shall surely come,
 Like a fierce giant rushing to the fight,
 Or silent robber in the shades of night,
 What heart unblenched can dare to meet this day,
 A day of darkness and of dire dismay?
 What sinner's eye can fearless then—behold
 The day of horrors and his sight unfold,

But to the good a day of glorious light,
 A day for chasing all the glooms of night,
 For then shall burst on man's astonished eyes
 The Christian banner waving in the skies,
 Borne by angelic bands supremely fair,
 By countless seraphs through the pathless air.
 The heavenly sky shall Christ's proud banner form,
 A sky unruffled by a cloud or storm ;
 The bloody cross aloft in awful pride
 Shall float triumphant o'er the airy tide.
 Then shall the King with splendour cloth'd on high
 Ride through the glories of the golden sky,
 With power resistless guide his awful course,
 And curb the whirlwinds in their wildest force.
 The white robed angels shall resound the praise,
 Ten thousand saints their choral songs shall raise ;
 Now through the void a louder shout shall roar
 Than surges dashing on a rocky shore.
 An awful silence reigns !—the angels sound
 The final sentence to the worlds around ;
 Loud through the heavens the echoing blast shall roll,
 And nature, startled, shake from Pole to Pole.
 All flesh shall tremble at the fearful sign,
 And dread to approach the judgment seat divine ;
 The loftiest hills, which 'mid the tempest reign,
 Shall sink and totter, levelled with the plain,
 The hideous din of rushing torrents far
 Augment the horrors of this final war ;
 The glorious sun, the gorgeous eye of day,
 Shall faint and sicken in this vast decay.
 From our struck view his golden beams shall hide,
 As when the Saviour on Calvaria died ;
 The lovely moon no more in beauty gleams,
 Or tinge the ocean with her silv'ry beams ;
 Ten thousand stars shall from their orbits roll,
 In dread confusion through the empty pole.
 At the loud blasts hell's barriers fall around,
 Even Satan trembles at the awful sound !

Far down he sinks, deep in the realms of night,
 And strives to shun the glorious Son of Light.
 "Rise from your tomb," the mighty angel cries,
 "Ye sleeping mortals, and approach the skies,
 For Christ is thron'd upon his Judgment seat,
 And for his mercy may ye all be meet!"
 The roaring ocean from its inmost caves,
 Shall send forth thousands o'er the foaming waves;
 From earth the countless myriads shall arise,
 Like corn-land springing 'neath benignant skies;
 For all must then appear—we all shall meet
 In dread array before Christ's judgment seat!
 All flesh shall stand full in its Maker's view—
 The past, the present, and the future too;
 Not one shall fail, for rise with one accord
 Shall saint and sinner, vassal and his lord.
 Then Mary's son, in heavenly pomp's array,
 Shall all His Glory to the world display;
 The faithful twelve with saintly vesture graced,
 Friends of his cross around his throne are placed;
 The impartial judge the book of fate shall scan,
 The unerring records of the deeds of man.

The book is opened! mark the anxious fear
 That calls the sigh and starts the bitter tear;
 The good shall hear a blessed sentence read,
 All mourning passes—all their griefs are fled.
 No more their souls with racking pains are riven,
 Their Lord admits them to the peace of heaven;
 The sinner there, with guilty crime oppressed,
 Bears on his brow the fears of hell confess'd.
 Behold him now—his guilty looks—see
 His God condemns, and mercy's God is he;
 No joy for him, for him no heaven appears
 To bid him welcome from a vale of tears.
 Hark! Jesu's voice with awful terrors swell,
 It shakes even heaven, it shakes the nether hell;
 "Away ye cursed, from my sight retire
 Down to the depths of hell's eternal fire,

Down to the realms of endless pain and night,
 Ye fiends accursed, from my angry sight
 Depart ! for heaven with saintly inmates pure
 No crime can harbour or can sin endure,
 Away ! away, where fiends infernal dwell,
 Down to your home and taste the pains of hell."

Behold his servants—Lo, the virtuous bands
 Await the sentence which the life demands ;
 All blameless they their course in virtue run
 Have for their brows a crown of glory won.
 Their Saviour's voice, a sound of heavenly love,
 Admits them smiling to the realms above ;
 " Approach, ye faithful, to the heaven of peace,
 Where worldly sorrows shall for ever cease.
 Come, blessed children, share my bright abode,
 Rest in the bosom of your King and God,
 Where thousand saints in grateful concert sing
 Loud hymns of glory to th' Eternal King.
 For you, beloved, I hung upon the tree,
 That where I am there also ye might be ;"
 The infernal god (ye trembling sinners quake)
 Shall hurl you headlong on the burning lake,
 There shall ye die, nor dying shall expire,
 Rolled on the waves of everlasting fire,
 Whilst Christ shall bid his own lov'd flock rejoice,
 And lead them upward with approving voice,
 Where countless hosts their heavenly Lord obey,
 And sing Hosannas in the Courts of Day.
 O Gracious God ! each trembling suppliant spare,—
 Grant each the glory of that song to share ;
 May Christ, my God, a kind physician be,
 And may He grant me bless'd Eternity !

Ysgrifenydd llawer o dro i dro am deilyngdod
 cydmariaethol Goronwy Owen a William Wynn ar
 "Y Farn." Dywed rhai fod Goronwy Owen yn
 tra rhagori, tra y mŷn eraill mai William Wynn
 sydd ar y blaen. Y mae gan yr olaf rai llinellau

dynt lawn mor feiddgar a dim a geir gan Goronwy,
er engraipht ;—

Udgorn nef yn dolefaïn,
Y sêr a glywant ei sain ;
Traidd ei nerth trwodd i nen,
Traidd eirias trwy ddaearen ;
A marwor trwy'r gloywfor glas,
Môr a thân ym mherthynas.

Cwyp y sêr ar ddisperod
O wawl a nerth i wael nod ;
Rhed fil-fil rhawd ufelfellt,
Rhua drwy'r main reieidr mell.

Am y llinellau hyn, dywed Elfed fod eu heffaith
“ yn llawer mwy gwefreiddiol na llinellau urddasol
Goronwy ; ond tra y mae William Wynn yn treulio
ei nerth ar *episodes*, symuda Goronwy o'r dechreu
i'r diwedd mewn difrifoldeb arwrol.” Saif cywydd
William Wynn yn uchel iawn mewn teilyngdod,
ond yn ein tyb ni y mae eiddo Goronwy yn tra
rhagori. Bob tro y darllenwn waith yr olaf yr
ydym yn gweled rhywbeth newydd ynddo, a
chredwn nas gellir cael gwell prawf na hyn o allu
y bardd i roddi llawer o feddwl mewn ychydig o
eiriau,—y mae yn barhaus yn *awgrymu* llawer mwy
nag y mae yn ei *darweyd*. Cawn hefyd fod *natur-*
ioldeb yn elfen amlwg yn nghywydd Goronwy, tra
y mae rhai darnau o waith Wynn yn bell iawn o
feddu y nodwedd hwnw. Am yr haul yn Nydd y
Farn, dywed William Wynn—

Haul a hylt, garw wyllt ei gur,
Yn friwsion o'i fro asur.

Y mae y syniad fod yr haul yn hollti yn friwsion yn
llawn arucheledd, ond llawer mwy naturiol, a
barddonol hefyd, yw desgrifiad Goronwy Owen o'r
haul yn llewygu gan ofn :—

Y nef yn goddef a gaid.
 A llugyrn hon a'i llygaid,
 Goddefid naws llid, nos llwyr,
 Gan lewyg gwyn haul awyr.

Yn ol Wynn, yr un yw tynged y lloer a'r haul, ond
 yn ol Goronwy :—

Y wenlloer yn oer ei nych,
 Hardd leuad, ni rydd lewych.

Nis gallwn ddiweddu ein sylwadau ar Gywydd
 y Farn yn well na thrwy ddyfynu sylwadau Dr.
 Lewis Edwards :—

GALLASAI roddi mwy o ryddid i'w grebwyll i ddarlunio
 amgylchiadau y Farn; a gallasai wneuthur hyny heb
 ddwyn i mewn ddim a fuasai yn annheilwng o fawredd y
 testun, ac heb ddyfeisio mwy nag a ddyfeisiodd Milton yn
 ei Goll Gwynfa. . . . Yn Nghywydd y Farn ceir des-
 grifiad ardderchog o'r cyffredinol, ond y mae yno ddiffyg o
 deimladau personol, ac y mae hyn yn ddiffyg pwysig,
 oblegid yr ydym yr cydymdeimlo â dynion yn bersonol, ac
 nid yn gyffredinol. . . . Ond, uwchlaw y cwbl, gallasid
 rhoddi mwy o le i deimladau y Cyfryngwr wrth weled
 perffeithiad gwaith y prynedigaeth, oblegid bydd teimladau
 dynol yn ei enaid ef yn oes oesoedd; a rhoddir golwg mewn
 rhan ar y teimladau hyny gan Goronwy mewn dwy linell
 hynod o dlysyd :—

O'm traserch darfum trosoch
 Ddwyn clwyf, fal lle bwyf y b'och.

. . . Mor bell ag y mae yn myned, y mae yn sicr fod
 Cywydd y Farn, o waith Goronwy Owen, yn un o'r cyfan-
 soddiadau goreu, os nad y goreu, yn yr iaith Gymraeg.—
 (*Y Traethodydd*, 1876, t.d. 84).

Campwaith arall o eiddo Goronwy, ac, hyd y
 gwyddis, y darn olaf a gyfansoddodd, yw ei awdl-
 farwnad i'w athraw barddonol a'i noddwr Lewis
 Morys, a gyfansoddwyd ganddo yn Virginia,
 America. Cenir yr awdl hon ar y pedwar mesur

ar hugain cerdd dafawd, ac mewn ol-nodiad ysgrifena y bardd:—"Yr awdl hon a gant Goronwy Owen, Person Llanandreas, yn swydd Brunswic, yn Virginia, yn y gogleddawl America; lle na chlybu, ac na lefarodd hayach ddeng air o Gymraeg, er ys gwell na deng mlynedd. Gorphenaf zofed 1767."

Fel pe na buasai y mesurau caethion eisoes yn ddigon caeth, y mae'r bardd yn eu gwneud yn fwy caeth fyth, ac yn terfynu ei linellau â'r un odl o'r dechreu i'r diwedd, yn ol dull ynfyd amryw o'r hen feirdd. Y mae yn syn iddo fyned i'r eithafion yma, oblegyd y mae yn amlwg oddiwrth ei lythyrau ei fod wedi llwyr flino ar gaethder y gynghanedd. Mewn un llythyr cyfeiria at "hualau cyngghanedd, yr hwn ni bu prin ormes yn y byd i ieithoedd eraill, ond sydd ym mron a llethu ein hiaith ni."

Yn Mehefin, 1757, cawn Llewelyn Ddu yn ysgrifenu at gyfaill:—

I WONDER how the poor devil of an offeiriad goes on now—I don't hear anything of his being turned out. I suppose they don't drink as much as they did, poverty hinders them, and the alehouse will not give them credit. Nawdd Duw rhag y fath ddyn! A suprising composition! What poet ever flew higher! What beggar, tinker, or sowgelder, ever groped more in the dirt? A tomturd man is a gentleman to him. The juice of tobacco in two streams runs out of his mouth. He drinks gin or beer until he cannot find his way home, and has not half the sense of an ass; rowls in the mire like a pig, runs through the streets with a pot in his hand to look out for beer—looks like a mountain cat. And yet when he is sober, his good angel returns, and he writes verses sweeter than honey, and stronger than wine. How is this to be solved? His body is borrowed and descended from the dregs of mankind, and his spirit from the celestial choir,—what a stinking, dirty, habitation it must have.

Mewn llythyr, hefyd, at Dafydd Jones, o Drefriw,

dyddiedig Hydref 14eg, 1757, dywed Lewis Morris :
 —“ Daccw Ronwy Fardd yn myn’ d i *Virginia*, i
 ganu i’r Indiaid, ac i fwytta *Tobacco*, ac i gael
 ynghylch £300 yn y flwyddyn am ei boen, dan
 esgus bod yn feistr rhyw ysgol fawr sydd yno.”—
Y Diddanwch Teuluardd, arg. 1810, t.d. 184.

Y tebygolrwydd yw na welodd Goronwy y
 llythrau hyn, ac na chlywodd air am danynt,
 oblegyd ysgrifenwyd hwynt pan yr oedd ef ar
 groesi y Werydd, ond credwn, pe gwybuasai am
 eiriau llymdost Llewelyn am dano, fod ynddo
 ddigon o faddeugarwch, ac hefyd fod yr ymdeimlad
 o rwymedigaeth i’w hên gymwynaswr mor fawr,
 fel na fuasai cynwys y llythrau hyn yn effeithio
 nemawr arno.

Dechreua yr awdl yn llawn galar a thristwch
 gyda’r englyn :—

Och dristyd ddyfryd ddwyfron !—och Geli !

Och galed newyddion !

Och eilwaith, gorph a chalon !

Och roi’n y bedd mawredd Mon !

Yna cyfeiria’r bardd at ei golledion ef ei hun ar ei
 daith i’r America :—

Llwydais i gan golledion

Oer a fu’r hynt i’r fro hon,

meddai, a cheir nodyn ganddo yn egluro iddo gollu
 y rhan fwyaf o’i deulu wrth fordwyo i’r America.

Yna cawn air o’i brofiad gyda golwg ar ansawdd
 y wlad a’i thrigolion :—

Bro coedydd, gelltydd gwylltion,—pau prifwig

Pob pryfed echryslon ;—

Hell fro eddyl llofruddion—

Indiaid, eres haid, arw son.

Rhydd ddesgrifiad hynod o fanwl a medrus o
 alluoedd Lewis Morys mewn gwahanol gyfeiriadau,
 at y rhai yr ydym wedi galw sylw yn y bennod ar
 y bardd hwnw.

Wrth gofio am yr hyn a ysgrifennodd Goronwy gyda golwg ar y mesurau caethion, nis gallwn lai na rhyfeddu iddo, pan yn cyfansoddi yr awdl hon, wneyd y gynghanedd yn fwy caeth fyth drwy ddefnyddio yr un odl—*on* neu *ion*—o'r dechreu i'r diwedd. Ond er i'r bardd, fel hyn, wneyd caethiwed y mesurau caethion yn fwy caeth nag oedd raid, cyflawnodd y gwaith yn dra gorchestol, —yn wir, yr ydym yn gorfod teimlo, wrth ddarllen y farwnad, ei fod yn canu mor naturiol a phe yn anadlu.

Cyfeiria Talhaiarn at yr awdl hon fel yr “awdl-farwnad odidocaf yn yr iaith,” ac ychwanega :

Y MAE'R awdl hono yn orlawn o wir deimlad, ac yn dryfrith o geinion a chywreinion awenyddol o'i choryn i'w chynffon. Dyna awdl na byddwyf byth yn blino wrth ei darllen.—(*Y Brython*, cyf. iv. t.d. 465).

Elfed, hefyd, a ddywed :—

GWAITH clasurol arall yw marwnad Goronwy i Lewis Morys. Nid ydyw yn meddu ar lawer o wreiddioldeb syniadaeth ; ond y mae y celfyddydwaith yn gryf a gorphenedig, y mae y meddyliau yn glir a llednais ; ac nid yw Lewis Morys yn absenol.—(*Y Geninen*, 1889. t.d. 16).

Nodwedd amlwg ym marddoniaeth Goronwy Owen yw y llinellau pert, cynhwysfawr, sydd ganddo, y rhai sydd wedi dyfod yn ddiarhebion yn yr iaith. Y mae cyfansoddi y fath linellau yn brawf o athrylith o'r iawn ryw, a chyda llawer o briodoldeb y dywedwyd fod “cyfansoddi diarhebion cenedl, deddfau cyfeillach a'r aelwyd, yr anrhydedd uwchaf y dichon i farwol ddyw byth ei gyrhaedd.” Credwn fod Goronwy yn rhagori yn hys o beth ar braidd bob bardd Cymreig arall. Nodwn ychydig o'r llinellau hyn ; dichon y teimla rhai fod y rhestr yn faith, ond wedi dechreu dyfynu y mae y demtasiwn i fyned yn mlaen yn anorchfygol.

Beth a dâl crefft heb ei dilyn?

Ceir arwydd lle cyfeirio
Dengys llu â bys lle bo.

Hi ni wna dda, ddera ddall,
Ni erys a wna arall.

Ein hammorth sy'n ei phorthi,
A'u llwydd yw ei haflwydd hi.

A pha raid nod a phryd neb?
Annwn ni dderbyn wyneb.

Cofio wna hoglangc ieuangc
Yn llwyd, 'rhyn a glybu'n llanc.

Didwyll ar dafod ydyw,
Uthr o dwyll ar weithred yw,

Chwilio gem a chael gwmon.

Er passio'r ddau gynhauaf,
Mae'r hin fel ardymyr haf.

Trech fu cri gweddi nag arf.

A'i brif bechod yw tlodi—
Pob tlawd sydd gydfrawd i gi.

Ni adfer Ner amser oes.

A'r gwana ddyn a gwain ddur
A dyrr nerth a dwrn Arthur.

Go dlawd yw coeg edliw
I ddyn ei lun a'i liw.

Gwell aros yn unman na drwgrodio.

Gwae'r diofal ysmala ;
Gwynfyd i'r diwyd a'r da.

Gwell rhyw obaith na bod heb ddim.

Gwyn y gwel y frân ei chyw,
Er bod ei liw yn loywddu.

Hawdd gwg a haeddu gogan.

Heb Awen, baich yw bywyd,
A'i rhodd yw rhyngu bodd byd.

Heneiddio, gwywo wna,
 Y rhos, a holl falchder ha'.
 I'r euog, bradog eu bron,
 Braw tostaf! ba raid tystion?
 Llais telyn a ddychryn ddiawl.
 Ni chlywaf ni welaf wall.
 Nid gwallus ond a gollo.
 Er Dafydd, pwy'n wr difai,
 A fu erioed, na feiai rai.
 Tra-syth fydd perchen triswllt.
 Tyr dyrau, caerau cerrig
 Yn deilch lle'r ennynno'r dig.
 Y goreu a geir oreu.
 Y lle bum yn gware gynt
 Mae dynion na'm hadwaenynt.
 Cyfaill neu ddau am cofiant,
 Prin ddau, lle'r oedd gynnau gant.
 Yr un ni charo dôn a chaniad,
 Ni chair ynddo naws o gariad.
 Pawb a'i cennydd, o bu bai,
 A bawddyn, er na byddai.
 Ni chydwydd Awenydd war
 A dynion dybryd anwar.
 Prydoedd dalm o ber Salmau;
 Fwyned i'm ynt, f'enaïd mau.
 Am ganu ni fu, ni fydd,
 Hoyw ei fawl, ei hefelydd.
 Dygymydd Duw ag emyn
 O awen dda a wna ddyn.
 O f'awen deg, fwyned wyt;
 Diodid dawn Duw ydwyt.

Nodweddir ei lythyrau gan yr un peth, a gellid
 nodi lluwys o frawddegau o natur ddiarhebol, er

engraipht :—"Gwell rhyw obaith na bod heb ddim." "Ofer disgwyl pob peth wrth ein bodd." "Nid gwaith i'w wneuthur wrth ganwyll ddimai yw prydyddu." "Nid oes a wna brydydd, ond Duw a natur." "Gwae a lygro ei gydwybod heb enill dim." "The conversation of a friend is the best cordial for low spirits." "Without health the highest spirits must droop and sink."

Yn y gyfrol o waith Goronwy a gyhoeddwyd yn Llanrwst, yn 1860, ceir oddeutu haner cant o lythyrau o eiddo y bardd at y Morysiaid, ac un at William Elias, Plas y Glyn, Môn. Cyhoeddwyd y llythyrau hyn, hefyd, yn llyfryn ar wahan, yn 1895, gan Mr. Isaac Foulkes, ac ychwanegwyd ychydig at eu nifer.

Yn y llythyrau hyn ceir y bardd yn dweyd ei feddwl, yn rhydd ac yn rhwydd, ar faterion pwysig a dibwys, wrth ei gyfeillion a'i noddwyr. Y mae yn cael math o ymgom ddifyr â hwynt ar y cwestiynau oeddynt nesaf at ei feddwl ar y pryd, heb dybied erioed, y mae'n debyg, y cawsai y llythyrau weled goleuni dydd. Yr ydym, o ganlyniad, yn ei weled fel yr ydoedd, heb na hug na chochl, ond yn hollol ddidwyll ac unplyg. Oherwydd hyn, ceir ynddynt ddrych yn yr hon y gallwn weled gwahanol deithi ei gymeriad.

Wrth ddarllen y llythyrau hyn yn fanwl, y mae yn anmhosibl peidio sylwi ar yr awydd angerddol oedd ynddo i ddysgu. Doniol iawn yw ei hanes yn dianc i'r ysgol :—

Y TRO cyntaf erioed yr aethum i'r ysgol, dianc a wnaethum gyd â bechgyn eraill, heb wybod i'm tad a'm mam ; fy nhad a fynai fy nghuro, a'm mam nis gadawai iddo ; ba wedd bynnag trwy gynhwysiad fy mam yno y glynais.—*Gronozania*, t.d. 167).

Wedi iddo gyrhaedd oedran gŵr, ceir yr un peth ; y mae sŵn myfyrio yn ei lythyrau yn barhaus.

Mewn un llythyr gofyna am fenthylg llyfrau Groeg a Lladin; mewn llythyr arall dywed :—" Os oes genych ryw lyfrau Hebraeg neu Arabaeg a dim daioni ynddynt, ag y gellwch yn hawdd ei hebgor, chwi eillwch eu llwybreiddo."—(t.d. 173). Daw yr un peth i'r golwg yn nglyn â'r pedwar mesur a'r hugain. Mewn llythyr at William Morris dywed :—

ALL the Measures I know at present are Englynion Unodl Union, Cywydd Deuair Hirion, Gwawdodyn Byr, and Englyn Milwr. I protest I know no other, . . . Is it not a pity that many a pretty piece should be for ever lost for want of proper help to produce it! 'Rwyf agos a diflasu yn canu yr un dôn byth fel y gôg. Mae Cywydd yn awr, o eisiau tipyn o ryw amheu-hyn, wedi myned mor ddiflas a photes wedi ei ail dwymo. Gyrwch i mi ryw un neu ddau o'r mesurau na's adwaen yn mhob llythyr, ac yna mi fyddaf yn rhwymedig i ganu'ch clod yn mhob mesur o honynt" (t.d. 196).

Ei fod yn hynod o fedrus mewn dysgu ieithoedd sydd amlwg oddiwrth ei lythyrau. Wrth ysgrifenu at William Morris, dywed :—" Mi dderbyniais yn ddiweddar Destament Arabaeg, o Allt Fadog, a yrrasai Mr. R. Morris i mi er ys gwell na blwyddyn; ac er na's meddwn gymmaint a'r egwyddor yn yr iaith honno, mi ddysgais ei ddarllen mewn byr amser; ac yn wir nid anhawdd ei ddeall am ei bod yn swrn debyg i'r Hebraeg" (t.d. 246). Ac mewn llythyr at Rhisiart Morris ychydig yn ddiweddarach, dywed :—" Mi a dderbyniais y Testament Arabaeg o'r Allt Fadog yn ddiweddar, a chann diolch i chwi am dano; ni dderbyniais mo'r llyfr Hebraeg a yrrasoch gydag ef. Er na welswn erioed mo'r egwyddor yn Arabaeg, etto, trwy ddyfal astudio y taf o Fathew, y zydd o Luc, &c, mi ddysgais ei ddarllen yn lew iawn" (t.d. 249).

Daw ei anfanteision a'i ddygn dylodi hefyd i'r golwg yn fynych. Wrth Rhisiart Morris dywed :—

“Rych yn gofyn, paham yr wyf yn gadael i'r awen rydu? Rhof a Duw, pe cawn bris gweddol am dani, mi a'i gwerthwn hi. Beth a dâl awen lle bo dyn mewn llymdra a thlodi? A phwy a geiff hamdden i fyfyrion, tra bo o'r naill wasgfa i'r llall mewn blinder ysbrydol a chorphorol?” (t.d. 279). Mewn llythyr at William Morris dywed:—“You ask me whether I have seen Cyfraith Hywel Dda, of Dr. Wotton, and Moses Williams's edition or translation. Na welais i ddim erioed o'r fath beth, na dim arall yn Gymraeg a dalai ddim ond y Bibl a'r Bardd Cwsg. Gwyn eich byd chwi ac eraill sy'n cael gweled eich gwala o hen MSS., &c. Rhof a Duw cedwch yr hen MSS. un dydd a blwyddyn, ac yna ond odid nad ellwch hepgor y copi i ddi-ddanu Goronwy Ddu druan na welodd e erioed y fath beth.” (t.d. 298).

Elfen arall yn ei gymeriad yw ei awydd i dalu ei ffordd:—“Mawl i Dduw, nid oes arnaf un ffyrlling o ddyled i neb, fel y bu o fewn ychydig flynyddoedd.” (t.d. 211). “Fe orfu arnaf werthu pob peth yn Donnington, i dalu i bawb yr eiddo, ac i gael arian i ddwyn ein cost yma: felly llwm iawn a fydd arnom y chwarter cyntaf,” (t.d. 209). A phan ar fin croesi y Werydd dywed:—“Erbyn cyttuno â pherchenog y llong, mi welaf nad ydyw yr holl arian a gaf at fy nhaith, ac oll a feddaf fy hun (wedi talu i bawb yr eiddo) ond prin ddigon i ddwyn fy nghost yno.” (t.d. 331). Dengys y dytyniadau hyn, ac eraill y gellid eu nodi, fod y bardd wedi yfed yn helaeth o yspryd yr adnod, “na fyddwch yn nyled neb o ddim.”

Yn ngwyneb ei dylodi a'i siomedigaethau, hytryd yw darllen ei fynych ddatganiadau o'i ymostyngiad i ewyllys y Nef. Daw ei ysbryd dirwgnach i'r golwg yn barhaus:—“Nis gwn i pa'r fudd a ddaw; ond hyn sydd sicr gennyf,

fod yr un nefol ragluniaeth ag a'm porthodd hyd yn hyn, yn abl i'm diwallu rhagllaw; a pha bryd bynnag y digwyddo i mi saethug, fod Duw yn gweled mai rhywbeth arall sydd oreu er fy lles," (t.d. 194). "Wele, wele, m' welaf nad oes dim siawns am ddyfod i Gymru; nid oes mo'r help; there is no use crying after shed milk; I never was so sanguine as to promise myself any success, and therefore can have no disappointment. Yr ydwyf yn gwbl foddlon i'm tynghedfen, doed a ddel," (t.d. 286).

Ceir yn ei lythyrau, fel yn ei farddoniaeth, aml i gyffyrddiad hapus o'r llon a'r chwareus.—"Fe aeth y wraig Elin yn ddwy Elin o fewn y pum' wythnos yma; a gwaë a gaffo eneth, meddaf fi; ni fu yma ddim gwastadfod ar ddim er pan welwyd ei wyneb hi" (t.d. 280). "Llyma Wyddel wedi myn'd i Hirgaer, i garchar, am briodi dwy wraig, o fewn llai na dwy filldir at eu gilydd. Mae'n debyg y caiff ymystyn, ac ni haeddai amgen, am fod mor ryfygus a chynnyg gwasanaethu dwy, lle y mae digonedd o rai eraill yn methu boddloni un yn iawn" (t.d. 285). Doniol iawn yw ei ddesgrifiad o berson Walton:—

CLIMMACH o ddyd amrosgo ydyw—garan anfaintunaidd—afsuniaidd yn ei ddillad, o hyd a lled aruthr, anhygoel, ac wynebpryd llew, neu ryw faint erchyllach, â'i drem arwguch yn telcio ym mhien pob chwedl ddigrif, yn ddigon er nodd i llygod yn y dyblygion; ac yn cnoi dail yr India hyd oni red dwy ffrwd felyngoch hyd ei ên. Ond ni waeth i chwi hyny na phregeth, y mae yn un o'r creaduriaid anferthaf a welwyd erioed y tu yma i'r Affric. Yr oedd yn 'swil gennyf ddoe wrth fyned i'r Eglwys yn ein gynau duon fy ngweled fy hun yn ei ymyl ef, fel bâd ar ol llong— (t.d. 199).

Mewn llythyr at Rhisiart Morris ceir y sylwadau hyn:—

PERHAPS it were to be wished that the Rules of Poetry in our language were less nice and accurate; we should then undoubtedly have more writers, but perhaps fewer good ones. I would never wish to see our poetry reduced to the English standard; for I can see nothing in it that should entitle it to the name of poetry, but only the number of syllables (which yet is never scrupulously observed), or, if you please, poetic words and a wretched rhyme (sometimes) at the end, in blank verse, i.e. the best kind of English Poetry—no rhyme at all. Milton's Paradise Lost is a book I read with pleasure, nay with admiration and raptures: call it a great, sublime, nervous, or if you please, a divine work, you will find me ready to subscribe to anything that can be said in praise of it, provided you do not call it poetry; or if you do so, that you would likewise allow our Bardd Cwsg to take his seat amongst the Poets" (t.d. 186).

Prin yr oedd y bardd o ddifrif pan yn ysgrifenu fel hyn; os ydoedd, y cwbl ellir ddweyd yw ei fod yn llawer iawn gwell bardd nag ydoedd o feirniad.

Yn yr un llythyr dywed:—"As English Poetry is too loose, so ours certainly is too much confined and limited, not in the Cynganeddau, for without them it were no poetry" (t.d. 186). Y mae y syniad "*without them* (sef y 'Cynganeddau,') *it were no poetry,*" yn ein taro yn lled chwithig; ysywaeth, yr ydym yn cael llawer iawn gormod o'r "Cynganeddau," a llawer iawn rhy fychan o'r "*poetry.*"

Doniol a synwyrol iawn yw ei gyfeiriad yn un o'i lythyrau at yr anghydwalediad rhyngddo â Llewelyn Ddu:—

AM y Llew yr wyf agos a chanu yn iach iddo, oblegyd fod lle i ofni ei fod wedi digio dros byth bythoedd, o ran na chefais ganddo ond sèn, yn y llythyr diweddaf byth a welais oddiwrtho. Y mater sydd fel hyn (a mater garw yw hefyd), digwydd a wnaeth i'r Llew ddal sylw arnaf yn ysmocio fy nghetyn yn Nghyfartod y Cymmrodorion, ac

uthr oedd ganddo weled y Bardd (fel iâr mewn mwg) a'r niwl gwyn yn droellau oddiamgylch ei ben (like glory in a picture). Dyna'i air; ond am Foulks &c., nid oedd ryfedd ganddo. Yr oedd yn taeru yr un amser fy mod wedi haner crapio; ac yn wir y mae yn adgof gennyf yfed o honof ran o phialaid o bwyns yn nhy y câr H. Prys cyn dyfod yno. Ond gadewch i hynny fod; nid aml y bydd y gwendid hwnnw arnaf, (goreu byth po'r anamlaf), a diau yw bod maddeuant i fwy troseddau na hynny, er ei gymaint. Sèn iachus er fy lles i oedd y sèn, a diolchgar ydwyf am dani; ond eto nid arwydd dda ar neb fod yn anfaddeugar. Nis gwn i achos arall yn y byd iddo ddiogio a bod mor dŷn. Mae genym yma yn fy ymyl broffwydoliaeth a 'scrifenwyd cyn gweled o honof Lundain erioed, sy'n dywedyd, "Mai os fi (pan ddeuwn yna) a fethwn yn yr hyn lleiaf ddal y ddysgl yn wastad i'r Llew, na wnai ond fy nirmygu a'm cablu, a'm coegi, ar air a gweithred byth, heb obaith na chymmod, na hawddgarwch, na mwynder yn oes oesoedd. Amen."—(t.d. 320).

Cydnabyddir fod y llythyrau hyn yn cymeryd eu lle yn uchel yn mysg y clasuron Cymreig, a gresyn na fai mwy o ddarllen arnynt gan lenorion Cymru yn y dyddiau hyn. Yn ol tystiolaeth Goronwy ei hun yr oedd yn ddyledus i'w fam, i raddau helaeth, am ei fedrusrwydd yn y cyfeiriad hwn:—

I FLATTER myself that I am master of a fluency of words and purity of diction; and, if so, be the poetical vein ever so slender, all the *cynganeddau* must be equal, if equally understood. Cornelia, the mother of the Gracchi, is commended in history for having taught her sons, in their infancy, the purity of the Latin tongue; and I may say in justice to the memory of my mother, that I never knew a mother, nor even a master, more careful to correct an uncouth, inelegant phrase, or vicious pronunciation, than she. And that, I must own, has been of infinite service to me.

Wrth ystyried ei anfanteision ar hyd ei oes,—

y prinder llyfrau. a'r ffaith iddo dreulio rhan fawr o'i oes yn mysg pobl oeddynt yn barhaus yn "sisial iaith y Saeson," y mae yn syn iddo gyrhaedd safle mor uchel fel Cymreigydd. Fel y dywed y Parch. Robert Jones, Rotherhithe :—

WE have often marvelled, and we marvel still, at Goronwy's mastery of the Welsh language. Whence came it? The only books he was acquainted with in his early years were the Bible and *Y Bardd Cwsg*—models the most pure, it is true, but circumscribed in their range, and of a comparatively recent date; while Goronwy's vocabulary, even if deprived of the thousands of words contained in both, would be a rich and extensive one. We again wonderingly ask, Whence did he derive his knowledge? It could not have been at Oswestry, or Donnington, or Walton. Yet *he*, an exile from Wales, for years in the heart of England, not only wrote gracefully and graphically in Welsh, but proved himself a more consummate master of it, both etymologically and idiomatically, than any writer either of that or of any succeeding age. We can ascribe it to nothing less than a genius as transcendent as was ever bestowed on man.—(cyf. ii. t.d. 123),

Cyn gadael Goronwy fel Cymreigydd, nis gallwn beidio dyfynu sylwadau y Proff. J. Morris Jones :—

GYMAINT o wahaniaeth sydd rhwng y farddoniaeth gyng-haneddol a ysgrifennir yn y dyddiau hyn a gwaith Goronwy Owen! Nid yw Goronwy byth bron yn gwneud gwall mewn iaith; ni chanfyddais ond rhyw un brycheuyn yn ei holl waith, tra mae awdlau cadeiriol yr oes yma yn dryfrith o honynt. Fel un enghraifft, y mae beirdd yn awr yn tybied y gallant droi pob *o* yn *aw*; nid yw Goronwy byth yn gwneud hyny ond lle mae deddfau'r iaith yn caniatau. Y mae gan Goronwy gyflawnder o eiriau cryfion; a'r rheiny yn *wir* eiriau Cymraeg, nid pethau fel *il* neu *wff* neu'r cyffelyb, na welwyd erioed monynt ond yng ngeiriadur Wm. Owen. . . . Y mae ysgrifenywyr y dyddiau hyn yn *teimlo* pob peth yn ol idiom y Sais, i.e. aethant y tu hwnt

i'r Sais—soniant am *deimlo* arogl. Er hyny, ei *glywed* y bydd y gwir Gymro eto. . . . Ni flinid Goronwy â rhyw grach resymeg, megys mai gwaith y glust ydyw clywed, a'r cyffelyb . . . Ergyd hyn oll yw fod brawddegau Goronwy yn Gymreig o ran arddull ac idiom, gydag ambell gyffyrddiad tlws yn null yr hen feirdd; ac fod ei gyfansodd-eiriau'n gywir ac ar y model Cymreig.

Cyfeiria Goronwy yn fynych yn ei lythyrau at darddiad geiriau, a dengys ei sylwadau ei fod yn ieithyddwr penigamp. Pe cawsai hamdden a chefnogaeth i baratoi geiriadur Cymraeg a Saesneg, buasai y gwaith yn gaffaeliad anmhrisiadwy i'n llenyddiaeth. Dengys y dyfyniadau canlynol o un o'i lythyrau at Rhisiart Morys fod ynddo bob cymhwysder at y gwaith :—

As for poor, plodding Richards, you have said more of him than ever I intended to do myself. But say what you will, you cannot injure him much. I have so much charity for him, as to believe he undertook it with a view of the public good; but I can by no means allow that the book will be useful to the next compiler, or indeed to anybody else. When Virgil gathered gold out of Ennius's dunghill, I presume the former bore a proportion as one to ten to the latter. But here there is not an ounce to a ton weight; and so it is not worth raking for. I wish he had nothing to do with Moses Williams, Henry Salisbury, and Baxter—I am sure it had been better—but especially his own Glamorgan. What have Glamorgan words to do with Welsh? I had rather he had made use of any gibberish, and authorised it with an *hottentotice*; that would never mislead Posterity. But we may be easy, for I dare say his Dicionary never will. The Dictionaries, Glossaries, etc. that he compiled from might have been useful to a judicious man, that could have picked and culled with judgment and discretion. But I have no patience when I see Henry Salisbury and the late unaccountable Moses Williams, quoted to justify a blunder, or to legitimate and authorise the most uncouth gibberish. He must either be superstitiously bigoted to Henry Salisbury

and others, or else very injudicious with a witness, to swell his book with the same word three or four times over, where but one reading is true, and all the rest to be rejected as corruptions, e.g., *Myrddin*, Henry Salisbury, see *Murddyn*, and so on to *Merddyn*, *Murddun*, &c. Dictionaries are, or should be, made to understand authors by, and to teach us to write correctly in imitation of them; and not to acquaint us with the different corruptions that words may be perverted to by the lisping prattle of nurses and children, and vicious phraseology of clowns and rustics. The word *addfed* is pronounced *addfyd* by the greater part of the Denbighshire people. What then? Were I to compile a Dictionary, would it be commendable, or even sufferable, in me to write *addfyd* or *addfed*, though I should find it in a manuscript collection of words, and then add, "See *addfed*" or "*addfyd*." You will say "Why not?" Because it is not so found in any approved writer, and what ought to have more weight, because etymology is against it: the word being compounded of *add* and *medi*. Most of the writers and collectors of those glossaries and collections of words designed for additions to Dr. Davies, are not to be depended upon; because they took all uncommon words as they found them, and that commonly out of the lips of ignorant people, well or ill pronounced, no matter. These being new to their ears, and understandings, gave them a sufficient title to have a place in a collection. Witness *tat*, "a swine," in Lloyd's *Ar. Br.* and many more I could quote, had I books. And as most of them are not to be depended upon, so are they all to be suspected. For most or all have an itch for establishing and propagating their own whims and conceits, as flies have to blow maggots, which it is everybody else's interest to destroy. A glossary Writer had rather turn a language topsy-turvy, than quit a few etymological conjectures, the production of his own dear brains; and a bad poet had rather write and pronounce fifty words wrong to secure his *cynghanedd* than be obliged to alter one favourite, faulty line.

It is a specious ornament to a title page to promise several thousands of words more than in Dr. Davies's; but perhaps

all these thousands, by the time they are well sifted and cleaned, will scarcely amount to a hundred. One of them I remember is *gial*, "a country gate;" that is the old, yet common English word, "*gate*." Is this adding to Dr. Davies's? Is this enriching the Welsh language? By the same rule, it may be made the general, universal, catholic language of this universe. It is but making all words in the world free denizens of our own language, and call them our own, and the work is done.

Ni pherthyn i ni roddi hanes sefydliad y pedwar mesur ar hugain, yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1451, nac ychwaith adrodd helynt yr Eisteddfod yn yr un dref yn 1819, pan y condemnwyd y mesurau hyny. Digon yw dweyd y cafwyd hwynt yn euog "o gyfyngu awen y bardd o fewn llyftheiriau rhy gaethion; a bod yn rhy fynych, o'r achaws, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allawr gwag-orchest egwan-bwyll a diansawdd. Herwydd hyn, barn yr eisteddfod hon ydyw—bod o hyn allan ryddid i feirdd Ynys Prydain gyfansoddi caniaadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas i eu testynau; ac na byddo rhagllaw wahaniaeth o barth teilyngdawd i ei roddi i fesurau yr un dosbarth, na'r hen na'r newydd, ragor neu uwch na eu gilydd; ond bod urddas cerdd neu awdl uwch eraill i gael ei farnu wrth gymhwylliadau synwyr, a phwyll, a chynghanedd rywiog a diledryw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth y mesurau."

Y mae yn amlwg oddiwrth ei lythyrau fod Goronwy wedi llwyr flino ar "amrywiaeth y mesurau," a'i fod yn ystyried eu bod yn cyfyngu "awen y bardd o fewn llyftheiriau rhy gaethion." Mewn un llythyr dywed:—

MEDDYLIAIS yn fynych mai rhwyddaf a lleiaf o lyftheiriau cynghanedd yn y mesurau, goreu rhaid yw bod y gerdd. Nid yw mydryddiaeth y Groegiaid yn agos mor ddarostyng-

edig i ddognaeth sillau ag ydoedd un y Rhufeiniaid ; ac y mae un y Saeson yn fwy rhydd na phob un onaddynt, gan nad oes iddo na rhif sefydledig, na dognedd sillau, na hefyd odlaeth yn y diwedd ; chwaethach hualau cynghanedd, yr hwn ni bu prin ormes yn y byd i ieithoedd eraill, ond sydd ym mron a llethu ein iaith ni.

Y mae ei sylwadau hefyd ar y mesur gwael a di-orchest a elwir "Gorchest y Beirdd" mor ragorol fel nas gallwn beidio eu dyfynu. Gresyn mawr na wneid i ffwrdd unwaith am byth â'r mesur yma, ac eraill o ran hyny, o'r pedwar mesur ar hugain. Fel hyn y dywed :—

WHAT a cursed low, grovelling thing that Gorchest y Beirdd is, I leave you to judge ; and would at the same time have impartial answer, whether the old, despised, exterminated, (and I had almost said persecuted,) Englyn Milwr hath not something in it of antique majesty, in its composition. Now, for goodness' sake, when I have a mind to write good sense, in such a metre as Gorchest y Beirdd, and so begin, and the language itself does not afford words that will come in to finish with sense and cynghanedd too, what must I do ? Why to keep cynghanedd I must talk nonsense, to the end of the metre as predecessors in poetry were used to do to their immortal shame, and cramp and fetter good sense, while the Dictionary is all over turned and tormented to find out words of a like ending, sense or nonsense.

Rhywbeth yn debyg oedd syniad Gwallter Mechain :—"Nid yw *Gorchest y Beirdd*, fel y gelwir, ond rhigwm gwael, y gwaelaf o'r pedwar mesur ar hugain newydd. Mesur yw cymmwys i feddwyn uwch ei loddest ; ar hwn gallai ganu :—

Dip dap,
Rip rap,
Gip gap,
Gwpan."

Synwyrol iawn yw sylwadau Hiraethog :—
DIGALONID Goronwy i geisio cyfansoddi arwrgerdd, neu

unrhyw waith mawr ar destyn dyrchafedig, o herwydd caethder y mesurau a'r gynganedd Gymreig; y fath golled ydyw hyn i'n llenyddiaeth! Yr unig beth sydd genym i gwyno o'i herwydd yn Goronwy Owain ydyw, fod ei ganiadau yn rhy fyrion, yn rhy fach o nifer; ac na buasai wedi ymosod ar ryw brif gampwriaeth awenyddol; ond yn hyn fe'i digalonid gan gaethder ein mesurau a'n cynganedd, fe ymddengys. Wel, yr achlod iddynt! ynte, meddwn ni. Yspeiliasant ein llenyddiaeth yn ddiau o drysor ambris-iadwy; canys pe cymmerasai G. Owain arno y gorchwyl o gyfansoddi arwrgerdd, neu ganiad faith ar ryw destyn dyrchafedig, nid oes le i ammheu na buasai yn waith teilwng i'w gystadlu â goreuon barddoniaeth unrhyw genedi.

Bu llawer o feio o dro i dro ar Goronwy am ei fynych ddefnyddiad o'r gynganedd lusg, sef rhoddi rhyw sill o'r braich i gydodli â'r sill nesaf i'r brifodl. Ar y pen hwn nis gallwn wneud yn well na dyfynu y sylwadau rhagorol a ganlyn o adolygiad Dr. Lewis Edwards ar argraphiad y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, o Weithiau Goronwy, o'r *Traethodydd* am 1876, t.d. 81:—

Y MAE y mesurau caethion yn ddigon caeth er defnyddio pob rhyddid a ganiateir gan y gyfraith; ac y mae yn syn fod cymaint o duedd yn y beirdd i'w gwneyd yn gaethach nag ydynt. Ai chwareuyddiaeth yw barddoni, ai ynte gwaith? Os chwareuyddiaeth, yna y dyn goreu am ddawnsio ar raff y mesurau caethion yw y dyn sydd yn teilyngu y wobr. Ond os gwaith yw barddoni, yna taler yn ol rhagoriaeth y gwaith a gyflawnid, heb gymeryd i ystyriaeth yr anhawsderau a osododd y gweithiwr arno ei hun er mwyn dangos ei fedrusrwydd. Nid ydym yn dyweyd dim yn awr yn erbyn y mesurau caethion, ond yn dadleu y dylai bardd gael cymaint o ryddid ag sydd gyfreithlawn yn ol y mesurau hyny, a'i fod yn haeddu y flaenoriaeth, os bydd ei feddyliau yn rhagori, er i fardd arall gyfansoddi ar yr un testyn gyda mwy o gywreinerwydd cynganeddol. . . Y mae Mr. Jones, hefyd, yn galw

sy'lw at reswm arall, yr hwn sydd gryfach fyth:—‘The slow, stately march of *cynganedd lusg* admirably adapts itself to the grandeur which it would express. If we were inclined to disparage our poet’s later works, it would be for their redundancy of the more elaborate *cynganeddion!*’ Y mae hyn yn hollol wir; ac nid oes dim sydd sierach nag y gall bardd wanhau yr effaith trwy gryfhau y *cynganedd*. Y mae yn hên ddywediad mai yr arddull goreu mewn rhyddiaeth a barddoniaeth yw yr un sydd mor dryloew ac mor syml fel nad yw yn tynu sy'lw oddiwrth y meddyliau at gywreinrwydd trefn y geiriau. Yn y llinell fwyaf nerthol yn Nghywydd y Farn nid oes ond *cynganedd lusg*:—

“Cydfydd y fall â'i gallawr.”

Yn y *Traethodydd* am 1851, ceir tafoliad Lewis Morys o'r beirdd o ddyddiau Aneurin Wawdrydd i lawr, a noda eu graddau mewn awen, gwybodaeth, dysg, a chynghanedd. Safon perffeithrwydd yn mhob gradd yw ugain, ond nid yw yr un o'r beirdd yn cyrhaedd mwy na pedwar ar bymtheg. Fel hyn y saif Goronwy yn y rhestr:—

Awen	19
Gwybodaeth	18
Dysg	19
Cynghanedd	18

Bu cryn lawer o feirniadu ar y tafoliad o dro i dro, ac er fod Llewelyn Ddu, yn ein tyb ni, yn gosod amryw o'r beirdd a dafolir ganddo yn uwch nag y dylasai, credwn ei fod yn bur agos i'w le yn ei fantoliad o fardd mawr Mon. Fel y dywed Gwilym Hiraethog:—“Cywrain, celfydd, a manwl iawn oedd ef, pa un bynag ai daear ai dyn a fesurai.”

Prin y bydd neb erbyn hyn yn barod i gymeradwyo syniadau eithafol Dewi Wyn yn y llinellau canlynol:—

A allai Groeg, a holl gred,
Eilydd i Dudur Aled?

A fu erioed, o fawr rym,
 Neb o golofn Ab Gwilym?
 Na, fu'r un o'u nifer hwy
 Werth rhawnen wrth Oronwy;
 Heriaf Homer a Horas,
 Na bu a'i trech neb o'u tras.

Dengys y dyfyniadau canlynol o awdl Eben Fardd beth oedd syniad y beirniad galluog hwnw am safle Goronwy yn mhlith y beirdd. Ceir yr awdl yn gyflawn yn y *Traethodydd* am 1867, t.d. 344:—

Gwr a aned oedd Goronwy,—yn Môn,
 Dyn mawr a chlodadwy!
 Bardd, na bu o fardd, neb fwy,
 O Gaer Môn i gŵr Mynwy.

Rhanodd Iôr i Oronwy Ddu,—ddawn bardd
 I'w urddo'n Ben Cymru;
 Rhaid oedd ei anrhydeddu,
 Maen coron i Fôn a fu.

O Gymru ni bu un bardd,—ogyfuwch
 Ag ef, enwog Brif-fardd;
 Digrifai deg oreufardd
 Y wlad hon â'i eiliad bardd.

Wrth gyfeirio at safle Goronwy yn mhlith y beirdd dywed Gutyn Padarn yn *Y Traethodydd* am 1862 (t.d. 152):—

PE gofynid i ni fyned trwy restr ein Beirdd, o ddyddiau Aneurin, Taliesin, a Llywarch Hen, hyd y dydd heddyw, a nodi allan dri o'r mwyaf awenyddol yn eu mysg, yr ydym yn sicr y byddai Goronwy Owen yn un o'r tri, er nad ydym mor sicr pwy fyddai y ddau eraill. Mae ei farddoniaeth ef fel yr aur pur, yn sicr o barhau yn ei deilyngdod a'i ddysgleirdeb tra pery yr iaith y mae ynddi. Ei linellau ydynt yn dwyn arnynt argraph anfarwoldeb ag nad oes dim ond gwr dalent yn alluog i'w gynnyrchu.

Yn yr un ysgrif dywedir :—

NID oedd neb o'r beirdd Cymreig, a aethant o flaen Goronwy Owen, wedi rhoddi y fath brawf o'u medr i gyfansoddi ar y Mesurau Caethion ag a roddes ef; ac fe allai na chyfododd neb ar ei ol yn rhagori arno yn hyn. Yr ydym yn cael yn ngwaith awdwyr eraill gymaint a mwy o dân awenyddol, a meddylddrychau llawn mor rymus a gwreiddiol! ond ni wyddom am neb yn dyfod i fyny âg ef yn esmwythder a naturioldeb ei gynghaneddion, a'r chwaeth bur, a'r ymadroddion i'r pwrpas, a ddefnyddir ganddo.

Un peth sydd yn deilwng o sylw yn nglŷn â barddoniaeth Goronwy yw y ffaith na cheir ganddo ddim o'r arddull Saesneg sydd i'w ganfod mor fynych yn ngwaith beirdd Cymru yn ei oes ef, ac ar ol hyny. Yr oedd wedi darllen cymaint o waith y beirdd Seisnig, mae yn debyg, a'r un ohonynt, ac heblaw hyn yr oedd yn berffaith gyfarwydd â gwaith y beirdd Lladin a Groegaidd, ond pan yn cyfansoddi yn Gymraeg cadwai yn fanwl at y *dull Cymreig*. Priod-ddull y Gymraeg sydd ganddo, a dim arall.

Wrth ddarllen ei farddoniaeth yr ydym yn teimlo, rywfodd, mai prin iawn yw ei gyfeiriadau at brydferthion a golygfeydd natur—un o neillduolion mwyaf amlwg y bardd Cymreig. Nid yw yn hawdd rhoddi cyfrif am hyn, ond dichon fod a wnelo ei fywyd helbulus lawer â'r peth.

Elfen amlwg iawn yn ei waith yw *coethder*. Fel y dywedasom yn barod, ei athraw barddonol oedd Llewelyn Ddu, bardd hynod o ddi-chwaeth, fel y gwelsom. Wrth ystyried hyn, ac wrth gofio chwaeth isel caniadau amryw o gydoeswyr Goronwy, y mae yn syn fod ei farddoniaeth ef yn cynwys cyn lleied o linellau tramgwyddus. Fel y dywed Gwilym Hiraethog :—“Nid oes nemawr linell yn ngwaith Goronwy a dramgwyddai y

coethaf ei archwaeth, ac a ddoluriai y tyneraf ei deimlad." Yn gyffelyb y tystiolaetha Dr. Lewis Edwards:—"Deallwn ei fod weithiau yn ei lythyrau wedi syrthio dan ddylanwad ysbryd yr oes yr oedd yn byw ynddi, . . . ond yn ei farddoniaeth, gydag ychydig eithriadau, yr oedd yn rhagori ymhell ar ei gydoeswyr barddonol yn Nghymru, ac ar y cyffredin ohonynt yn Lloegr."

Pe gofynid i ni, yn mha beth y mae rhagoriaeth Goronwy yn gynwysedig; atebem, rhagora yn mhobpeth. Nid rhagori yr ydoedd mewn un cyfeiriad yn unig, ond ceir ganddo gyfuniad o holl elfenau gwir farddoniaeth. Yr oedd y fath feistr ar y gynghanedd fel mai gwaith anhawdd yw pigo beiau, ac y mae ei waith yn hynod rydd oddiwrth eiriau llanw, y rhai ydynt y fath demtasiwn i gynghaneddwyr yn gyffredinol. Mewn gallu desgrifiadol, nid oes yr un o feirdd Cymru yn rhagori arno. Mewn grymusder ac arucheledd saif ar ben y rhestr, a dichon fod ei ragoriaeth yn hyn i'w briodoli mewn rhan i'w gydnabyddiaeth drylwyr â gwaith y beirdd Groeg a Lladin. Pan y byddai yn dewis gwneud hyny, gallai ysgrifenu y watwareg fwyaf miniog. Yn ei gyfeiriadau at ei anwyl Fon, daw yr elfen hiraethus i'r golwg; mewn cyfansoddiadau eraill, y mae y llon a'r chwareus yr un mor amlwg. Mewn gair, yr oedd yn fardd *cyflawn*.

Dywed ysgrifenydd yr erthygl ar Goronwy Owen yn *Y Gwyddoniadur*:—"O ran coethder, nerth, a gorpheniad, grym desgrifiadol, ac arucheled, saif yn uwch o'i ysgwyddau i fynu na neb o'i gyfoeswyr na'i ragflaenwyr." Nid ydym ninau yn gwybod am neb o'i "gyfoeswyr na'i ragflaenwyr" a ragorai arno. Dichon fod rhai o'r beirdd a ddaethant ar ei ol—Dafydd Ionawr, Dewi Wyn, Eben Fardd, Hiraethog, Emrys, Nicander,

Islwyn, ac eraill—wedi dringo yn bur agos ato
mewn rhai cyfeiriadau, ond rhagorai Goronwy yn
mhob cyfeiriad, a chredwn fod Talhaiarn yn bur
agos i'w le pan yn ei alw yn "Ymherawdwr
Beirdd Cymru."






. . Mynegai. . .

	TUD.
America, Goronwy yn yr	73
Anfanteision Goronwy	122
Arglwydd Llwdlo, Cywydd	87
Argraffwasg yng Nghaergybi	46
Arwyrain y Nennawr	94
Awdl-Farwnad i Lewis Morys	115
Awdl i'r Coler Du	83
" o Briodasgerdd	99
" y Gofuned	83
" yn ol dull Meilir Brydydd	81
Awen, Cywydd i'r	87
Awydd Goronwy i dalu ei Ffordd	123
Awydd Goronwy i Ddysgu	121
Beibl, Rhisiart Morys a'r	61
Bonedd yr Awen, Cywydd	101
Bugail Tregaron, Caniad	25
Calan, Cywyddau i'r	96
Calendr y Carwr	82
Camden, Lewis Morys a	33
Caniad Bugail Tregaron	25
" Hanes Henaint	21
" i'r Cymmrodorion	91
" Melinydd Meirion	19
" y Góg	14
" i Feirionydd	23
Cariadgerdd Nansi Llwyd	14
Carte, Mr., Llythyrâu at	41, 43
Celtic Remains	29
Cenfigen, Cywydd	80
Coethder Goronwy	135
Croesoswallt, Goronwy yn	71
<i>Crown Manor of Creuthyn</i>	48
Cwd Cardottyn, Cywydd	25

	TUD.
Cwynfan i'r Bol Haul	14
Cyfraith Trefdraeth	62
Cymdeithas y Cymmrodorion	56
Deg Gorchymyn y Dyn Tlawd	18
" " y Priodfab	25
" " y Traws Cyfoethog	18
Diawl, Cywydd i'r	95
<i>Diddanwch Teuluaidd, Y</i>	24
Diffyg Chwaeth Lewis Morys	25
Donnington, Goronwy yn	71
Dyledswydd a Doethineb Dyn	86
Eben Fardd, Englynion gan	134
Edwards, Dr. Lewis 28,	115
Elin, Marwnad i	79
Elis Roberts y Cowper	104
Englynion i Dduw	75
" i Twm Sion Twm	82
<i>Enwogion Cymru</i>	24
Evans, y Canon Silvan	31
Galarnad Bol Haul	14
Gallt y Gofal	21
Geirlyfr Thomas Jones	65
Goronwy ar y Gynghanedd	130
" ar Milton	125
" fel Cymreigydd	127
" fel Ieithyddwr	122
Gorthrechriad Angau, Cywydd	21
Gutyn Padarn	134
Gwilym Hiraethog ar Lewis Morys	48
Hanes Henaint, Caniad	21
Hiraeth am Fôn, Cywydd	92
Huw ap Huw, Cywydd Atteb i	84
I Ofyn Beibl, Cywydd	61
" Dillad, Cywydd	11
Ieuan Brydydd Hir, Llythyrau at ... 39, 53,	83
" " " ar Lewis Morys	50
" " " Marwnad gan	50
Iolo Morganwg ar Lewis Morys	51
Johnes, Judge	62

	TUN.
Llinellau Diarhebol gan Goronwy	118
Llwyd, Edward	33
Llythyrau Goronwy	121
Mr. Pegge, Llythyrau at	29
„ „ Llythyr at Dr. Phillip	52
Marwolaeth Goronwy	74
Melinydd Meirion, Caniad	19
Môr-ladron Crigyll	17
Morwynion Glân Meirionydd	23
Morys, Lewis	9
„ „ Cywydd i	98
„ „ Marged, Marwnad	89
„ „ Rhisiart	59
„ „ William	66
Northolt, Goronwy yn	72
Owen, Goronwy	70
Owen, John, Awdl-Farwnad	93
Parry Ddall	56
<i>Plans of Harbours, &c.</i>	10
Pwllheli, Goronwy yn	71
Rhagymadrodd i'r <i>Diddanwch Teuluaidd</i>	26
Rhodd Meistr i'w Brentis	48
Rhydychen, Goronwy yn	71
Richard, Edward, Llythyrau at	39, 45
Safle Goronwy fel Bardd	136
Sion, Rhydderch, Englyn i	68
Solomon's Whore	25
Tafoliad Gwilym Hiraethog	49
„ „ Lewis Morys	53, 133
Tlysau yr Hen Oesoedd	47
Twm Sion Twm, Englynion i	82
Walton, Goronwy yn	72
William Wynn ar Y Farn	113
Y Bais, Cywydd	25
Y Bardd Coch	75
Y Carwr, Calendr	82

	TUD.
Y Cildannau, Englynion	20
Y Cryfion Byd	78
Y Cynghorfynt, Cywydd	80
Y Cywydd Atteb i Huw ab Huw	84
Y Farf, Cywydd	76
Y Farn Fawr, Cywydd	105
Y Frenhines Carolina, Marwnad	59
Y Gofuned, Awdl	83
Y Gôg, Caniad	14
„ „ i Feirionydd, Caniad	23
Y Gwahawdd, Cywydd	76
Y Maen Gwerthfawr, Cywydd	88
Y Nennawr, Arwyrain	94
Y Rhew a'r Eira, Cywydd	16
Y Serch, Cywydd	82
Y Wrach Ddigywilydd, Cywydd	18
Ysgriflyfrau Lewis Morys	55



CONWY :
ARGRAPHWYD GAN R. E. JONES A'I FRODYR.

GAN YR UN AWDWR,—

EDMWND PRYS,

TRAETHAWD BYWGRAPHYDDOL A
BEIRNIADOL.

Yn Rhad drwy y Post am y pris gostyngol o **3s.**
Anfoner yr Archebion i T. R. ROBERTS, 42, Dinorwic
Street, Caernarfon.

ADOLYGIADAU.

“Mae ol llafur mawr ar y gwaith, a rhaid cydnabod fod y rhan feirniadol ohono gryn fesur yn uwch o ran teilyngdod na gweithiau cyffelyb gan feirniaid Cymreig yn gyffredin. Mesurir a chymherir yn deg, ac ni cheisir na chanmol na chondemnio heb achos. Bydd y llyfr yn ychwanegiad at y llyfrau goreu yn llenyddiaeth feirniadol Cymru.”—*Yr Herald Cymreig.*

“Penod arbenig o ddyddorol a galluog drwyddi yw yr un a ysgrifennodd ar y Salmâu Cân.”—*Y Glorian.*

“Y mae y gyfrol yn gaffaeliad gwerthfawr i lenyddiaeth Cymru, ac yr ydym yn diolch o galon i Mr. Roberts am dani.”—*Y Cymro.*

“O'r braidd y cipiodd y buddugwr y wobr oddiar *Asaph*, yn wir, y mae darllen y gwaith yn rhoddi ar ddeall i ni ein bod yn nghymdeithas ysgrifenydd galluog.”—*Y Llan a'r Dywysogaeth.*

“A standard literary work.”—*Liverpool Mercury.*

“I have read your book with much interest. It will be a valuable addition to the editions of our early poets.”—*J. H. Davies, Esq., M.A., Aberystwyth.*

“Nid oes amheuaeth am deilyngdod y traethawd fel casgliad ac fel beirniadaeth, ac y mae yn gaffaeliad gwerthfawr i lenyddiaeth Cymru.”—*Y Cyfaill Eglwysig.*

“Y mae yn sicr o gael derbynriad helaeth yn Meirion. . . . Cawn yn y llyfr amryw ddarluniau rhagorol iawn, ac y mae o’i ddechreu i’w ddiwedd wedi ei ysgrifenu gyda manylwch a choethder mawr.”—*Y Rhedegydd.*

“Caffaeliad yw y gwaith gorchestol sydd ger ein bron. Gyda’r adfywiad cenedlaethol, daw adgyfodiad i hanes a gweithiau y cymeriadau a fuont yn amlwg yn ffurfiad cymeriad y genedl.”—*Y Tyst.*

“Dyma lyfr ag y teimlwn yn falch ohono, ar gyfrif y gwrthddrych clodwiw ac ar gyfrif rhagoroldeb y gwaith. . . . Y mae *Asaph* wedi llafurio yn helaeth, yn meddu ar feddwl annibynol, yn feirniad a llenor da, ac uwchlaw pob peth yn ysgrifenu yn glir a darllenadwy. . . . Peth gwerthfawr iawn yw cael beirniad di-duedd i ysgrifenu ar wr o dalent a safle Archddiacon Meirionydd.”—*Celt Llundain.*

“Dengys yr awdwr gynefindra helaeth â hanesiaeth Gymreig y cyfnod, a cheir digon o brawfion fod y llyfr wedi costio iddo lafur mawr. . . . Gwnaeth yr awdwr yn dda ei gyhoeddi, a ni a eiddunwn iddo gylchrediad helaeth.”—*Yr Eurgrawn Westeyaid.*

“Ni bydd llyfrgell Cymro yn gyflawn hebddi. Y mae yr hanes, y feirniadaeth, y dyfyniadau, y darluniau,—y cwbl oll, yn rhagorol iawn. . . . Y mae lenyddiaeth ein gwlad wedi cael trysor. . . . Diolchir am wasanaeth Mr. Roberts yn y dyddiau a ddeuant, ac yr ydym yn gobeithio y telir iddo trwy brynu ei lyfr yn y dyddiau hyn.”—*Y Gwyl-iedydd.*

“Yr oedd genym ddisgwyliadau uchel, yn herwydd tystiolaethau ffafriol y beirniaid, am y gwaith, ac ni chawsom ein siomi. Ceir yma bortread ffyddlawm a thra boddhaol o'r Archddiacon galluog a dysgedig. . . . Dygir y cyfnod yr oedd yn byw ynddo, yn rhai o'i weddau mwyaf dyddorol, mewn modd eglur ger ein bron. . . . Ceir hefyd yn y llyfr feirniadaeth alluog a theg ar weithiau barddonol Edmwnd Prys. . . . Pris y llyfr yw 4s., ac y mae yn llawn werth yr arian.”
—*The Christian Pictorial*.


“Y mae yr awdwr wedi gwneyd gwasanaeth trwy awgrymu gwelliantau yn yr acen anghywir oedd Edmwnd Prys wedi fabwysiadu, a chredwn pe mabwysiedid lluaus o'r gwelliantau hyn, buasai mwy o ganu ar Salmau yr Archddiacon. Cofier mai nid wedi awgrymu newid syniadau mae yr awdwr, ond yn unig yr aceniad, ac y mae yn hollol yn ei le. . . . Ni chawsom fwy o bleser er's llawer dydd nag wrth ddarllen y llyfr drwyddo.”
—*Mr. David Jenkins yn y Cerddor*.


“Y mae y gyfrol drwyddi yn rhagorol. . . . Ni bydd un llyfrgell Gymreig yn gyflawn hebddi.”
Baner ac Amserau Cymru.

“Mae y gyfrol hon yn anrhydedd i'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn gofgolofn o'i gwasanaeth. . . . Nid oedd genym o'r blaen ddim i'w gymharu â'r gyfrol hon mewn rhoddi syniad am fywyd, a llafur, a doniau Edmwnd Prys.”—*Y Parch. Dr. Owen Davies, yn y Greal*.

“Yr ydym yn diolch o galon i *Asaph* am ei lafurus gariad, ac yn dymuno i'r gyfrol ddestlus hon gylchrediad helaeth.”—*Y Dysgedydd*.

“Teilynga *Asaph* ganmoliaeth arbenig am gyhoeddi amryw o weithiau anghyhoeddedig yr Archddeacon, ac y mae y nodiadau beirniadol ar y rhai hyn yn rhagorol.”—*Y Goleuad*.





VA